ECO'R WYDDFA

Rhif 164 RHAGFYR 1990 Pris 25c

WYTHNOS GENEDLAETHOL DOD Â PHOBL Y FRO AT EU COED

Rhai o weithwyr Antur Waunfawr yn cynorthwyo i blannu coed ger maes chwarae Cwm-y-Glo.

Daw'r rhifyn hwn o'r Eco o'r wasg yn ystod wythnos Genedlaethol y Coed ac felly yng nghanol gweithgarwch sydd wedi dod â'r Cyngor Sir, Cyngor Cymuned Llanrug, plant tair ysgol yn y fro ac Antur Waunfawr at ei gilydd.

Dan gynllun Adran Gynllunio'r Cyngor Sir mae'r Cyngor Cymuned wedi dewis tair ardal ar gyfer plannu coed, sef maes chwarae Ffordd yr Orsaf, Llanrug, ger cae chwarae pentref Cwm-y-Glo, ac ym Mhwll Moelyn, Llanrug. Disgyblion o Ysgol Brynrefail ac ysgolion Cynradd Cwm-y-Glo a Llanrug fu'n gwneud y plannu ac yn trafod y gwahanol fathau o goed gyda Swyddog Coed y Cyngor Sir. Bu tîm o Antur Waunfawr yn cynorthwyo gyda'r gwaith trwm.

Bob Thomas, Richard Pritchard (Cadeirydd), a Gwyndaf Jones (Clerc) Cyngor Cymuned Llanrug. Bu'r Cyngor yn gweithredu tri chynllun plannu coed.

Lehanne, Melanie a Sarah o Ysgol Cwm-y-Glo yn mwynhau'r plannu.

Ac mae Glyn a Kevin hefyd yn ei weld yn waith eitha pleserus.

Mae Cynllun Plannu Coed Gwynedd yn medru rhoi cyngor rhad ac am ddim a chymorth i berchnogion tir yng Ngwynedd sy'n dymuno plannu coed brodorol er lles byd natur a'r tirwedd.

GWOBR GYMUNED I FENTER FACHWEN

Mae Menter Fachwen, prosiect gwirfoddol sy'n darparu gwir waith i rai anabl eu meddwl, wedi ennill gwobr o £100 yn y Gystadleuaeth Menter Cymuned a drefnwyd gan Wasanaethau Gwirfoddol Gwynedd, ac a noddwyd gan Shell UK.

Yn y darlun gwelir is-gadeirydd Menter Fachwen, Dafydd Ellis (yn y canol) yn derbyn y wobr gan Gadeirydd Cyngor Sir Gwynedd, ac Eileen Fennell o Shell UK.

Mewn menter wirfoddol ar lechwedd bryn uwchlaw Llanberis, mae Menter Fachwen yn adnewyddu bwthyn chwarelwr gyda saith acer o dir a'i droi'n llecyn deniadol i ymwelwyr. Mae'r cynllun eisoes yn cynnig profiad gwaith ymarferol i bump o oedolion anabl eu meddwl.

GENOD AR Y BRIG

Unwaith eto, merch gipiodd gadair Eisteddfod Ysgol Brynrefail. Ond nid dyna'r unig anrhydedd ddaeth i ran Tammi Jones o Lanrug, yn yr Eisteddfod eleni. Tammi hefyd, sydd yn y pumed dosbarth, aeth â Thlws Emma Bernard am yr eitem adrodd orau, a'r tlws am y mwyaf o farciau dros 15 oed. Dim rhyfedd ei bod yn wên o glust i glust yng nghanol genethod o Ysgol Gynradd Llanrug a berfformiodd y ddawns flodau yn ystod Seremoni'r Cadeirio.

Llongyfarchiadau triphlyg hefyd i Lindsey Vaughan Parry o Ddeiniolen ar ennill y tlws mwyaf o farciau dan 15 oed yn Eisteddfod Ysgol Brynrefail ac ar ennill ar y gân werin ac ar yr unawd gerdd dant dan 12 oed yn yr Ŵyl Gerdd Dant a gynhaliwyd ym Mangor yn ddiweddar.

Manylion a lluniau o'r Eisteddfod Ysgol ac o'r Ŵyl tu mewn.

COFIWCH BOD UN RHIFYN ARALL O'R ECO CYN Y NADOLIG

ECO'R WYDDFA

RHIF 164

RHAGFYR 1990

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd Cibyn, Caernarfon.

Cyhoeddwyd gyda chymorth Cymdeithas Gelfyddydau Gogledd Cymru.

SWYDDOGION A GOHEBWYR

GOLYGYDD NEWYDDION CYFFREDINOL: Twrog Jones, Pros Kairon, Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4051)

GOLYGYDD ERTHYGLAU: Dafydd Whiteside Thomas, Bron-y-Nant, Pontrhythallt, Llanrug (C'fon 3515)

GOLYGYDD NEWYDDION PENTREFI: Nant Roberts, Arwel, Pontrhythallt (870760)

GOLYGYDD CHWARAEON: Dafydd Evans, Sycharth, Penisarwaun (Llanberis 872407)

ECO'R IFANC: Mrs Nan Humphreys, Pant Bryngwyn, Tanycoed (C'fon 5668)

DYDDIADUR Y MIS: Mrs Olwen Llywelyn, Pant Afon Bach, Llanrug (Waunfawr 200)

FFOTOGRAFFWYR: Gwyndaf Jones, 60 Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4669)
Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug (C'fon 77263)

TREFNYDD HYSBYSEBION: John Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug (C'fon 5605)

TREFNYDD GWERTHIANT: Arwyn Roberts, Hafle, Ffordd yr Orsaf, Llanrug (C'fon 5510)

TREFNYDD ARIANNOL: Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug (C'fon 4839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST: Mrs E Whiteside Thomas, Dolwar, Llanrug (C'fon 4778)

GOHEBWYR PENTREFI: Dyma'r bobl i gysylltu â nhw yn eich ardaloedd.

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran, (Portdinorwig 670726)

BRYNREFAIL: Miss Lowri Prys Roberts, Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Mrs Beryl Roberts, Gerallt, Erw Wen (C'fon 3536)

CEUNANT: Gwenno Parri, Morwel (Waunfawr 321)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands, Glanrafon (Llanberis 872275)

DEINIOLEN: W O Williams, 6 Rhydfadog, Deiniolen (Llanberis 871259)

DINORWIG: Mr D J Thomas, 8 Maes Eilian (870773)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion Roberts, Becws Eryri, 870491.

LLANRUG: Mrs Dyfi Jones, Tyddyn Rhuddallt (Caernarfon 76733)

NANT PERIS: Mrs Ann Pleming, Dolwen, 8 Nant Ffynnon (871457)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans, Sycharth (Llanberis 872407)

TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry, Ael y Bryn. (872 276)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts, Pantafon, Waunfawr (Waunfawr 570).

Y RHIFYN NESAF
Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
NOS IAU, RHAG 20
Deunydd i law'r golygyddion perthnasol
NOS FAWRTH, RHAG 11
os gwelwch yn dda.

Llafar

PLANT THATCHERIAETH: 'FAINT GAWN NI!'

Y dydd o'r blaen clywais sylw diddorol iawn: fod dros ddeng mlynedd o lywodraeth geidwadol wedi magu'r syniad o gael tâl ariannol am bob gweithred a gyflawnid, a bod hyn yn arbennig o wir yn y to ifanc hyd at ddeg-ar-hugain oed. Dwn i ddim pa gymwysterau economegol-gymdeithasol sydd ei angen i brofi neu i wrth-brofi syniad o'r fath, ond mae'n werth pendroni ynglyn â'r safbwynt.

Beth am ddechrau gyda'r papur bro. Pan sefydlwyd 'Eco'r Wyddfa' bedair mlynedd ar ddeg a chant chwe deg a phedwar o rifynnau yn ôl, roedd cyfran helaeth o'r gweithwyr tua deg ar hugain oed. Bellach, mae bron bawb o'r golygyddion a phrif swyddogion y papur dros ddeugain oed: hynny yw, yn bobl ganol oed! Ble mae to ifanc ein bro?

Yr un yw'r sefyllfa ar gynghorau ein hardal: yn gynghorau cymuned a dosbarth. Prin iawn yw'r nifer o gynghorwyr o dan ddeugain oed, ac y mae cyfran sylweddol ohonynt eisoes wedi ymddeol o'u gwaith bob dydd. Nid dadlau yr wyf nad oes angen cynghorwyr canol oed a hŷn, ond mynegi'r safbwynt fod angen rhai ieuengach hefyd — pe bai ond er mwyn cael cydbwysedd oedran a phrofiad o fewn ein cynghorau.

A thybed nad yr un yw'r sefyllfa o fewn pwyllgorau gwahanol fudiadau'r fro — yn Ferched y Wawr, Cymdeithasau Llenyddol ac Eisteddfodau lleol? Byddai'r 'Eco' yn falch o glywed gan unrhyw fudiad sydd a swyddogion ieuengach na deg ar hugain ganddo.

Gellir dadlau fod gwŷr a gwragedd o fewn yr oedran y cyfeiriwyd ato yn rhy brysur yn magu teuluoedd — ond nid yw hynny, mae'n ymddangos, wedi atal rhieni rhag cymryd rhan mewn gwahanol weithgareddau cymdeithasol yn y gorffennol.

Un syniad a awgrymwyd ynglyn â'r theori oedd fod pobl ifanc bellach yn disgwyl tâl ariannol am bob gwaith, ac felly, fod gweithgareddau gwirfoddol yn dioddef. Ar y llaw arall, gellir dadlau fod costau byw teuluoedd ifanc mor uchel fel na allant fforddio rhoi eu hamser i wahanol fudiadau o fewn eu cymdeithas.

Efallai, wrth gwrs, fod y bobl ifanc hyn yn weithgar iawn mewn meysydd eraill — meysydd nad ydynt yn cael sylw yn ein papur bro. Os felly, dyma'r cyfle i wneud iawn am y camargraff. Mae'r 'Eco' yn agored i bob barn ac i bob math o newyddion.

LLYTHYRAU

CANTOR

Annwyl Olygydd,
Ysgrifennaf ar ran Cantor Cyf., sydd newydd gynhyrchu caset newydd 'Alawon Gwerin Cymreig' a berfformir gan y D.L.O. enwog!

Yn ei ddisgrifiad o'r caset, dywed Wyn Thomas (awdurdod ar Gerddoriaeth Traddodiadol Cymru):

'Nid ar chwarae bach y mae trefnu alaw draddodiadol — yn wir, gwelwn ar hyd y cenedlaethau, mai prin iawn fu'r cyfansoddwyr hynny a wnaeth yn fawr o'r wythien gyfoethog hon o gerddoriaeth y werin. Ceir ar y caset hwn, gasgliad lliwgar ac atyniadol o ganeuon traddodiadol y Cymry mewn gwisg newydd a diddorol. Rhywbeth at ddant pawb glywn ni yma. Heb amheuaeth, y mae iddynt apêl cyfareddol. Hyderaf y cewch fwynhad arbennig wrth wrando arnynt.

Mae'r caset ar gael yn y siopau ar hyn o bryd. Y pris yw £4.99.

Pob hwyl,
KARENZA OWEN,
Y Labordy Cerdd,
Prif Adeilad y Celfyddydau,
Prifysgol Cymru,
Bangor, Gwynedd LL57 1UT

Cyngor Eglwysi Rhyddion Cymru

MEDALAU THOMAS GEE A MADAM DORIS BEVAN EVANS

Gwahoddir ceisiadau am y medalau uchod oddiwrth aelodau hŷn yr Ysgol Sul, hynny ydyw, aelodau sydd dros 80 oed.

*Un amod pendant yn unig sydd ynglŷn â'r ceisiadau hyn, yn ôl y ffurflen — 'A yw'r ymgeisydd yn **parhau i fynychu** yr Ysgol Sul?'. Rhaid cadw'n dynn at yr amod hwn.*

*Dyddiad olaf derbyn ceisiadau — **Rhagfyr 30, 1990**. Anfoner am y ffurflen gais at:*
Y Parch J. Haines Davies
'Goleugell',
24 Ffordd Cadwgan,
Colwyn LL29 9PY.

HWB ARIANNOL I ANTUR PADARN

Mewn cyfarfod o Antur Padarn a gynhaliwyd yn yr Angorfa, Llanberis, ar nos Fercher, Tachwedd 7, adroddwyd bod **Banc y National Westminster** wedi cytuno i gyfrannu swm sylweddol o arian tuag at y swm sydd ei angen arnom ar gyfer cyhoeddi holiadur yr Antur.

Yn naturiol, roedd y newyddion yma i'w groesawu yn fawr iawn ac mae'r Antur yn hynod o ddiolchgar i'r Banc am eu cefnogaeth hael. Gobeithir trefnu cyfarfod i gyflwyno'r siec o fewn yr wythnos neu ddwy nesaf.

Wrth gwrs, mae'r Antur yn dal i obeithio y daw cynnig pellach o nawdd ariannol o gyfeiriad arall gan ein bod yn dal yn fyr o dalu cost llawn argraffu'r holiadur.

Felly byddai Mr Gwilym Evans, Trysorydd yr Antur yn falch o glywed gan unrhyw un a allai gynnig cymorth ariannol o'r fath i ni. Rhif ffôn y trysorydd yw Llanberis 872034.

CYSTADLEUAETH LOGO

Hefyd adroddwyd bod cystadleuaeth y Logo wedi ei lansio a bod pob Ysgol Gynradd ac Uwchradd yr ardal wedi derbyn y wybodaeth angenrheidiol.

Wrth gwrs mae croeso i'r cyhoedd yn gyffredinol i gystadlu ac i'r perwyl hwn mae posteri wedi eu rhoi i fyny mewn llu o siopau a chanolfannau y gwahanol bentrefi. Mawr hyderwn y bydd yr ymateb yn dda fel y gallwn arddangos Logo newydd yr Antur yn y flwyddyn newydd.

Os am wybodaeth pellach am hyn yna dylid cysylltu â Mr Selyf Morgan a'i rif ffôn yw Llanberis 870132.

AM DDIM!
Gellir gosod mân hysbysebion AM DDIM yn yr Eco.

AR WERTH
Dau wely 'Bunk' 6 x 3 gydag ysgol. Gwneuthuriad saer mewn pîn solat. £83 neu'r cynnig agosaf.
Teledu du a gwyn 12" fel newydd — £28.
Peiriant golchi 'portable' — £75 neu'r cynnig agosaf.
Ffôn: 870 329.

Castell Cidwm
Dewch i gael bwyd ym **Mwyty'r Pysgotwyr, GWESTY CASTELL CIDWM** ar lan Llyn Cwellyn. **Coginio Prydeinig**, yn gynnil o wahanol. **Gwinnoedd diddorol. Tân Coed. Clustogau Cyfforddus. Golygfeydd Hardd.** Lle rhagorol i ymlacio.
Betws Garmon, Ffôn: Waunfawr 243

Diwedd cyfnod yn y 'Bull' —

FFARWELIO Â THAIR CENHEDLAETH

Mae bron i hanner can mlynedd o gysylltiad teuluol â Thafarn y 'Bull', Deiniolen, wedi dod i ben gydag ymddeoliad Mrs Clarice Roberts.

Ym mis Chwefror 1942 y daeth Sam Maddox i Ddeiniolen i ofalu am ffydloniaid y 'Bull'. Parhaodd gyda'r gwaith hyd Ebrill 1969 — saith mlynedd ar hugain o lenwi a golchi gwydrau sychedigion 'Llanbabo'. Ar ei ymddeoliad, daeth gofal y dafarn i'w ferch a'i fab yng nghyfraith — Clarice a Merfyn Roberts. Ar farwolaeth Merfyn yn 1979, trosglwyddwyd y drwydded i Clarice; ac am y chwe mlynedd diwethaf, bu ei merch hithau, Delyth Hunter, yn cynorthwyo gyda'r gwaith. Bellach, penderfynodd Mrs Roberts roi ei thraed i fyny a chael gorffwys o'r gwaith.

Bydd teulu o Fethesda — Jean a Neville Williams yn gofalu am y 'Bull' bellach, a dymunir pob llwyddiant iddynt gyda'r gwaith, a chroeso i'r ardal.

Delyth Hunter, Sam Maddox (a fydd yn 90 oed fis Chwefror) a Clarice Roberts — tair cenhedlaeth o gysylltiad â'r 'Bull'.

BWRDD YR IAITH GYMRAEG YN CROESAWU AAC

Croesawodd Bwrdd yr Iaith Gymraeg deitl swyddogol Cymraeg newydd y National Rivers Authority — Awdurdod Afonydd Cenedlaethol — fel rhan o bolisi iaith cynhwysfawr ar gyfer y Gymraeg y bydd yr Awdurdod yn ei weithredu cyn bo hir.

Dywedodd John Walter Jones, Cyfarwyddwr y Bwrdd: 'Rydym yn edrych ymlaen i weld cerbydau ac offer NRA o gwmpas Cymru yn cario'r llythrennau AAC arnynt ond rhan weledol yn unig fydd hon o bolisi iaith Gymraeg pell-gyrhaeddol.

'Bydd yn cynnwys gwersi Cymraeg i'r staff a sefydlu gwasanaeth brys 24-awr dwyieithog i'r cyhoedd. Fel llawer corff arall yng Nghymru, mae'r Awdurdod wedi cymryd golwg o'r newydd ar ei bolisi iaith yn ddiweddar ac wedi gwneud defnydd o Ganllawiau'r Bwrdd ar gyfer y Sector Cyhoeddus i ddiweddaru ei bolisi.'

Cyhoeddwyd Canllawiau'r Bwrdd ym mis Gorffennaf '89 ac ers hynny maent wedi bod o gymorth i lawer corff gan gynnwys yr Adran Nawdd Cymdeithasol, Cyllid y Wlad a'r Asiantaeth Hyfforddi wrth iddynt ddiweddaru eu polisïau iaith.

Dywedodd Mr Jones: 'Mae'r cyhoedd yn aml yn tueddu cysylltu'r Bwrdd gyda deddfwriaeth i'r iaith Gymraeg yn unig. Yn ymarferol, rydym hefyd yn treulio cryn dipyn o amser ar brojectau eraill, yn arbennig drwy gynghori cyrff o'r sectorau cyhoeddus a phreifat ar ddefnyddio'r Gymraeg.

'Mae AAC, er enghraifft, wedi gwneud defnydd da o'n Canllawiau a'n cyngor iddynt ac rydym yn hynod o falch gyda'r canlyniadau.'

GWOBR Y CO-OP I'R ECO

Nant Roberts a Dafydd W. Thomas — dau o'r golygyddion yn arddangos y dystysgrif a enillwyd gan y papur bro, ynghŷd â chopi o'r papur a ddaeth yn fuddugol yn y gystadleuaeth.
(Llun drwy garedigrwydd yr Herald Cymraeg).

Mewn seremoni arbennig yn Aberystwyth nos Fercher, Tachwedd 14eg, cyflwynwyd gwobrau arbennig i chwech o bapurau bro gorau Cymru. Dyma'r drydedd flwyddyn yn olynol i Gwmni'r Co-op noddi cystadleuaeth i bapurau bro mewn cydweithrediad â'r tair Gymdeithas Gelfyddydau Rhanbarthol — a dyma'r tro cyntaf i 'Eco'r Wyddfa' ymgeisio am wobr. Eleni, roedd gwobrau yn cael eu cynnig mewn dau gategori — DIWYG a CHYNNWYS. Y beirniaid oedd Iorwerth Roberts o'r 'Daily Post' a Clive Betts o'r 'Western Mail', ac wrth longyfarch yr enillwyr dywedodd y ddau y buasent yn fodlon iawn gwobrwyo eraill hefyd, gan mor dynn oedd y gystadleuaeth.

Ein cymdogion 'Y Goriad', a'r 'Bigwn' o dref Dinbych aeth a'r prif wobrau am Ddiwyg gyda gwobr gysur i 'Papur y Cwm' o Gwm Gwendraeth.

Yng nghategori Cynnwys rhoddwyd £200 yr un i 'Y Bedol' (ardal Rhuthun) ac 'Eco'r Wyddfa', gyda phapur bro Saesneg y 'Chronicle' o'r hen Sir Drefaldwyn yn derbyn y wobr gysur. Cyflwynwyd y sieciau a thystysgrifau hardd i gynrychiolwyr y papurau bro hyn gan Mr Griff Williams, Cadeirydd y Co-op yn ne Cymru.

Yn dilyn y gwobrwyo, cafodd swyddogion a gohebwyr y papurau bro gyfle i siarad a thrafod eu problemau, a hefyd i gael gair gydag un o'r beirniaid — Clive Betts — a rhaid cydnabod fod y sgwrs honno wedi bod yn gymaint gwobr a'r un ariannol.

Trueni na fyddai wedi bod yn bosibl i bob papur bro dderbyn beirniadaeth unigol: gallai sylwadau adeiladol y beirniaid fod wedi bodo fudd garw.

Yn cynrychioli 'Eco'r Wyddfa' yn y seremoni roedd Nant Roberts, Golygydd Newyddion Pentrefi; John Roberts, Trefnydd Hysbysebion; a Dafydd Whiteside Thomas, Golygydd Erthyglau.

DRAENOG

Clywed am wraig fonheddig yn Neiniolen sydd bob amser yn gwisgo'n hynod dwt a thaclus. Yn fuan ar ôl troi'r awr llwybreiddiodd y wraig hyfryd yma yn osgeiddig i'w sedd arferol yn y capel fel roedd yr oedfa foreol yn dechrau.

Gwelwyd ei bod yn gwisgo clustdlysau newydd, ar un glust o leiaf. Ond och a braw? O sylwi'n fanylach gwelwyd mai cyrlar oedd yr honedig glust-dlws. Rhaid codi'n gynt y tro nesaf oni fydd?

Cysylltwch â ni cyn miri'r Nadolig
Gwaith Proffesiynol Prisiau Rhesymol
FFLAM ERYRI
Rhowch alwad i arbenigwr wedi'i hyfforddi'n llawn gan Nwy Prydain
Gwasanaeth 24 awr
Geraint Fôn Williams ☎ Penmaenmawr 622422

AM DEITHIAU CYFFORDDUS, DIOGEL A RHAD YM MHRYDAIN A THRAMOR ...

BYSIAU ARFON
LLANRUG
(Eric Morris)
Ffôn: Caernarfon 5175 77858

CWM-Y-GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: 872275

CYDYMDEIMLAD: Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Megan a Geraint Pritchard, Bryn Difyr, yn eu profedigaeth o golli brawd yng Nghaernarfon.

DIOLCH: Dymuna Megan a Geraint ddiolch o galon i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniasant yn eu profedigaeth o golli eu brawd, Mr Alun Griffiths.

BINGO: Fe gynhaliwyd Bingo yn y Ganolfan nos Fercher, Hydref 23. Casglwyd £209.00 o elw, a ddefnyddir i gynnal Cinio Nadolig oedolion y pentref. Mrs Enid Price oedd yn galw ar y noson.

Enillwyr y Brif Raffl oedd— Doli: Mrs Glenys Pritchard; Potel Sieri: Myfanwy Roberts; 'Mug Tree': Mrs Iris Rowlands.

Enillwyr raffl y noson oedd — Hamper: Mrs Enid Price; Slipars: Sharon Judge; Sieri: Carwyn Davies; Siocledau: Doreen Fleetwood; Bisgedi: Veronica Williams; Gemau: Doreen Fleetwood; Gwin: Joyce Roberts; Jig-so: Megan Pritchard; Addurniadau Nadolig: Arwyn Jones; Gwin: Mark Owen Roberts.

Derbyniwyd llawer o anrhegion a rhoddion gan lawer i hyrwyddo y noson — estynnwn ein diolch gwresocaf ichwi oll am eich haelioni.

CINIO NADOLIG YR OEDOLION: Cynhelir y Cinio Nadolig yn y Ganolfan Nos Fercher y 5ed o Ragfyr am 6.00 o'r gloch. Croeso cynnes i bawb.

YSGOL FEITHRIN: Noson Calan Gaeaf cynhaliwyd Disco yn yr ysgol er budd yr Ysgol Feithrin. Cafwyd noson lwyddiannus a gwnaed elw o tua £70. Dymuna'r pwyllgor ddiolch o galon i bawb a roddodd nwyddau a'r rhai a gyfrannodd at y raffl a phawb a'n cefnogodd ar y noson.

Enillwyr y raffl oedd: Lamp Dyn Eira: Martin, 10 Dolafon; Nwyddau: Elin, Craig y Don; Gwin: Clare, Brynrefail; Bag Pegiau: Elin Harding; Llun: Paul Fleetwood; Siocled: Carl Jones, Dolafon; Bisgedi: Karen, 24 Dol Elidir, Llanberis; Nwyddau, Arwel, Piggery Pottery; Bisgedi: Margaret McKee; Talc: Gwen, Piggery Pottery; Ambarel: Min-y-Don; 'Stand' i Debot: Arron Steele; 'Tea Cosy': Arwel, Piggery Pottery.

CYNHELIR Gyrfa Chwist Nadolig yn yr Ysgol Gymuned nos Fercher, Rhagfyr 12 am 7.30pm. Pris mynediad 75c.

CROESO i Mr Elfed Hughes, gynt o Alexandra House, sydd ar ymweliad â'i chwaer Mrs Dilys Sharp yng Nghaernarfon.

Ymfudodd Mr Hughes i Seland Newydd yn dilyn ei brentisiaeth fel peiriannydd morol yn yr Alban.

Mae yn nai i Miss E. Hughes, Tan y Graig a Mr Llew Hughes, Hyfrydle.

UNDEB Y MAMAU: Cynhaliwyd cyfarfod blynyddol Undeb y Mamau yn yr Ysgol Gymuned, Nos Fawrth, Tachwedd 13 am 7 o'r gloch. Dechreuwyd y cyfarfod gyda gweddi.

Darllenwyd cofnodion o'r cyfarfod a gafwyd ar 14 Tachwedd 1989 a phasiwyd eu bod yn gywir. Cafwyd adroddiad gan y Trysorydd am y sefyllfa ariannol.

Ail etholwyd y swyddogion am flwyddyn arall sef — Swyddogion Cofrestru: Mrs Enid Taylor a Mrs Doris Pierce; Ysgrifenyddion: Mrs Hilda Orritt a Mrs V. Jones; Trysorydd: Mrs Gwyneth Roberts; Ymwelwyr y Claf: Mrs S. Edwards a Mrs Dorothy Jones.

Cafwyd adroddiad gan Mrs Taylor am y pwyllgorau a gynhaliwyd ym Machynlleth ar 12 Gorffennaf ac yn Harlech ar 11 Hydref.

Y mae'r gangen wedi penderfynu gwneud baner newydd. Cytunodd Mrs Joyce Ransom i gynllunio'r faner.

Bydd y gwasanaeth Carolau yn cael ei gynnal yn Hafan Elan, Llanrug, ar Ragfyr 6. Croeso cynnes i bawb.

Yn gofalu am y lluniaeth roedd aelodau Cwm-y-Glo, a diolchwyd iddynt gan Mrs M. Latham. Rhoddwyd y ddwy raffl gan Mrs Edwards a Mrs Dorothy Jones ac fe'u henillwyd gan Mrs Joan Williams a Mrs D. Pierce.

RHEDWR LLWYDDIANNUS

LLONGYFARCHIADAU: Ers i Martin Parry, Glandŵr, ddod yn gyntaf yn Ras y Wyddfa dan 12 oed, daeth yn 1af yn Ras 1,500m dan 12 oed a gynhaliwyd yng Nghaernarfon ac hefyd yn ail yn yr adran dan 12 oed yn Ras Antur Waunfawr.

Mae Martin wedi ymuno â Chlwb Rhedwyr Eryri. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i ti i'r dyfodol, Martin.

YR YSGOL GYMUNED: Ers y tro diwethaf i ni gwrdd, mi rydw i wedi bod yn Llundain fawr yn Lloegr.

Yr oedd mwy o Gymry a mwy o athrawon y cylch yma i'w gweld yno nag a welwch ar Sgwâr Caernarfon. Roedd hi fel 'Home Sweet Home' go iawn.

Yn ystod yr wythnos honno fe gollais Noson o Chwarae Bingo a drefnwyd gan Mrs Vera Price i godi arian at Swper 'Dolig yr Henoed. Yn ôl yr arian a godwyd, gwell i neb beidio colli'r Swper! Bydd danteithion melys yn llifo fel afon, rwy'n siŵr!

Ar nos Fawrth, Hydref 30, cynhaliwyd Cwis i godi arian at goffrau'r Adran Gymuned. Cafwyd noson arbennig o ddifyr a diddorol wedi ei threfnu gan Mr Brian Jones. Ar y noson daeth tîm teulu Min y Nant yn ail i dîm yn cynnwys Mrs Dorothy Jones, Mr Dafydd Rowlands a rhyw foi barfog o Langefni.

Dyma restr o bobl gafodd wobr yn y Raffl a gynhaliwyd ar y noson: Bisgedi (Rhoddedig gan Mrs Orritt): Donna Williams, Glanbogelyn; Bocs o Siocled (Rhoddedig gan Mrs Iris Rowlands): Mrs P. Rowlands, Tal Afon, Rallt Goch; Gwin Gwyn (Rhoddedig gan Gwyn Hefin Jones): Nia Hughes (oedd yn cadw'r sgôr ar y noson); Gwin Pinc (Rosé i chi sy'n arfer yfed) (Rhoddedig gan Mrs M. Williams, Bryn): Bethan Hughes (Chwaer Nia). Gwiriadur (Rhoddedig gan JRW): Mrs Julie Rowlands, Bethesda.

Ers tair wythnos rwan, mae yma ddwy fyfyrwraig o'r Coleg Normal. Gobeithio fod Miss Rhiannon Matthews a Miss Sioned Evans yn mwynhau eu hunain. Bu'r Plant Hynaf yn ymweld â Chastell Dolbadarn efo Miss Matthews fore Gwener diwethaf. Bore oer, niwlog, ond llawn awyrgylch a phrofiadau cofiadwy.

Ar Dachwedd 21 bu rhagor o Fingo yma i godi arian i Allan Pritchard, Nant Peris. Anti Margaret, Bryn, sy'n trefnu. Ydy, mae calon pobl y Cwm yn y lle iawn.

Dyna ni am y tro. Cofiwch am Wasanaeth Nadolig yr Ysgol ar Ragfyr 17 am 6.30pm ac am y Swper 'Dolig i'r Henoed ar Ragfyr 5. Os byddwch yn y cyffiniau, cofiwch am bantomeim Theatr Fach Llangefni fydd yn dechrau ar Ragfyr 8. Dyna syniad da fyddai mynd a'r wraig a'r teulu yno fel rhyw anrheg Nadolig gynnar a mwynhau eich hun yn y fargen.

COFIO: Diwrnod i'w gofio pan synnwyd yr ardal gan lu o foduron a channoedd o bobl yn heidio i gyfeiriad Capel Mawr, ond nid i bwrpas arferol y cyn-aelodau.

Adeiladwyd y Capel fel llawer yn ardaloedd Cymru yn y ganrif ddiwethaf i gyflawni angen am aelwyd i addoli, a hynny gyda penderfyniad ac aberth mewn cyfnod caled ac anodd.

Rydym bellach wedi cynefino â hagrwch allanol y Capel, fu ar gau am flynyddoedd a harddwch mewnol yr adeilad yn aros yn y côf.

Profiad trist o gywreinrwydd yn unig oedd ymweld a'r adeilad yn ei gyflwr echrydus y dydd arbennig hwn, ac arwerthiant o'i gynnwys dan forthwyl yr arwerthwr yn creu gofid enbyd.

Cerdded i mewn tros lawr pridd i'r cyntedd ac wynebu ffenestr liwgar hardd, bellach wedi colli ei hurddas ynghanol yr alanast.

Y Pwlpud, sêt fawr, seddau a'r organ yn diflannu gan adael muriau noeth. Rhan o gefndir cyfnod euraidd y gorffennol yn diflannu megis cysgod, a sŵn y moliant yn atseinio yn y cof.

A oes ateb i ddifaterwch ein hoes?

Daliwch ati efo'r siopa Nadolig ac os ydych am anfon cerdyn i'ch cefnder sy'n byw ar Ynys ym Môr y De — rydych yn rhy hwyr. Mae'r post i'r fan honno wedi mynd ers pythefnos!

BRYNREFAIL

Miss Lowri Prys Roberts, Godre'r Coed. Ffôn: 870580

DIOLCH: Dymuna John Orwig Jones ddiolch i staff Ysbyty Gwynedd am eu caredigrwydd a'u gofal ohono tra yno.

Diolch hefyd i'w weinidog, ei deulu a chymdogion am eu hymweliadau yn yr ysbyty ac wedi iddo ddod gartref. Diolch hefyd i staff Clinig Llanberis.

FFILMIO: Un nos Wener yn ddiweddar roedd cryn chwilfrydedd a chynnwrf yn y pentref yng nghyffiniau'r llythyrdy pan sylweddolwyd fod criw ffilmio yn brysur wrth eu gwaith. Datgelwyd mai ffilmio ar gyfer adasiad teledu o nofel Caradog Pritchard 'Un Nos Ola' Leuad' oedd yn mynd ymlaen.

EGLWYS M.C. BRYNREFAIL: Bnawn Sul, Tachwedd 4ydd, bedyddiwyd Thomas Arthur Margetts a Lawrence Neal Margetts, plant Neal ac Eryl Margetts, Wendover, Swydd Buckingham, a gor-wyrion i Mrs Hannah J. Jones, 7 Trem Eilian.

Gweinyddwyd y Sacrament gan y Gweinidog, y Parch John Morris a'r rhieni bedydd oedd Sharon Owen a Meilir Roberts.

Yn ystod oedfa'r hwyr, hysbysodd llywydd y mis i'r Eglwys dderbyn rhodd o lyfr Emynau at wasanaeth y Sêt Fawr er cof am y diweddar George Ellis, Penrallt, gan y teulu.

Darllenwyd tocyn aelodaeth Mrs Eleanor Jones, Na'n Og, Erw Nant a chroesawyd hi yn gynnes i'n plith gan y Gweinidog.

Gwasanaethwyd ar Sul y Cadoediad gan y Parch Eric Jones, Bangor. Bu'n oedfa fendithiol, yn rhoi sylw arbennig i heddwch ac yn cynnwys sylwadau effeithiol i'r plant ar symboliaeth y pabi coch a'r golomen. Yn yr oedfa fore Sul, Tachwedd 18, gweinyddwyd y Sacrament o Swper yr Arglwydd gan y Gweinidog.

Cynhelir y gwasanaeth i ddathlu'r Nadolig eleni, ddydd Sul, Rhagfyr 16eg am 5.30 o'r gloch pryd y cymerir rhan gan aelodau, ieuenctid a phlant yr Eglwys. Croeso cynnes i bawb i'r gwasanaeth hwn.

NOSON TÂN GWYLLT: Bu'r Noson Tân Gwyllt eleni eto yn llwyddiant mawr. Ein diolch i'r rhai fu'n trefnu'r noson — Sheila Williams, Maureen Makke a Rhian Jones.

Bu'r cigydd, Wavel Roberts, a chyfeillion eraill yn hael eu cyfraniadau tuag at y lluniaeth a diolch am gefnogaeth y merched oll yn ei baratoi. Diolch arbennig i John S. Williams a Malcolm Jones am bwrcasu'r Tân Gwyllt a chynnal arddangosfa mor ardderchog.

DOSBARTH NOS: Daeth criw o ugain i ymuno â'r dosbarth nos Llythrennu yn y cyfarfod cyntaf nos Lun, Tachwedd 12fed. Cafwyd noson o weithgarwch brwd dan gyfarwyddyd Mrs Peggy Owen, Llanllechid.

CYNGERDD: Cynhelir Cyngerdd yn y Festri yng nghwmni Lleisiau'r Rhyd dan nawdd Cymdeithas y Chwiorydd Brynrefail M.C., nos Wener, Rhagfyr 14 am 7.30 o'r gloch. Pris y tocynnau yw £1.50 (£1 i blant a phensiynwyr).

Bydd paned a lluniaeth Nadolig i bawb ar derfyn y cyngerdd.

(parhad ar dudalen 6)



Mae JOAN a CHARLES WARE

SWYDDFA'R POST

a Stordy Cwm-y-Glo

Ffôn: 870242

yn dymuno Nadolig
Llawen a Blwyddyn
Newydd Dda i'w
holl gwsmeriaid

Hoffem ddiolch am eich cefnogaeth yn ystod y flwyddyn a dymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chwi oll

MODURDY

London Garage

AWERTHWR MODURON A PHARTIAU

FIAT

CWM Y GLO

Ffôn: Llanberis870234

Arbenigwyr mewn tiwnio moduron

M.O.T.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

BRYN A KATHLEEN WILLIAMS

HEN YSGOL GLANMOELYN

LLANRUG

Ffôn: 77482

Gwneuthurwyr ffenestri, dysau,
unrhyw fath o gynnyrch coed
Y coed meddal wedi derbyn triniaeth
arbennig i wneud iddynt bara

HEFYD YM
MECWS PEN Y BRYN
LLANBERIS Ffôn: Llanberis 870268
70 STRYD LLYN CAERNARFON Ffôn: 5526

Burmah — AM BETROL, DIESEL, OLEW AC AMRYFAL ANGHENION MODURO — Burmah

GORSAF BETROL

LONDON GARAGE

CWM-Y-GLO

Ffôn: Llanberis 872046

Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd
Dda i bawb

Dymuna Maldwyn a Margaret

Gwesty'r Fricsan

(Snowdon Hotel)

CWM-Y-GLO

Llanberis 870289

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb.
Croesewir cyfeillion hen a newydd dros yr Wyl
i weld y dafarn ar ei newydd wedd.

NADOLIG LLAWEN
A
BLWYDDYN NEWYDD DDA
oddi wrth

C & D.WAGER

Llythyrdy

BRYNREFAIL

Ffôn: LLANBERIS 870241

Eich Stor Leol Deuluol ar gyfer Papurau Newydd Bwydydd Ffrwythau Llyfrau Cymraeg Llysiau Melysion Tybaco

BRYNREFAIL *(parhad o dudalen 4)*

SEFYDLIAD Y MERCHED: Nos Lun, Tachwedd 19, cyfarfu'r gangen leol yn y Festri dan lywyddiaeth Mrs Pat Jones, a hwn oedd y Cyfarfod Blynyddol.

Croesawyd Mrs Eira Crockham, Trysoryddes Sir y Mudiad fel VCO ynghyd â'i chynhorthwy, Mrs M. Jones. Etholwyd y Swyddogion canlynol ar gyfer 1990-91 — Llywydd: Mrs Pat Jones; Ysgrifennydd: Mrs Betty Owen; Trysorydd: Mrs Eirlys Williams.

Yn ystod y cyfarfod mynegwyd gan y llywydd y bydd Cangen Brynrefail o Sefydliad y Merched yn dathlu 50 mlynedd ei sefydlu. Deellir fod yn ein plith yn y pentref chwe aelod a ymunodd â'r gangen a'i sefydlu ym mis Mai 1941.

Anfonwyd cofion at Mrs Blodwen Hughes, 12 Trem Eilian, sy'n derbyn triniaeth lawfeddygol yn Ysbyty Gwynedd.

Cynhelir Gŵyl Garolau Ffederasiwn Gwynedd o Sefydliad y Merched yn Eglwys Gadeiriol Bangor, nos Sadwrn, Rhagfyr 15fed am 6.30 o'r gloch. Llongyfarchwyd un o aelodau'r gangen, Miss Lowri Prys Roberts ar gael ei dewis i arwain y carolau cynulleidfaol yn yr Ŵyl.

Rhoddwyd y te gan Mrs Gwenda Thomas a Mrs Gwenllian Edwards. Rhoddwyd gwobr y mis gan Mrs Euronwy Roberts a Mrs Gwenllian Edwards oedd yr enillydd.

Bydd y cyfarfyddiad nesaf ar Ragfyr 10, sef y Cinio Nadolig blynyddol yng ngwesty Ty'n Llan, Llandwrog.

NOSON GYMDEITHASOL: Cyn i'r nodiadau hyn ddod o'r wasg, hyderwn y bydd y noson gymdeithasol fwriedir ei chynnal yn y Festri, nos Fawrth, Tachwedd 27, ac a drefnir gan Mrs Pat Jones, Cae Coch, wedi bod yn llwyddiant.

Disgwylir Mrs A. Hardwidge, Bethel, i roi arddangosfa a gwerthu nwyddau 'Impressions'. Bydd elw'r noson yn mynd tuag at barti Nadolig i'r Henoed yn y pentref. Gwyliwch allan am y dyddiad!

GENEDIGAETH: Llongyfarchiadau i Myrddin ac Eleanor Jones, Na'n Og, Erw Nant, ar enedigaeth efeilliaid. Croeso mawr i'r ddwy ferch fach, Caryl ac Awen.

CAEATHRO

Mrs Beryl Roberts, Gerallt, Erw Wen. Ffôn: C'fon. 3536

GWASANAETHAU'R CAPEL: Disgwylir pregethau gan y canlynol am 2 o'r gloch y prynhawn ar y Suliau ym mis Rhagfyr: 2il — Parch John Owen; 9fed — Parch Harri Parri; 16eg — Parch Harold Parry Jones.

DIGWYDDIADAU'R NADOLIG: Bydd Gwasanaeth Carolau yng Nghapel y pentref am 2.00 dydd Sul Rhagfyr 23. Disgwylir canu carolau o amgylch y goeden Nadolig ar 19 neu 20 Rhagfyr a gobeithir cynnal Parti Nadolig y plant yn ystod yr wythnos 10-14 Rhagfyr. Cyhoeddir y dyddiadau manwl yn y pentref yn nes i'r amser. Nadolig Llawen i bawb!

CLWB GER-Y-TÂN: Cafwyd noson bleserus iawn mis diwethaf yn Theatr Gwynedd. Cynhelir y Parti Nadolig yn Ty'n Llan, Llandwrog, nos Wener, Rhagfyr 21ain. Enwau i Beryl cyn gynted ag sy'n bosib, os gwelwch yn dda.

ATODIAD DEINIOLEN

CYMDEITHAS RHIENI AC ATHRAWON YSGOL GWAUN GYNFI: Sefydlwyd y gymdeithas ddechrau'r tymor hwn ac mae'r pwyllgor wedi cyfarfod ddwy waith yn barod. Bydd yn trefnu digwyddiadau addysgol ac yn codi arian i helpu tuag at gael adnoddau i'r ysgol. Bydd yn rhoi cyfle i'r rhieni a'r athrawon ddod at ei gilydd. Byddwn yn dechrau Clwb Cant ym Mis Ionawr. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Delyth Hunter neu Margaret Roberts yn yr ysgol.

ANRHEG NADOLIG DYMUNOL
Llun Lliw wedi ei fframio o LYN CELYN yn sych Medi 1989

Goddefwch am hyd at 10 diwrnod am ddarfodiad.

Dafonwch eich cyfeiriad a £14.85 i **G. Richards, P.B. 12, Porthmadog, LL49 9LH**

Dosbarthir yng Ngogledd Cymru yn ddi-dâl

Am waith
PEINTIO, ADDURNO
a mân atgyweirio oddi mewn neu tu allan am bris rhesymol
cysyllter ag

ERIC JONES
17 BRYN TIRION
PENISARWAUN
Ffôn: LLANBERIS 872421

CHWILOTA

'CYSURON CYMDEITHASOL' YN LLANBERIS

Mae'n debyg fod i'r flwyddyn 1871 le arbennig yn hanes pentref Llanberis. Cafodd y gwaith nwy ei gwblhau, cychwynwyd achos y Wesleaid yno, ond yn bennaf oll, agorwyd y 'Concert Hall'. Dyma benllanw'r cynllunio a'r bwriadau o gael neuadd fasnach a neuadd gyngherddau i'r pentref. Mae'r Herald Cymraeg yn ganmoliaethus iawn o ymdrechion y trigolion: 'Y mae trigolion anturiaethus yr ardal ramantus a chyflymgynyddol hon wedi gwneud un ychwanegiad arall at eu hamryw gysuron cymdeithasol.'

Roedd yr agoriad swyddogol i'w gynnal ar nos Fawrth, Gorffennaf 18ed, ond roedd pobl Llanberis wedi cael yr hawl i arddangos eu nwyddau yno ar y Sadwrn blaenorol.

Adeiladwyd y Concert Hall ar waelod Lake Street — y ffordd a arweiniai at y llyn o gyfeiriad Capel Gorffwysfa.

Digon diaddurn oedd yr adeilad o'r tu allan, ond 'buddioldeb' oedd bwysicaf yng ngolwg yr adeiladydd. Roedd y fynedfa trwy borth eang, ac ystafell fawr ar y llawr ble gellid cynnal marchnad.

Ar bob llaw i'r fynedfa roedd grisiau llydain yn arwain i ystafell eang arall uwchben, gyda llwyfan ar un ochr iddi. Roedd yr ystafell hon yn gallu dal 650 o bobl, ond credid fod y llwyfan braidd yn gyfyng.

Y cynllunydd oedd gŵr o'r enw John Ladds o Lundain, a'r adeiladydd oedd Henry Parry o Lanberis. Mae'n ymddangos mai D. P. Williams (druggist) fu'n fwyaf blaenllaw ynglyn â'r ymgyrch i gael Concert Hall i'r pentref.

Ar y noson agoriadol cafwyd 'gwledd gerddorol', gyda Mrs Katie Wynne Mathieson — 'cerddores wych' — ac Owain Alaw yn perfformio. Noddwyr y noson agoriadol oedd Capten W. Cragg, Owen Parry, Bron Elidir (cadeirydd y cyfarfod), H. Pugh, Minmanton (?) a Syr Llewelyn Turner o Gaernarfon.

Yn wir, cafwyd araith Gymraeg gan Syr Llewelyn Turner; a hynny gwta ddeufis wedi iddo wrthod hawl i gapten llong roi tystiolaeth yn Gymraeg mewn Llys Ynadon yng Nghaernarfon.

Disgwylid nifer dda o gefnogwyr o Gaernarfon i'r cyngerdd, ac yr oedd tren arbennig wedi ei logi i redeg yn ôl i'r dref ar ddiwedd y noson.

Yn ystod y cyfarfod cafwyd bonllef (dair gwaith!) i waith nwy Llanberis. Y rheswm am hyn oedd fod yr holl neuadd yn cael ei goleuo â nwy. Hefyd yn cymryd rhan yn y cyngerdd roedd doniau lleol fel Côr Capel Gorffwysfa dan arweiniad Thomas Philips, a Glan Padarn.

Yn sgil y dathlu mawr, diddorol nodi fod achos y Wesleiaid wedi cychwyn tua'r un pryd. Roedd cnewyllyn bychan o ffyddloniaid yn cyfarfod yn warws Ingham, ond gan fod eu hachos ar gynnydd, penderfynwyd llogi'r 'ddarllenfa' yn y Concert Hall er mwyn cynnal eu cyfarfodydd.

DAMWAIN CWM-Y-GLO

Yn dilyn hanes y ddamwain yng Nghwm-y-Glo, yn y golofn 'Chwilota' yn rhifyn Hydref o'r Eco, daeth y farddoniaeth yma trwy law D. W. Morris, Cefn Coch, Deiniolen.

Beth yw'r trwst a'r galarnadu,
Beth yw'r griddfan glywa' i 'nawr,
Beth yw'r waedd a'r wylo dagrau
A'r ochneidio sydd mor fawr?
A oes rhyw derfysg wedi disgyn,
Neu angeu'n dychryn teulu'r fro,
A oes arwydd o ddigofaint
Duw yn erbyn Cwm-y-Glo?

Damwain brudd i rwygo bronnau,
A darnio bodau dynol ryw,
Malu'r troliau a'r ceffylau —
Rhyfedd fod yma neb yn fyw.
Beth yw'r achos o'r fath ddamwain
Ddirfawr ddaeth i Gwm-y-Glo?
Chwythu'n ddarnau ddau o ddynion
A'u llwyr falurio — trwm y tro.

Pa ddyfnderoedd o dosturi
Oedd yng ng'lonnau'r dyrfa fawr,
Canfod tafod gyda'r 'mennydd
Eu cydoeswyr ar y llawr?
Coesau, traed, a bysedd dwylo
Wedi eu darnio yma'n drwm,
Roedd calon un, mae'n anodd coelio
Ar y clwt yn noeth a llwm.

Colli gwŷr a bechgyn gwiwlon
A'u cloi hwy yn y ddaear laith,
Lladd a chlwyfo byth yn mendio,
A rhif y meirw'n chwech neu saith.

Hel eu cyrff hwy i'r cynfasau,
Mor fân y darnau oedd ar daen,
Ni welodd neb yn nhraed yr Wyddfa
Y fath 'lanastra 'rioed o'r blaen.
Yr holl ffenestri wedi ei torri,
A darnau wedi eu taflu i'r tai,
Pawb o'r teulu'n fawr a bychan
A golwg welw ar bob rhai.

Dora Eifion

Gyda diolch am y penillion. Mae'n amlwg nad yw'r pedwerydd pennill yn gyflawn. Oes rhywun yn gwybod y gweddill o'r llinellau? A phwy oedd Dora Eifion?

DYRNU gan y Gwalch

Pob Hydref yn y tridegau, mi fydda Huw Owen yn gadael ei Dyddyn ger y fenai yng ngofal ei wraig a'r ieir, ac yn teithio ymysg y ffermydd ar lawr plwyf Llanddeiniolen hefo'i ddyrnwr mawr a'i dractor 'Titan', sydd yn awr rwy'n deall mewn ymddeoliad haeddiannol mewn amgueddfa amaethyddol yn St. Mellons.

Stwcyn o ddyn oedd o hefo mwstas pigog. yn ystod yr wythnos byddai'n aros yn y ffermydd, ac yr oedd o'n adnabyddus fel un a oedd yn dynwared sŵn ei beiriant yn ei gwsg.

Doeddan ni ddim ymysg ei hoff gwsmeriaid o yn ddaearyddol. Roedd o'n casau croesi'r corsydd, a rheswm da pam. Mi fuo rhaid iddo fo unwaith adael ei beirianna yno tros nos mewn tymestl.

Ar wahan, roedd y ffordd drol mewn mannau yn ymylu ar y tonennydd, a chydig iawn oedd yna i sbario rhwng ei olwynion o ac ymylon y pontydd bach cerrig. Ac fel pe tasai hynny ddim yn ddigon, roedd hi'n cymeryd hydion i osod yn y gadlas, am ei bod hi'n golygu cymaint o ymdrech o droi olwynion y 'Titan' o un loc i'r llall hefo'r olwyn lwyio gul honno hefo handlan arni.

Wedyn roedd yna waith jacio a stagro a wejio ac ati hi, i wneud yn siŵr fod y dyrnwr yn lefal i ganiatau i'r grawn lifo yn wastad drwy'r tyllau ŷd.

Does gen i ddim ond hir-gof dyn amheirianyddol am y 'titan'. Roedd hi'n troi ar baraffin, ac ar ei phen hi roedd yna danc hirgrwn. Cadwyni oed yn ei gyrru hi, yr un fath â beic. Ac yr oedd yr olwynion ôl yn llydan ac yn gletiog, ac yr oedan nhw yn gallu gafael yn y llawr. Ond y peth aeth â mwya o fy sylw i yr adag honno oedd y stagar o'i chychwyn hi.

Roedd ganddi hi ddwy 'fly-wheel'' mi rydw i fel taswn i'n cofio, un o bobtu, ac wrth ochr y fwya ar yr ochr bellaf, roedd y pwli a oedd yn troi'r drym.

Byddai Huw Owen a'i gynorthwywr — Tomi Refail, Llanrug ran amlaf — yn gafael bob un yn ei olwyn ac yn ei siglo hi, dan gyfri i ddau a thri, a symud eu pwysau o un droed i'r llall, fel pe tasa nhw yn mynd i gychwyn rhyw sponc werin. Wedyn, mi fyddan yn rhoi un tro terfynnol a gollwng. Ar foreau barugog yr oeddd modd iddo fod yn ymarferiad maith. Mi fydda'r hen beiriant yn tagu a bytheirio mwg, ac o'r diwedd yn gafael, er mawr ryddhad i'r criw dyrnu fyddai erbyn hynny wedi ymgynnull.

Roedd hi'n angenrheidiol wedyn i atal pwli'r belt, a oedd erbyn hynny yn chwyrnellu mor galed â'r 'fly-wheel'. I wneud hyn, byddai'r ddau ddyn yn sefyll o bobtu'r pwli hefo bob pen i sach grawn tros eu breichiau.

Yna roeddan nhw'n dal y sach yn erbyn y pwli fel brac i'w atal. Roedd y belt mawr wedyn yn cael ei droi unwaith a'i roi ar y pwli, a'r tractor yn cael ei fagio yn araf i sicrhau'r tyndra a'r gwasnadrwydd rhwng y ddau beiriant.

Wedi i hyn gael ei wneud i foddhau Huw, byddai'r olwyn bach 'clutch' oedd ar ochr y pwli yn cael ei gwthio i mewn i'r afael, a byddai'r drym yn dechrau troi, gan chwydu allan gymylau o lwch ar ôl gwaith y diwrnod cynt. Yna byddai Huw Owen yn gweiddi: 'Pawb i'w le!'

Ar adegau prin efallai na fyddai'r ddau beiriant yn ddigon sgwâr â'u gilydd a byddai'r belt yn ehedeg i ffwrdd fel sguthan, ac yr oedd ei ddal ar ei hediad ar draws eich pen yn brofiad bythgofiadwy meden nhw. Wrth gwrs, doedd yna ddim archwiliwr damweinia, na iawn i'w gael am golli clust yr adeg honno.

Roedd hi'n cymeryd o ddwsin i bymtheg o ddynion i weithio'r dyrnwr yn hwylus. Yn ein hachos ni roedden nhw'n ddidal, am eu bod nhw i gyd yn dod o'r ffermydd cyfagos. Roedden ninnau'n canlyn y dyrnwr wedyn am tua bythefnos, ac yr oedd hynny yn arafu'r gwaith ar y tir. Doedd yna ddim angen i roi rhybuddion am ei symudiadau, gan fod yr un criw yn ei ddilyn yn wastad o ddydd i ddydd.

Roedd yr un drefn yn gweithio hefo'r merched. Byddai'r gwragedd a'r morwynion yn dod i helpu Mam yn y tŷ. Yn aml byddai yna eidion wedi ei ladd tu ôl i'r tŷ gwair, ac i ginio byddai ei gig wedi ei rostio a'i roi allan hefo tatws a phys a moron, ac ar ôl hwnnw, lond crochan o bwdin reis a chyraints, a llond jygia o laeth enwyn yn syth o'r corddwr, streiliwr lwlod cydnabyddedig, a ffisyg iawn at gerrig a grafal ac anhwylderau'r bledren ddŵr.

erbyn hyn roedd y criw rheolaidd wedi cael ychwanegiad atynt gydag un neu ddau o'r Pentre. Roedd Cariad Yw a Robin Sam, ei gydymaith main wedi cawellu eu ffyreti am y diwrnod i fod yn bresennol ar y dâs ŷd i daflu 'sgubau i'r torrwr tennyn a'r sgytiwr ar ben y dyrnwr.

Doedd yna ddim brys yn eu symudiadau, roeddent mor rheolaidd yn eu rhythm â throad y tymhorau. Ar yr un pryd, roedd y das wellt wrth eu hochrau wedi codi mor uchel nes yr oedd yn rhaid i'r cariwyr ddringo ystolion er mwyn cael gwared â'r beichiau oddiar eu pigffyrch.

Yn ddiweddarach ar y dydd, roedd Huw Owen yn ymarfer braint ei swydd drwy arwain yr eisteddiad cynta i'r gegin ffrynt i dê, a oedd yn cynnwys bara cartra newydd wedi ei daenu yn helaeth â menyn y gweirgloddiau, jam mwyar duon a chosynnau — a phob amsar fitrwt — a byddai'r sgwrs yn llifo yn esmwyth tros bobl, a lleoedd a digwyddiadau, tra yr oedd Mam, wrth daflu ei golwg ar y platiau, yn sicrhau nad oedd neb yn cael ei amddifadu o'r sylw a oedd yn deilwng iddo.

Yn y cyfamser roedd y gwaith yn dal i fynd yn ei flaen yn y gadlas. Roedd y pesgwyn yn cael ei gribinio allan fel yr oedd yn cael ei ysgwyd allan o fol y bocs, ac yn cael ei gludo mewn nithlan i rhyw gongl ar gyfer cael ei daenu o dan y lloi. Roedd yr orchwyl yma fel arfer yng ngofal rhyw ddau gwbyn — rhai yn chwarae triwant yn fwy na thebyg — a meibion mewn rhai achlysuron i weddwon yr oedd eu gwŷr wedi eu lladd yn Ffrainc.

Cyn dod at eu prydau yr oeddent yn dadwisgo yn y beudy ac yn sgytian y pêsg o'u dillad. Ar derfyn dydd roeddent yn mynd adra, nid yn unig hefo cylla llawn, ond yn cludo piseriad o lefrith, neu datws neu wyau, ac hyd yn oed efallai bâr o sgidiau wedi mynd yn rhy dynn i mi, neu grys neu grysbas. Ac yr oeddynt yn martsio mynd fel ceiliogod gêm fel tasa nhw wedi cael teyrnas.

Gan yr hogia cario ŷd rwy'n meddwl roedd y gwaith tryma, yn enwedig os yr oedd y llofft granar ymhell oddi wrth y gadlas. Ac os nad oedd hynny yn ddigon, eu cas beth nhw oedd ffram drws isel. Ac mi fydda'r hen ddynion weithia yn gollwng cerrig yn slei i'w sacha nhw.

Fel yr oedd y dâs ŷd yn closio at y llawr, byddai pawb hefo'i bastwn yn barod am y llygod mawr a fyddai yn dianc ohoni, ac mi fydda Fflei Cariad Yw yn cael modd i fyw yn eu hela nhw a'u sgytian gerfydd asgwrn eu cefna.

Ond cyn hynny, roedd yna ddwy neu dair o'r 'sguba twtia wedi cael eu hymneilltuo er mwyn cael barn yr holl gwmni i benderfynu pa rai oedd y gorau i fynd i addurno eglwys Llan ar Sul Diolchgarwch, ac mi fyddai yna hen drafod, ac amball i ddadl yn datblygu.

Ar ôl i'r ysgub olaf fynd drwodd, roedd y 'Titan' yn cael ei llacio nes yr oedd y drym yn troi mewn diminuendo a chlic y beltiau i'w clywed. Byddai'r dynion yn casglu yn y gwyll yn y buarth, a'u cotiau tros eu 'sgwyddau, i danio eu pibelli a thraof cynnyrch y dydd, y tywydd a'r rhagolygon am waith y trannoeth.

Ond doedd yna ddim moethusrwydd tebyg i Huw Owen. Roedd o'n gorchuddio'r dyrnwr hefo'r garthan fawr, yn llacio strôcs a thynnu wejis, i fachu'r 'Titan', ac weithiau byddai yn symud yng ngolau lleuad.

'Mi gwela i chi flwyddyn nesa,' fydda fo'n weiddi tros ei ysgwydd, a'i dafod yng nghil ei geg, ac yn ymladd hefo llyw y 'Titan'.

Roedd ei ddywediad blynyddol yn hollol wir o'r mwyafrif.

'Pawb yn falch o fy ngweld i'n dwad; balchach byth o fy ngweld i'n mynd.'

FFENESTRI UPVC DRYSAU MEWN GWYN NEU MAHOGANI



Esiampl o bris a gosod

Crefftwyr profiadol yn eu gosod

Ffoniwch am bris i

J R PRITCHARD, 14 Glanrafon, Bontnewydd

Ffôn: Caernarfon 3507 (dydd neu gyda'r nos)

Croesawn ymholiadau gan fasnachwyr

NADOLIG '90

Fe ddaeth Nadolig eto
I blant bach yn y byd.
I roi eu hosan fechan,
Wrth draed eu gwely clyd.

Mi rown y goeden fechan
Ac addurn uwch ein pen,
A'i golau lliwgar disglair
Fel seren yn y nen.

Fe ddaw 'na lawer cerdyn
Trwy dwll bach yn y drws,
I'w rhoi ar hyd yr aelwyd
Mor brydferth, ac mor dlws.

Wrth ganu'r garol swynol
Yn sŵn yr organ geg,
Fe fydd llawenydd 'Dolig
Yn llifo o bob ceg.

Fe ddaw y Santa yma,
Tegannau yn ddiri
I gofio geni'r Iesu,
Gwaredwr oedd i ni.

Mae llawer o blant bychain
Heb anrheg bach i'w rhan.
Cawn ninnau heddiw gofio
Am gariad tad a mam.

W.H.W., Arfryn, Llanrug

CYFARCHION NADOLIG
LLANBERIS

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA
oddi wrth
Vera, Haydn a John
SIOP CHIPS
SNOWDON VALLEY
LLANBERIS
Ffôn: Llanberis 870659

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth
Michal a Brigid Moran a'r plant
Sea Fresh Chip Shop
Stryd Fawr
LLANBERIS
870425
Diolch am eich cefnogaeth trwy gydol y flwyddyn

Piggery Pottery
Y Glyn, LLANBERIS. Ffôn: 872529
Mae ein siop ar agor bob dydd ar gyfer anrhegion Nadolig Lliwgar
SION CORN EGLWYS COEDEN NADOLIG
DYN EIRA PWDIN NADOLIG
Oll mewn crochenwaith gyda goleuadau y tu mewn.
Maent werth eu gweld
Nadolig Llawen oddi wrth Ian a Barbara Winrow a'r staff

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth
Ken, Meril a phawb yn
STORFA PADARN
SPAR

LLANBERIS
FFôn: 871050
Diolch am eich cefnogaeth trwy'r flwyddyn

DYMUNA
MERVYN, JILL, HELEN,
GLENYS ac APPY

CASTLE GIFT SHOP
LLANBERIS Ffôn: 870379
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w holl gwsmeriaid.
Diolch ichi am eich cefnogaeth
Galwch eto am: Bapurau Newydd, Anrhegion, Sigarets, Melysion, Llyfrau a llawer mwy

CYFARCHION Y TYMOR

i bawb yn yr ardal
oddi wrth
TRÊN BACH LLYN LLANBERIS



NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I BAWB
ODDI WRTH
KMP LLANBERIS
DIOLCH I BAWB A'N CEFNOGODD YN YSTOD Y FLWYDDYN
Dim bysus Mawrth/Mercher 25, 26, Rhagfyr na Dydd Sul, 30 Rhagfyr

Gwesty Erw Fair

LLANBERIS

Ffôn 872400

gyda pherchnogion newydd

★ Dyddiadau'n dal ar gael ar gyfer partion Nadolig
★ Partion mawr a phartion bach
★ Disgownt o 10% i ddarllenwyr Eco'r Wyddfa
★ Lle addas ar gyfer pob achlysur
★ Dewch i fwynhau ein bwyd blasus mewn awyrgylch braf

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth Bob ac Annie Kane

ROBERT GARTSIDE B.Sc.,M.P.S.

FFERYLLYDD
COMPTON HOUSE
LLANBERIS
Ffôn: 870264
AM EICH ANRHEG NADOLIG!

Persawriau hyfryd o'r Ffrainc
Ffilmiau a Chamerau KODAK a FUJI
Gwasanaeth datblygu a phrintio
Fotograffau am brisiau cystadleuol

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb

SEREN

47 STRYD FAWR
LLANBERIS 871060
BWYDYYD IACHUSOL
FFRWYTHAU A LLYSIAU YN FFRES O'R FARCHNAD

TELEFLORIST

Diolch yn fawr am eich cefnogaeth trwy gydol y flwyddyn. Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrthSue Lowe

odyn copr

parc padarn

llanberis

CELF Y COPÄON

MOUNTAIN ART
Stryd Fawr
LLANBERIS 870925

Am luniau mynyddoedd
*Peintiadau *Printiadau
*Posteri *Ffotograffau

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb

Dymuna pawb yn siop
VALERIE J. JONES
FFRWYTHAU
GLAN Y DON
STRYD FAWR
LLANBERIS 870301
NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA

CYFARCHION Y TYMOR A DYMUNIADAU GORAU
oddi wrth
W.J. DAVIES
MODURDY'R WYDDFA
LLANBERIS Ffôn: 870225

M.O.T.
Gwasanaeth Torri Lawr Ddydd a Nos
Hefyd
JOHN WHITE
THE BODY SHOP
LLANBERIS
★Trwsio wedi damweiniau
★Ailsbreio
★Curo paneli

joe brown
CLIMBING & CAMPING EQUIPMENT SPECIALIST

AM ANRHEGION NADOLIG A WERTHFAWROGIR TRWY'R FLWYDDYN

❄ Sanau a Siwmperi trwchus
❄ Dillad Thermal
❄ Capiau a menyg gwlân
❄ Cotiau a sgidiau dal dŵr
❄ Siwmperi traddodiadol
❄ Dewis rhagorol o lyfrau ar deithio a mynydda

LLANBERIS

Ffôn 870372
Hefyd yng Nghapel Curig
(tu cefn y post) 069 04 205

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb

joe brown

Gwynedd Hotel
& Restaurant
LLANBERIS
Ffôn 870203
* Bwydlen newydd - bar A la Carte
* Cinio Dydd Sul
*Ar agor trwy'r flwyddyn
* Priodasau, Dathliadau bedydd, Penblwydd ac achlysuron arbennig eraill
Nadolig Llawen a Blwyddyn newydd Dda
oddi wrth **LIN** a **JOHN**

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA
ODDI WRTH BAWB YN
AMGUEDDFA'R GOGLEDD AC AMGUEDDFA LECHI CYMRU
LLANBERIS 870636 A 870630
DIOLCH AM EICH CEFNOGAETH.
DEWCH I WELD
CYFLWYNIAD YNNI CYMRU

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth
GRAHAM A JEAN A PHAWB YN Y
PRINCE OF WALES
LLANBERIS
870708
Cwrw Blasus
Croso Cartrefol
Adloniant:-
Nos Sadwrn
Canu Cymraeg efo'r Organ
Nos Wener
Adloniant Byw

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth
RAYMOND A'R STAFF
SWYDDFA'R POST
LLANBERIS
Ffôn: 870 201
Cardiau Nadolig a Phenblwydd
Teganau
Gwasanaeth Ffotogopio
Diolch am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn

Lle Rhagorol I Brynu Eich Anrhegion Nadolig!



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
Ffôn: LLANBERIS 870597

CYFARCHION Y TYMOR
oddi wrth
H.E. HUGHES
a'r MEIBION

870 902
ac 872200
870 444
MASNACHWYR GLO
1 BYTHYNNOD GADLYS LLANBERIS

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chwi oll
oddi wrth bawb yn siop

HAIRLINES

STRYD FAWR
LLANBERIS
870328

CYNLLUNWYR GWALLT
YN ARBENIGO MEWN TORRI

Beth am ddechrau'r flwyddyn newydd gyda perm yn ein SÊL IONAWR

I fyny'r bo'r nod ....

YR UCHELDERAU

(The Heights) Llanberis

Ffôn 871179

CYRSIAU - Barcuta, Dringo, Ceiac, Hwylfyrddio, Hwylio, Cerdded, Merlota.

CYFLEUSTERAU - Bar BMC, stafell ddisgo, fideo fawr, bar dringwyr, wal ddringo, ty bwyta. Ar agor ar gyfer brecwast, prydau bar, prydau nos, partion, priodasau, cinio clybiau.

LLETY - Stafelloedd en suite a stafelloedd Alpaidd moethus

Dychymyg yn unig sy'n ymestyn ffiniau realaeth.

NADOLIG LLAWEN I BAWB

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth
Peter ac Irene Hagerty

TOUCHWOOD

Y Glyn,
Llanberis
Ffôn 871224

ANRHEGION NADOLIG ANGHYFFREDIN, DIDDOROL, DELFRYDOL!

Galwch yn ein siop i weld drosoch eich hun.

Am anrhegion y Nadolig dowch i
Siop Nwyddau Tŷ a Gardd

FORMAG

Stryd Fawr
Llanberis 870501

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chwi oll oddi wrth
Ifor a Margaret
Diolch am eich cefnogaeth trwy gydol y flwyddyn

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth
Garvin, Wil a Jim

W.G. ALLSUP

Storfa Gig Glan Padarn

LLANBERIS 870319

Padarn Lake Hotel

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I CHI OLL ODDI WRTH **TERRY, VAL A'R STAFF**

LLANBERIS Ffôn 870 260

Prydau arbennig ar gyfer y Nadolig

Oddi wrth gwmni Trên Bach yr Wyddfa



SNOWDON MOUNTAIN RAILWAY

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chwi oll

CYFARCHION NADOLIG LLANBERIS

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA
Gwasanaeth Fideo Proffesiynol
JOHN BLIGHT
LLANBERIS
872209
Priodasau a phob achlysur arbennig arall
Hefyd Ffilmiau Hyfforddi a Gwasanaeth newid CINE I FIDEO

FIDEOS NEWYDD BOB WYTHNOS!
Pob ffilm am £1 y noson yn unig - 1.50 ar benwythnos - eu benthyg ddydd Sadwrn a'u ddydd Sadwrn a'u cadw tan ddydd Llun

Padarn Entertainment
Stryd Fawr, Llanberis
☎ 870071

10 copi o Pretty Women ar gael o1 Rhagfyr

Oriau agor 11am - 9pm
Chwe diwrnod yr wythnos
Amser cinio 2-2.30

Aelodaeth am ddim wedi ichi brofi pwy ydych

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA

Nadolig Llawen
a Blwyddyn Newydd Dda
i chwi oll
oddi wrth y

ROYAL VICTORIA HOTEL

LLANBERIS 870253

Diolch am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn.

Gwesty
Dolbadarn
LLANBERIS Ffôn: 870277

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth Aneuryn a Jeanette Jones a'r staff.

BRYSIWCH I GAEL EICH
TEGANAU, SIOCLED, CARDIAU NADOLIG AC ANRHEGION CAIN
YN SIOP
GWYNETH AC EIFION
ROBERTS
LLANBERIS 870491

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA
ODDI WRTH
BECWS ERYRI
STRYD FAWR
LLANBERIS 870491
Diolch am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn

Crefftau'r
GRUG
Crafts

Brook House, LLANBERIS
Ffôn 871197
Lle da ar gyfer presant 'Dolig
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Becws Eryri. Ffôn: 870491

CLWB CANT YSGOL DOLBADARN Enillwyr mis Tachwedd yw: £25: Mrs G. Williams, Llain yr Ardd, Bethel (7); £15: Mrs J. Vaughan, 1 Cambrian Terr., Llanberis (87); £10: Mrs B. Hughes, 1 Coed y Glyn, Llanberis (132).

SEFYDLIAD Y MERCHED: Cynhaliwyd cyfarfod o'r Sefydliad yn y Ganolfan ar Hydref 25. Llywyddwyd y cyfarfod gan Mrs hannah Jones.

Ein gwraig wadd am y noson oedd Mrs Maureen Lennon a chafwyd sgwrs hynod o ddiddorol a hwyliog ganddi ar ei 'Atgofion fel Prifathrawes.'

Diolchwyd i Mrs Lennon a'r gwestwragedd gan Mrs Jan Davies a Mrs Dilys Phillips.

Y gwestwragedd oedd Mrs Katie Williams a Mrs Dwynwen Roberts. Enillwyd y raffl gan Mrs Glenys Jones.

DIOLCH: Dymuna Elwyn a Sandra Davies, Bryn Tirion, Llanberis, ddiolch yn fawr iawn i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am y llu o anrhegion, cardiau a dymuniadau gorau a dderbyniwyd ar achlysur genedigaeth ei mab bach, Bedwyr Owen. Hefyd fe hoffem longyfarch Sheila a Myfanwy — y ddwy yn nain am y tro cyntaf.

DIOLCH: Dymuna Mrs Arfonia Evans a'r teulu yn Derlwyn, ddiolch o galon i bawb am y caredigrwydd a'r cydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli chwaer annwyl.

Yr awdures Brenda Wyn Jones yn adrodd straeon i blant Ysgol Dolbadarn yn Llyfrgell Llanberis fel rhan o'r Ŵyl Llyfrau Plant (Llun: Gwasanaeth Llyfrgell Gwynedd).

CROESO'N ÔL

Alan Pritchard, Nant Peris wrth ei fodd bod yn ôl yng nghanol ei ffrindiau ysgol. Tynnwyd y llun yn ystod Eisteddfod Ysgol Brynrefail ychydig ddyddiau ar ôl i Alan ddod gartref ar ôl derbyn calon newydd yn ysbyty enwog Harefield. Rydym i gyd yn falch fod Alan yn gwella'n foddhaol.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth
Ann, Glyn a'r Teulu
SWYDDFA'R POST
NANT PERIS
Ffôn 870258

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb yn Llanberis a'r cylch oddi wrth
E.W. Pritchard
CENTRAL GARAGE
Llanberis
Ffôn: 870202 a 870272
TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

Y Bistro
43-45
Stryd Fawr
LLANBERIS
Ffôn 871278
Discownt o 10% i bartion ym mis Ionawr.
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth **Danny** a **Nerys Roberts** a'r staff

GLEN'S FOOTWEAR
Stryd Fawr
LLANBERIS 871470
Dymuna Glen a Wil ddiolch i'w holl gwsmeriaid am bob cefnogaeth yn ystod y flwyddyn
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb

Y LLE DELFRYDOL I BRYNU ANRHEG NADOLIG I'CH ANIFEILIAID ANWES
PET TRADE & INDUSTRY ASSOCIATION PTIA
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth Kerry a Jill Stott
GARTH MAELOG
PET CENTRE
& GROOMING SALON
51 STRYD FAWR
LLANBERIS 870840

LLWYDDIANT YN YR ŴYL GERDD DANT

Llongyfarchiadau mawr i barti Clychau'r Grug ar eu llwyddiant yn yr Ŵyl Gerdd Dant eleni. Roedd saith o bartion yn cystadlu ac yn ôl y beirniad roedd y safon yn uchel iawn yn y gystadleuaeth i Bartïon Alaw Werin.

Mae'r merched wedi bod yn eithaf prysur yn ystod misoedd yr haf yn diddanu'r ymwelwyr yng Ngwesty'r Victoria, Llanberis, ac yn ddiweddar agorwyd Cymdeithas Lenyddol Bethel gan y Parti. Ym mis Rhagfyr byddant yn difyrru'r henoed yn Llanrug.

Roedd tair o'r merched yn absennol o'r Ŵyl Gerdd Dant, sef Awen, Hâf a Carys (Bethel) oherwydd salwch, ond erbyn hyn, mae'r dair yn holliach. Roedd Nia yn absennol o'r llun.

Llŷr Sion o Lanrug a ddaeth yn drydydd ar yr Unawd Alaw Werin dan 15 oed. Llongyfarchiadau iddo hefyd am ddod yn fuddugol yn Eisteddfod Aelhaearn yn ddiweddar.

Ffion Orwig o Lanrug yn arddangos ei thystysgrif am ddod yn drydydd yn y gystadleuaeth i unawdwyr cerdd dant rhwng 12 a 16 oed.

Delyth Price (yn sefyll) a fu'n 'cyfeilio' â'i llais i Sioned Lewis o Benisarwaun, a ddaeth yn fuddugol ar y dawnsio Gwerin unigol.

'Rebals Heddiw' sef (o'r chwith i'r dde) Catrin Thomas, Eleri Jones, Sioned Lewis, Nia Griffith a Hefina Jones a ddaeth yn ail yn y gystadleuaeth clocsio i grŵp. Yn absennol o'r llun mae Megan Roberts a Gwenan Mair a oedd yn cyfeilio iddynt.

Aelodau lleol o Ddawnswyr Caernarfon a enillodd y wobr gyntaf ym mhrif gystadleuaeth dawnsio gwerin yr Ŵyl.

Rhes gefn: Heulwen Evans, Anwen Owen, Judith Harding a Megan Roberts (cyfeilydd). Rhes flaen: Meryl Green, Idwal Williams (hyfforddwr — ef hefyd a gyfansoddodd y ddawns) a Bethanne Williams.

Judith, Bethanne ac Idwal hefyd oedd aelodau'r grŵp clocsio 'Cerrig Gwastad' a ddaeth yn drydydd yn eu cystadleuaeth.

CYFLENWYR PORTHIANT

IDRIS MORRIS

BWYDYDD ANIFEILIAD ANWES
GWERTHWYR NWY

Y Fachell
Llanddeiniolen
Ffôn:
Port Dinorwig 670439

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth
Gwyndaf a Kevin Jones, Adeiladwyr

Gorwel
Gall-y-Foel
Llanberis 870270

Maes-y-Bryn
Pontrug
Caernarfon 672349

DINORWIG

Mr D. J. Thomas, 8 Maes Eilian

DIOLCH: Dymuna Mr David John Thomas, 8 Maes Eilian, a theulu'r ddiweddar Mrs Ada E. Thomas, ddiolch o galon i'w deulu, cyfeillion a chymdogion am bob arwydd o gydymdeimlad a rhoddion mewn arian a chardiau a dderbyniwyd yn eu profedigaeth annisgwyl. Diolch yn fawr i bawb.

DIOLCH: Dymuna Mrs Mary Thomas, Mrs Else Davies a Mrs Katie Lloyd Hughes, 2 Maes Eilian, chwiorydd y ddiweddar Mrs Mabel Evans, ddiolch o galon i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli chwaer annwyl.

Diolch am yr holl gardiau, llythyrau a galwadau ffôn, a diolch arbennig am y rhoddion hael tuag at Gronfa Hosbis Gaerwen. Gobeithir cyhoeddi y swm terfynol a gasglwyd yn y rhifyn nesaf o'r Eco. Diolch yn fawr iawn i bawb.

GENEDIGAETH: Newyddion da yn wir oedd clywed am enedigaeth bachgen bach o'r enw Gruffydd Abram i Karen a Phylip Jones o Tŷ Capel Sardis. Llongyfarchiadau i chwi fel teulu.

EISTEDDFOD BENTREF: Mae'r trefniadau yn mynd o nerth i nerth ar gyfer cynnal yr Eisteddfod ar **Nos Fercher, Rhagfyr 5ed** (sylwer, nid ar nos Fawrth fel mae wedi arfer bod) am 6.30. Bydd y drysau ar agor o 6.00 ymlaen. Y pris mynediad yn 50c i oedolion a 20c i blant. Arweinir y noson gan Mr Rennell Williams a Glyn Tomos gyda Annette Bryn Parri a Olwen Roberts yn cyfeilio.

Y beirniad llenyddol eleni yw y Prifardd Ieuan Wyn o Fethesda; Beirniad Celf a Chrefft/Adran y Plant yw Mr John Thomas (Deiniolen); Beirniad Coginio yw Mrs Eurwen Eoberts (Deiniolen); Beirniad Cerdd yw Miss Siân Gibson, gyda Miss Iola Gruffydd yn beirniadu Adrodd.

Felly beirniaid o safon uchel iawn a'r gobaith yw y daw digon o gyfraniadau i law er mwyn i ni gael Eisteddfod i'w chofio.

Fel arfer bydd toriad o ugain munud hanner ffordd trwy'r noson fel bod pawb yn cael cyfle i gael paned a bisged yn ogystal a chael golwg ar y cynnyrch Celf a Chrefft/Coginio.

Rhag ofn nad ydych yn cofio, mae angen dod a chynhyrchion Celf a Chrefft/Coginio i'r Ganolfan ar nos Fawrth, Rhagfyr 4 rhwng 6.30 a 7.30 ar gyfer eu beirniadu. Felly welwn ni chwi yn y Steddfod.

CYMDEITHAS UNDEBOL DINORWIG: Mwynhawyd noson arbennig iawn yng nghwmni Dr Dafydd Roberts, Amgueddfa Lechi Cymru, Gilfach Ddu, Llanberis, yn y Ganolfan ar nos Iau, Tachwedd 15. Llywydd y noson oedd Mr Glyn Tomos. Nid oes amheuaeth bod Dr Roberts yn gryn arbenigwr ar hanes chwareli llechi y Gogledd a phleser pur oedd gwrando arno yn traethu mor ddiddorol a deallus ar y pwnc.

Erbyn i'r rhifyn yma weld golau dydd bydd Annette Bryn Parri wedi bod yn annerch y Gymdeithas ar nos Iau, Tachwedd 29. Hithau fel y gŵyr pawb yn gyfeilyddes hynod o dalentog ac mae croeso arbennig bob amser iddi yn Ninorwig.

Er mwyn i chwi nodi yn eich dyddiaduron, bydd y Gymdeithas yn cynnal Gwasanaeth Carolau yn y Ganolfan ar nos Iau, Rhagfyr 13.

Yna ar y nos Fawrth ganlynol, Rhagfyr 18 o 7.00 ymlaen, y Gymdeithas fydd yn gyfrifol am drefnu recordiad Radio Cymru o Dalwrn y Beirdd, a hynny yng nghwmni timau Llanrug ac Abergele. Fel arfer, y Meuryn fydd y Prifardd Gerallt Lloyd Owen a bydd y noson dan arweiniad y Prifardd Dic Jones.

Felly fe ddylai hon fod yn noson arbennig iawn ac mae croeso i bawb o bentrefi cyfagos ddod i fwynhau y wledd fydd yn ein disgwyl.

CYNGOR CYMUNED LLANDDEINIOLEN: Pan gyfarfu y Cyngor ar nos Fawrth, Tachwedd 6, trafodwyd sawl mater yn ymwneud â phentref Dinorwig.

Tynnwyd sylw unwaith yn rhagor at yr angen i Adran Briffyrdd y Cyngor Sir wneud rhywbeth i leddfu y broblem ddŵr ddifrifol ar ben Gallt y Foel. Mae'r Cyngor wedi gohebu â'r Cyngor Sir ynglyn â hyn sawl tro yn y gorffennol ond eto prin bod dim sylw yn cael ei wneud o'r mater. Duw a ŵyr beth a ddigwydd pan ddaw y tywydd oer a'r rhew i'w ganlyn. Oes rhaid disgwyl tan y digwydd damwain cyn i'r mater gael sylw?

I droi at newydd da, mae yna fainc newydd wedi ei gosod dros y ffordd i'r Ganolfan a hefyd cytunodd y Cyngor i estyn cymorth ariannol hael iawn tuag at goffrau'r Eisteddfod Bentref.

Hefyd mae'r Cynghorydd Jacob James wedi cytuno i geisio biniau ysbwriel mewn dau neu dri lleoliad o gwmpas y pentref, yn ogystal a cheisio tynnu sylw Cyngor Dosbarth Arfon at yr arogl drwg sydd yn dod o gyfeiriad sistem carthffosiaeth dros y ffordd i Maes Eilian.

NEWYDDION DA: Deallwn bod Heddlu Gogledd Cymru yn cefnogi bwriad y pentrefwyr i osod arwydd 30 milltir yr awr ar y ffordd i mewn i'r pentref. Maent wedi mynegi eu cefnogaeth i Adran Briffyrdd y Cyngor Sir a'r gobaith yw y gwelwn arwyddion o'r fath i fyny yn y dyfodol agos.

DALIER SYLW: Dylid nodi mai Mr Glyn Tomos, Pen y Bwlch, fydd yn gyfrifol am dderbyn eich newyddion ar gyfer rhifyn Nadolig o'r Eco. Cytunwyd ar y trefniant yma gan na fydd ein gohebydd arferol ar gael yn ystod yr wythnosau i fyny hyd at y Nadolig.

PUM CENHEDLAETH YN YMUNO I DDATHLU 75 MLWYDDIANT SEFYDLIAD Y MERCHED

Brynhawn Sadwrn, Tachwedd 10, yn Amgueddfa'r Gogledd, Llanberis, agorodd Ardalyddes Môn, cyn-gadeirydd Sefydliad y Merched, Arddangosfa i ddathlu 75 mlwyddiant y mudiad.

Yno hefyd roedd pum cenhedlaeth o fewn yr un teulu o Benrhyndeudraeth.

Ymunodd Mrs Lily Williams, sydd erbyn hyn yn 94 oed, â'r mudiad yn y tridegau cynnar. Yn nes ymlaen ymunodd ei merch, Mrs Megan Francis â'r mudiad ac mae hi heddiw yn Ysgrifennydd Ffederasiwn Gwynedd — Meirionnydd.

Yn 1975, ymunodd Gladys, merch Megan ac mae yn aelod gweithgar. Eleni ymaelododd Meinir ei merch hithau, a phwy a ŵyr na fydd Ffion Eleri, sy'n bedwar mis ar ddeg, yn dilyn ôl traed ei mam a'i neiniau yn y dyfodol.

Bu'r arddangosfa yn yr Amgueddfa Werin yn Sain Ffagan yn ystod y misoedd diwethaf ac mae'n addas iawn ei bod wedi cael ei gosod yn Amgueddfa'r Gogledd i gloi dathliadau penblwydd y mudiad gan mai yma yng Ngogledd Cymru y sefydlwyd cangen gyntaf y 'WI'.

Canolbwynt yr arddangosfa yw cyflwyniad fideo sy'n dangos hanes y sefydliad o'r cyfarfod cyntaf yng nghartre Mrs W. E. Jones yn Llanfairpwll, hyd heddiw. Mae'n dilyn datblygiad ac yn tanlinellu holl weithgareddau'r mudiad.

Bu aelodau trwy Gymru benbaladr yn casglu hen luniau, llythyrau, erthyglau a chreiriau ar gyfer yr arddangosfa a syncroneiddiwyd sylwebaeth gyda'r mil a mwy o luniau sy'n cael eu trosglwyddo ar sgrin fawr gan ddisg laser trwy gyfrifiadur.

Beti George a Ruth Parry sy'n gyfrifol am y sylwebaeth Gymraeg a Havard Gregory y fersiwn Saesneg.

Campwaith trawiadol iawn arall yn yr arddangosfa yw'r 'collage' anferth sydd wedi ei wneud gan Ffederasiwn Clwyd-Fflint o Sefydliad y Merched. Mae'r darlun yma o Gefn Gwlad, sydd wedi ei wneud o ddefnyddiau amrywiol a gwniadwaith yn cyfleu yn gelfydd iawn brif bolisiau'r mudiad rhwng 1920 a 1990.

Mae hyn a mwy i'w weld yn Amgueddfa'r Gogledd o 10 Tachwedd 1990 hyd 31 Mai 1991.

Am bob math o
WYDR wedi'i
DORRI, DDANFON NEU EI OSOD.
cysylltwch â
Barrys GLASS
Camelot, PENISARWAUN
Ffôn: Llanberis 871144

I drin a thrwsio
pob math o
beiriannau gwnïo
MENAI SEWING MACHINE CENTRE
40 Stryd Fawr
PORTHAETHWY
Ffôn: (93) 714043
neu
Caernarfon 4520
edau, nodwyddau
ac ati mewn stoc

- Jig i Atgyweirio Cyrff
- Tiwnio Crypton
- MOT
- Ail-Sbreo
- Tracio
- Balansio Olwynion
- Gwasanaethu
- Cymysgu Paent
- Gwerthu Ceir Newydd ac Ail-law
- Partiau Renault
- Petrol ESSO a DERV
- Sigarennau a Melysion
- Calor Gas

PRIF GYNRYCHIOLWYR SEAT YNG NGWYNEDD
Perchennog: E.P. Hughes
MODURDY DOLYDD
GROESLON Ffôn: Llanwnda 830562

ECO'R IFANC

LLIWIWCH Y LLUN

GAN DDEFNYDDIO Y LLIWIAU PRIODOL

1 - COCH
2 - GLAS GOLAU
3 - OREN
4 - BROWN
5 - GWYRDD TYWYLL
6 - PINC
7 - GWYRDD GOLAU
8 - MELYN 9 - GLAS



CORNEL JÔCS

Dyfalwch be' ges i yn fy hosan Nadolig?
'Wn i ddim — Beth?
Twll!!!

Beth ddywedodd un gannwyll wrth y llall?
Wyt ti'n mynd allan heno?

Ble mae Batman yn mynd ar ei wyliau?
— Batlins Pwllheli!!

Beth sy'n hir, yn wyrdd ac yn fochaidd?
— Anghenfil Loch Mess!!

Beth sy'n dal ac yn arogli'n neis?
— Jiraffodil!!

Beth sy' ar y teledu, cariad?
— Yr un peth ag arfer — llun o'r gath a phowlen o ffrwythau!!

Ydy dy athrawes yn dy hoffi di?
Ydy — mae'n rhoi swsus bach ar fy ngwaith cartref o hyd!!

Wnei di fy ngharu i pan dwi'n hen ac yn hyll?
Wrth gwrs fy mod i!!!

Wil: Dwi wrth fy modd adeg y Nadolig yn cusanu'r genod o dan yr uchelwydd.
Siôn: Mae'n well gan i eu cusanu nhw o dan eu trwynau!!

Rona: Wyddet ti fod angen tair dafad i wneud un gôt wlan?
Wena: Wyddwn i ddim eu bod nhw'n gallu gweu.

Blodwen: Mae yna bry yn y cawl.
Eifion: Paid a phoeni. Mae'r pry cop ar y bara yn siŵr o'i ddal!



PÔS NADOLIG

1. Pa liw oedd trwyn Rwdolff?
2. Ble mae Siôn Corn yn byw?
3. Pwy sy'n helpu Siôn Corn i bacio'r teganau?
4. Pa aderyn bach sy'n helpu Siôn Corn?
5. Pa fath o anifeiliaid sy'n tynnu'r car llusg?
6. Ar ba noson daw Siôn Corn â'r anrhegion?
7. Pa ddiwrnod sy'n dilyn Dydd Nadolig?
8. Pwy, yn ôl y garol aeth allan ar y diwrnod hwn?
9. Pa blanhigyn Nadoligaidd sydd ag aeron coch a dail pigog?
10. O dan pa blanhigyn y bydd pobl yn cusanu?

Rhagfyr 11eg!! Gwobrau!

Atebion i'r 'Gornel' erbyn Gwobrau!

ENILLWYR MIS TACHWEDD

Enillwyr cystadleuaeth mis Tachwedd yw: Ceri Bryn Morris, Tŷ Capel MC, Dinorwig (3 oed); Siân Green, Annedd Wen, Pontrug (7 oed); Anna Marie Kiely, 6 Trem Elidir, Maestryfan, Bangor (9 oed); Donna Marie Roberts, 7 Stryd Bethesda, Llanberis (9 oed).

Cofiwch anfon eich gwaith i'r 'Gornel' erbyn Rhagfyr 11 — bydd gwobrau Nadoligaidd iawn i'r enillwyr!!!

Brysiwch!!! Brysiwch!!!

CYSTADLEUAETH MIS RHAGFYR

ENW .....

CYFEIRIAD .....

.....

.....

OED .....

EWCH O DDOT I DDOT AC YNA LLIWIWCH Y LLUN



LLIWIWCH Y CRACER YN OFALUS



PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: 872407

YSGOL TAN Y COED: Aeth mis arall heibio ac yn y cyfamser, croesawyd dau aelod arall i'r ysgol. Yn anffodus, nid plant oeddynt, ond caneri a hamster! Prynwyd y caneri i'r ysgol, a chyfrifoldeb plant Safon 3 a 4 fydd edrych ar ei ôl.

Cynhaliwyd cystadleuaeth i ddewis enw iddo, ac fe gafodd yr enw a fathwyd gan Eurig ei dynnu o'r het, sef 'Twiti'. Er mai caneri yw 'Twiti', mae'n canu fel eos, ac yn werth ei glywed.

Yr ail aelod newydd yw yr hamster a gyflwynwyd i'r ysgol gan Aled Jones. Yn nosbarth 1 a 2 mae'r hamster, sydd ar hyn o bryd heb enw, a'i gyd-ddisgyblion fydd yn edrych ar ei ôl.

Diolch yn fawr iawn i Aled am ei garedigrwydd.

Bwriadwn gael tanc pysgod ar gyfer plant dosbarth Mrs Thomas. Os oes gan un ohonoch danc nad ydych ei eisiau, fe fyddem yn falch iawn ohono. Cysylltwch â'r ysgol os gwelwch yn dda, ar 870 879.

Cynhaliwyd Ffair Lyfrau Cymraeg a Saesneg yn yr ysgol yr wythnos diwethaf. Cafwyd ymateb ardderchog gan y plant a'r rhieni, a balch iawn oeddym o weld cymaint o lyfrau yn cael eu prynu. Diolch i bawb am eu cefnogaeth ac am eu haelioni.

Daeth y dyn tynnu lluniau i'r ysgol yn ddiweddar, ac mewn bore gwyllt a phrysur, cafodd pob plentyn dynnu ei lun. Dyma anrheg Nadolig ardderchog, a chofiwch fod yr ysgol yn cael cyfran o'r gwerthiant hefyd.

Mae'r Nadolig yn brysur agosau ac mae Cyfeillion Tan y Coed wedi trefnu Ffair Nadolig ar gyfer nos Wener, Tachwedd 30 yn yr ysgol. Fe fydd y drysau yn agor am 6.30 pm ac fe fydd croeso cynnes i bawb sydd am droi i mewn i'n cefnogi.

Ar nos Iau, Rhagfyr 13, cynhelir y gwasanaeth Nadolig yn Eglwys Santes Helen am 6.00 pm. Y plant eu hunain fydd yn cynnal y gwasanaeth, ac eleni gwneir casgliad tuag at brynu ci i'r deillion. Dewch yn llu.

Cyn gorffen, braf iawn yw cael dweud fod ein ffrindiau bach yn yr ysgol feithrin yn cyfarfod yn neuadd yr ysgol am dri chyfnod bob wythnos yn lle dau fel ar ddechrau'r tymor.

URDD PENISARWAUN: Dyma restr o weithgareddau mis Rhagfyr:

Rhagfyr 4: Gwaith Llaw gyda Mrs Pat Jones, Brynrefail.

Rhagfyr 11: Gêm o Chwilen.

Rhagfyr 19 (nos Fercher): Parti Nadolig yn Neuadd yr Eglwys.

NOSON TÂN GWYLLT: Am 6.00pm nos Lun, Tachwedd 5, taniwyd clamp o goelcerth gydag arddangosfa o Dân Gwyllt amryliw, a digon i'w fwyta a sbort a sbri.

Diolchir i bawb a gefnogodd y noson ac i'r rhai fu'n cynorthwyo i wneud y noson yn un ddiogel eto eleni. Gwnaed elw o £37 tuag at Barti Nadolig yr Henoed — nid yw'r dyddiad hwn wedi'i drefnu eto — ond os oes rhywun yn awyddus i helpu, cysyllter ag aelodau o Bwyllgor yr Urdd.

YSGOL SUL BOSRA: Pnawn Sul, Tachwedd 4ydd, bedyddiwyd Wena ac Iwan Williams gan y Parchedig Erfyl Blainey. Pob bendith ar y ddau ohonoch.

LLONGYFARCHIADAU: Y mis hwn eto, llongyfarchir perchnogion Siop Gron ar eu llwyddiant yn y rownd gyn-derfynol am 'Y Swyddfa Bost Orau yng Nghymru'. Cyflwynwyd tarian hardd iddynt. Dau yn unig sydd yn y ras rŵan, sef ein swyddfa bost ni a swyddfa o'r De. Pob dymuniad da i Josephine a Tony Rees yn y rownd derfynol.

LLONGYFARCHIADAU mawr i Wendy a David Philips, Waun, ar enedigaeth mab bychan, brawd i Mathew ac ail ŵyr i Shirley ac Eurwyn Jones, Camelot.

Llongyfarchiadau hefyd i Dylan a Meinir Griffith, Tros y Waun, ar enedigaeth mab bychan, ŵyr arall i Mr a Mrs W. H. Griffith.

GŴYL CERDD DANT BANGOR A'R CYLCH: Daeth llwyddiant mawr i nifer o aelodau yn y pentref, ddydd Sadwrn, Tachwedd 10.

Llongyfarchiadau calonnog i Sioned lewis am gael cyntaf am ddawnsio, i Eleri a Hefina oedd mewn parti dawnsio, i Heulwen Evans a Judith Harding, cyntaf gyda Pharti Dawnsio Caernarfon, Dafydd Ifans ac Arwel Jones gyda Meibion Arfon, a Jean, Carys ac Ann gyda Clychau'r Grug.

PWYLLGOR NEUADD BENTREF: Ar Hydref 31 yn Neuadd yr Eglwys, cynhaliwyd cystadlaethau a Disgo Calan Gaeaf. Bu'n dasg enfawr i Mrs Nansi Jones, Meillionydd, feirniadu'r holl gystadlaethau, a oedd o safon uchel iawn eleni eto. Diolchir iddi am ei geiriau caredig i'r cystadleuwyr ac am feirniadu mor deg. Diolch hefyd i Rhian ac Eifion Harding, y 'Disc Jockeys', ac i bawb a gyfrannodd at lwyddiant ysgubol y noson.

Tynnwyd Clwb Cant Hydref a'r enillwyr oedd: 1, Nansi Williams, Bryntirion; 2, Ken Williams, Trem Cynfi; 3, Mary Parry, Llanrug.

Tynnir Clwb Cant Tachwedd mewn Pwyllgor yn yr Ysgol nos Lun, Tachwedd 26 am 6.30 pm.

Gobeithir cael Noson Nadoligaidd ym mis Rhagfyr.

TRIP CAER: Bydd y bws yn gadael Siop Gron yn brydlon am 8.30am fore Sadwrn, Rhagfyr 1af. Enwau ynghyd â'r arian yn ddiymdroi i Margaret Williams, Carrog, Waun. ffôn 870 716. Pris — oedolion £3.60, plant £2.60.

GWELLHAD: Dymunir adferiad iechyd buan i Mr Richard Williams, 20 Bryntirion, a Trefor Jones, 6 Bryntirion, wedi'u triniaeth yn yr ysbyty. Gobeithio fod pawb sy'n sâl yn y pentref yn gwella ac yn edrych ymlaen at y Nadolig.

PROFEDIGAETH: Cydymdeimlir yn ddwys iawn â Mr Jonathan Jones a'r teulu, 21 Bryntirion, ar golli ei dad oedd yn byw yng Nghaernarfon. Yr un modd, ein cydymdeimlad dwysaf â Mrs Wendy Thomas, Bryntirion, hithau hefyd wedi colli'i thad, o Gaernarfon.

GENI: Llongyfarchiadau i Nia ac Alun, 'Alunia', Bryn Eglwys, ar enedigaeth merch fach, Elliw Gwenllian.

ADLONIANT
'IO, TO A'R TWRCI'

Mae sioe ddiweddaraf Bara Caws — 'Io, To a'r Twrci' gan Mair Gruffydd yn ymwneud â phroblem y di-gartref ifanc, problem sydd yn amlygu'i hun mewn ardaloedd gwledig yn ogystal a'r ardaloedd trefol.

Mae'r ffigyrau wedi cynyddu yn aruthrol gyda'r newidiadau diweddaraf mewn budd-daliadau cymdeithasol yn ogystal â'r ddeddfwriaeth dai. Amcangyfrif fod yna 30,000 o bobl ifanc yn ddi-gartref yng Nghymru.

Cyflwynir y thema yma yn ogystal â'r pathos a'r hiwmor drwy lygaid tri cymeriad ifanc. Dilynir eu hynt a'u helynt yn y cyfnod yn arwain at y 'Dolig, a'r dilema sy'n eu hwynebu o geisio cael to uwch eu pennau.

Comisiynwyd Steve Eaves i gyfansoddi cerddoriaeth arbennig ar gyfer y sioe, a mi fydd tâp o'r caneuon yma ar werth gyda rhan o'r elw yn mynd tuag at 'Hafan', hostel i'r di-gartref ifanc yng Nghaernarfon.

Sioe sy'n briodol iawn ar gyfer yr amser arbennig yma o'r flwyddyn ac efallai y bydd yn cosi cydwybod rhai ohonom beth yw gwir ystyr y Nadolig!

Yn lle trefnu parti Nadolig, beth am drefnu noson allan i weld 'Io, To a'r Twrci' — cynhyrchiad addas ar gyfer y Clybiau Ieuenctid ac Ysgolion Uwchradd yn ogystal â gweddill y gymuned.

Maldwyn John, Merfyn Jones a Nia Williams yw'r actorion.

Os ydych am fwynhau'r perfformiad ym mro'r Eco, yna dewch i Neuadd Ysgol Brynrefail, Llanrug, nos Lun, Rhagfyr 17.

(Gweler hefyd yr hysbyseb ar dudalen 21)

AM NOSON O HWYL
a chyfle i ennill gwobrau?
Beth am ddod draw i'r gynulleidfa yn
STIWDIO BARCUD, CIBYN CAERNARFON
Ionawr 5, 11, 12, 25, 26 Chwefror 8, 9
i raglen newydd Teledu'r Tir Glas
NOS SADWRN
Tocynnau (ymlaenllaw) o Ymateb
65 Cae Gwyn, Caernarfon
Caernarfon (0286) 3828
Drysau'n agor am 7.00
Rhaglen yn dechrau am 7.30
Trefnwch i lenwi bws a mi wnawn ni dalu amdano!!
Oes gennych chi fideo cartre doniol?
Os oes cysylltwch â Teledu'r Tir Glas
Fe allech chi ennill trip i America!
Teledu'r Tir Glas, Maesincla,
Caernarfon (0286) 5766

W.J. GRIFFITH
PLYMAR A GOSODWR
GWRES CANOLOG
PANT TIRION, LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 673248
Gosodwyr Nwy Cofrestedig Corgi
CORGI GAS IN SAFE HANDS
Aelod o'r Association of Plumbing and Mechanical Services Contractors
Dim un dasg rhy fychan
Dim un dasg rhy fawr

SIOP
Nwyddau Gardd
Cynnyrch Cartref
Crefftwaith
ANTUR WAUNFAWR
CANOLFAN GARDDIO
Blodau, Grug
Alpau, Perthi
ANTUR WAUNFAWR
Ffôn:Waunfawr 721
Cynnal a Chadw Gerddi
Cynnal a Chadw
Plannu Coed
Meinciau Concrid a Phren
Planters Concrid a Phren
Corachod

GWILYM H. WILLIAMS
BRYN DAIRY
2 BRYNHYFRYD
BETHEL
Ffôn
Port Dinorwig 670786
Llefrith
Llaeth Porfa
Llaeth heb Hufen
Wyau, Tatws
Diodydd
Ffrwythau

GWEITHGAREDDAU PLANT MEWN ANGEN



'A phwy 'di'r 'smootie' yma tybed?'

Dyma nhw'n dechrau gwneud Pwdin 'Dolig Ysgol Llanrug.

'Rwan 'ta Mistar Wyn, ym mha ddosbarth mae'r 'Awen' 'ma 'da chi'n sôn cymaint amdani?'

Buwch arbennig — yn godro arian.

DATHLU GŴYL SANTES DWYNWEN

NANT GWRTHEYRN, IONAWR 25-27

Eleni eto, trefnir penwythnos gymdeithasol ar gyfer Cymry Cymraeg a Dysgwyr Profiadol i ddathlu Gwyl Nawddsant Cariadon Cymru yn Nant Gwrtheyrn, pryd y ceir cyfle i:

- ddod yn hyddysg â hanes Dwynwen, Chwedl Rhys a Meinir a chariadon enwog eraill
- glywed am y grefft o wneud Llwyau Caru
- ymweld ag Ynys Llanddwyn
- cyd-addoli mewn Oedfa arbennig
- wrando ar y beirdd yn cyfansoddi
- Ddawnsio Gwerin
- swpera mewn gwledd arbennig

Pris y penwythnos (heb Swper y Santes) fydd — Llety Llawn: £69.80; Llety Hunan-ddarpar: £46.80; Aelod dyddiol: £20.00.

Enwau i law erbyn Ionawr 4. Ffurflen gais ar gael o Swyddfa Nant Gwrtheyrn (0758 85 334/335)

Y STORFA LLANRUG

(Richard a Meirwen Williams)

Ffôn: Caernarfon 2790

Sylwch ar ein horiau agor hwylus:

Sul	9 - 12.30
Llun - Gwener	7.30 am - 6 pm
Sadwrn	8 am - 8 pm

Nid oes unrhyw dâl am ddanfon ordor i'ch cartref yn ardal Llanrug.

CABS LLANRUG

C'fon 5951

Prisiau cystadleuol
Gwaith contract
pell ac agos

AR WERTH

Beic Rasio 5 gêr i ferch. Pris £50

Ffôn: (0248) 670726

LLANRUG

Mrs Dyfi Jones, Tyddyn Rhyddallt. Ffôn: C'fon. 76733

CYMDEITHAS LENYDDOL: Cynhaliwyd cyfarfod o Gymdeithas Lenyddol Capel Mawr nos Fercher, Tachwedd 14, dan lywyddiaeth Miss M. G. Roberts. Y gŵr gwadd oedd Mr Dewi Tomos, Rhostryfan ac aeth â'r aelodau ar daith drwy gyfrwng sgwrs a sleidiau i'w 'Hoff Fannau'. Cafwyd y diolchiadau gan Mr J. W. Owen. Paratowyd paned gan Mrs J. Parry a Mrs J. Davies a diolchwyd iddynt gan Mrs I. Butler.

Y GYMDEITHAS UNDEBOL: Nos Fawrth, Tachwedd 20fed, bu Miss Modlen Lynch yn rhoi hanes ei gwyliau (trwy gyfrwng sleidiau) yn Tseina. Croesawyd Modlen gan y Llywydd, Mrs Megan Williams, Bron Eryri, a thalwyd diolch iddi gan Y Parch John Morris.

Bydd y cyfarfod nesaf ar Ragfyr 4 pryd y ceir noson gan Barti Glannau Menai. Croeso cynnes i bawb. Mynediad yn 50c.

NOSON GOFFI: Cynhaliwyd Noson Goffi lwyddiannus iawn yn yr Ysgol Gynradd nos Iau, Tachwedd 15. Fe godwyd £400 er budd Tenovus, ymchwil canser.

Enillwyr y raffl oedd: Cig Eidion: Mrs Thwaite, Glanffynnon; Draig: Mrs Davies, Rhyd y Delyn; Cyllell Drydan: Mrs M. Williams, Bron Eryri; Potel o Win: Mrs O. Llywelyn; Bisgedi: Mrs Side, Llwyn; Crwban: Mrs E. Owen, Hafod y Rhos; Bocs Sicoled: Iolo Roberts, Glyn Awel.

Sieri: Mrs Owen, Llys Myfyr; Siocled: Gareth Hughes, Glanffynnon; Potel o Win: Mr J. Owen, Hafod y Rhos; Bocs o Nwyddau: Mrs C. Owen, Hafan Elan; Jar o Felysion: Mrs Flo Roberts, Glyn Awel; Potel o Win: Dafydd, Tai Trefor; Offer Trin Gwallt: Catrin, Gardd yr Rhos; Potel o Sieri: Heulwen, 5 Glan Moelyn.

Diolch yn fawr iawn i bawb a gyfrannodd i wneud y noson mor llwyddiannus.

Mae cardiau Nadolig ar werth er budd Tenovus. Cysylltir ag Eirian Roberts, 24 Glanffynnon.

PLAID CYMRU: Cynhelir y Ffair Nadolig yng nghwmni Siôn Corn nos Fercher, Rhagfyr 5 am 7 o'r gloch yn yr Ysgol Gynradd.

Y wraig wadd fydd Mrs J. Huws Roberts, Park Villa, un o aelodau cynnar y gangen. Cafodd Mrs Huws Roberts driniaeth lawfeddygol ar ei llygad yn ddiweddar a rydym yn hynod o falch ei bod yn gwella, a hefyd llongyfarchwn hi ar ddathlu penblwydd arbennig iawn, iawn yn ystod mis Hydref. Edrychwn ymlaen at ei chroesawu i'r Ffair.

Mae amryw o'n haelodau yn cwyno yn eu cartrefi ac mewn ysbytai ac anfonwn ein cofion a'n dymuniadau da am wellhad buan atynt i gyd.

Bydd amryw o stondinau, gemau a Raffl yn y ffair. Cofiwch ddod yno i brynu eich anrhegion Nadolig, a chofiwch chi blant ddod i weld Siôn Corn a chael anrheg ganddo.

Os dymunwch gyfrannu nwyddau i'r stondinau, bydd y canlynol yn barod i dderbyn eich rhoddion: Nan Humphreys, Vera Williams, Phyllis Ellis, Olwen Llywelyn, Meinwen Lloyd.

CROESO ADREF i Richard Roberts, Prysgol, wedi arhosiad o wyth mis yng Nghanada. Treuliodd ei amser gyda theulu croesawus a charedig iawn lle cafodd brofiad buddiol o weithio ar eu fferm yn Wingham, Ontario. Tra yno daeth cyfle i gael gwyliau yng ngorllewin yr Unol Daleithiau gan ymweld â Las Vegas, y Grand Canyon ac amryw o leoedd eraill.

Er i Richard fwynhau y cyfan o'i brofiadau, mae'n falch o gyrraedd yn ôl i'w gynefin, a'i deulu a'i holl gyfeillion yn falch o'i groesawu adref.

MERCHED Y WAWR: Bu cyfarfod mis Tachwedd o'r gangen uchod yn yr Ysgol Gynradd ar nos Fawrth y 13eg o dan lywyddiaeth Miss Mary Roberts.

Llongyfarchodd nifer o'r aelodau, a rhai yn gysylltiedig â hwy ar eu llwyddiant yn yr Ŵyl Gerdd Dant ym Mangor, ac hefyd yn Eisteddfod y pentref. Diolchwyd i'r aelodau a gymerodd ran yn yr Orsedd yn yr Eisteddfod.

Croesawyd Delyth Murphy a ddaeth atom i roi hanes Tearcraft yn y Trydydd Byd, ac eglurodd yn fanwl beth mae'n ei olygu. Daeth a nifer o nwyddau gyda hi i'w gwerthu, a mwynhaodd pawb y noson. Diolchwyd iddi gan Mrs Bethanne Williams.

Darparwyd y baned gan Gwenda Roberts, Margaret Jones a Anne Ll. Griffith. Diolchwyd iddynt gan Jean Roberts. Enillydd y raffl oedd Bethanne Williams.

Cinio Nadolig fydd y cyfarfod nesaf, ar Ragfyr 11, yn Bryn Eisteddfod, Clynnog. Enwau ac arian i Olwen Hughes, Eithinog, Afon Rhos, erbyn Rhagfyr 1af os gwelwch yn dda.

LLONGYFARCHIADAU i Mr Charles Wyn Jones, Tyddyn Rhyddallt, Llanrug, ar ei ddyrchafiad yn dilyn ad-drefniant mwyaf Telecom Prydeinig ers preifateiddio'r cwmni rai blynyddoedd yn ôl.

Charles, sydd eisoes yn Bennaeth Adran Cynllunio'r cwmni dros Ogledd Cymru a Chaer, fydd Prif Reolwr Cynllunio'r cwmni yn y Gogledd ac yn Bennaeth Adran Gynllunio llawer helaethach na'r adran bresennol.

Dymunwn yn dda iddo yn ei swydd newydd. Bydd yn dechrau ynddi ar Ebrill 1, 1991.'

MARW: Mewn ysbyty ym Mhenbedw, yn 92 oed, bu farw Mr Edwin O. Williams. Ganed Edwin yn Glandwr, Cwm-y-Glo, yn fab i'r diweddar Owen a Kate Williams, Arfryn, Pontrhythallt. Gedy fab a dwy ferch a'u teuluoedd. Cydymdeimlir â'r teulu yn eu profedigaeth, ac â'i frawd Mr O. G. Williams, Llanfairfechan.

YSGOL GYNRADD LLANRUG: CYMDEITHAS FFRINDIAU: Sefydlwyd y gymdeithas yma i hyrwyddo cysylltiadau rhwng y pentref a'r ysgol.

'DOLIG YCHYDIG YN FUAN

Bu gwŷr busnes lleol yr ardal yn dra charedig â Chlwb Pêl-droed Llanrug yn ddiweddar fel y gwelir yn y lluniau isod.

Merfyn Jones yw Cadeirydd y Clwb eleni, ac yn rhinwedd ei swydd fe dderbyniodd beldroed wedi ei chyflwyno gan W. G. Roberts o gwmni Snowdonia.

Capten tîm cynta'r clwb yw Adrain Wakeham, ac fe dderbyniodd y set o ddillad yn rhodd gan berchennog London Garage, Cwm y Glo, Dafydd Hughes a'i werthwr ceir, sef Michael Jones.

Dymuna'r clwb ddiolch o galon i bawb o'r caredigion fu'n eu cefnogi ym mhob ffordd yn ystod y tymhorau diwethaf.

Emyr Jones
PLYMAR A PHEIRIANNYDD GWRESOGI
Cynnal Boileri nwy, olew, tanwydd solat a thredio peipiau
44 Glanffynnon
LLANRUG
Caernarfon 3513

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA

oddi wrth

Wavell Roberts
CIGYDD
LONDON HOUSE
LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 3574

PEN CIGYDD Y FRO
MYNNWCH Y GORAU
A DEWCH ATOM NI

Yn y cyfarfod cyntaf etholwyd swyddogion am y flwyddyn 1990-91 sef — Cadeirydd: Mr Iwan Roberts; is-Gadeirydd: Y Prifathro; Ysgrifenyddes: Mrs Carys Wynne; Trysoryddes: Mrs Linda Jones; Cynrychiolwyr eraill: Mrs Pat Jones, Mr John Owen, Mr Phil Griffiths a Mrs Patricia Jones.

Trefnwyd noson i gychwyn y gymdeithas sef Noson Wasail — canu carolau ar fuarth yr ysgol, mins peis a pwnsh yn y neuadd i ddilyn — ar nos Lun, Rhagfyr 17 i gychwyn am 6.00 pm.

Mae holl weithgareddau'r gymdeithas yn agored i unrhyw un o'r pentref, nid rhieni a phlant yn unig. Mae hyd yn oed Siôn Corn yn bwriadu ymuno yn y Noson Wasail, felly dewch ynnllu.

GALA NOFIO YR URDD: Bu nifer o blant yn nofio dros adran yr ysgol yn ddiweddar. Dyma'r canlyniadau: Dan 10 — Ras gyfnewid cymysg a rhydd i Enethod — 1af. Y tîm oedd Ceri Jones, Lisa Schudlak, Siân Green a Gwenno Williams.

Ras Pili Pala: 1, Ceri Jones; 2, Elin Dafydd. Broga: 3, Ceri Jones. Cefn: 2, Lisa Schudlak. Rhydd: 3, Lisa Schudlak a Gwenno Williams.

Dan 12 — Ras gyfnewid cymysg a rhydd i Enethod — 1af. Y tîm oedd Emma, Jackie, Gwennan, Iona.

Genethod — Cefn: 2, Gwennan Humphreys. Rhydd: 2, Emma Lloyd Davies; 3, Jackie Gibbins. Cymysg: 2, Emma Lloyd Davies; 3, Jackie Gibbins.

Bechgyn — Cefn: 1, Eifion Jones. Rhydd: 3, Eifion Jones. Broga: 3, Gareth Wyn Roberts. Ras gyfnewid, rhydd a chymysg — 3ydd. Y tîm oedd Eifion, Ieuan, Martin a Gareth Wyn.

Llongyfarchiadau iddyn nhw i gyd a phob lwc yn y gystadleuaeth yn Llanelli ar Ragfyr 1af.

PÊL-DROED: Bu tîm yr ysgol yn chwarae yn erbyn Ysgol yr Hendre yn ddiweddar: Hendre 5 — Llanrug 3. Y sgorwyr oedd Eifion, Daniel a Dyfan.

Yng nghystadleuaeth 5 bob ochr Tarian George Maclean bu tîm Eifion a thîm Dyfan yn cynrychioli'r Ysgol.

GŴYL CERDD DANT: Bu dau barti yn canu yng nghystadleuaeth yr alaw werin dan 12 oed, a pharti arall yn canu yng nghystadleuaeth cerdd dant dan 12 oed. Ni ddaeth llwyddiant eleni, ond diolch iddynt am eu hymdrech a'u brwdfrydedd arferol.

YMWELIAD: Daeth Mrs Megan Williams o Drefor at ddosbarthiadau Babanod Canol a Babanod Uchaf i ddangos amrywiaeth o hetiau a phenwisgoedd. Cawsant brofiad o deimlo nifer o wahanol ddefnyddiau, ac yn fwyaf oll, gwisgo a modelu yr hetiau lliwgar a diddorol.

Mae tri o fyfyrwyr o'r Coleg Normal, Bangor, yn treulio 6 wythnos o ymarfer dysgu yn yr ysgol. Estynnwn ein croeso i Mr John Puw; Mr Dafydd Owen a Miss Nerys Jones.

GWASANAETH: Bydd Gwasanaeth Nadolig yr ysgol yng Nghapel Mawr, Llanrug ar Ragfyr 14, lle bydd y plant yn arwain yr addoliad mewn carol, gweddi a drama dan y testun 'Bydded Goleuni'.

FFAIR LYFRAU CYMRAEG: Bydd siop lyfrau Awen Menai, Porthaethwy, yn cynnal Ffair Lyfrau yn yr ysgol ar 27ain Tachwedd. Agorir y siop o 4.30 tan 8.00

Y rhai fu'n cynrychioli'r Ysgol yn y Gala Nofio.

Cwmni Bara Caws yn perfformio

IO, TO A'R TWRCI

yn neuadd Ysgol Brynrefail, Llanrug
Nos Lun Rhagfyr 17 am 7.30 o'r gloch
Arbennig o addas i bobol ifanc a phlant
Tocynnau **£2.50** Plant **£1**
Am fwy o wybodaeth ffoniwch: **Waunfawr 200**
Caernarfon 4878 neu **Caernarfon 5668**
TREFNIR GAN GANGEN LLANRUG PLAID CYMRU

PLAID CYMRU LLANRUG
FFAIR NADOLIG yng nghwmni **Siôn Corn**
yn yr Ysgol Gynradd Llanrug Nos Fercher
Rhagfyr 5, am 7 o'r gloch
Stondinau bwyd, Cacennau, Cynnyrch Cartref, Tegannau, Gemau, Raffl
Mynediad **30c** Plant **10c** wrth y drws CROESO I BAWB

Y PARTI BLYNYDDOL LLANRUG A TAN Y COED
Nos Iau, Rhagfyr 13 am 7 o'r gloch yn yr Ysgol Gynradd.
Enwau yn y llyfr sydd yn Swyddfa'r Post os gwelwch yn dda. Fe drefnir cludiant lle bo angen, a dowch a chyllell, fforc a llwy gyda chi ar y noson.

Merched y Wawr Cangen Llanrug
CINIO NADOLIG
Nos Fawrth Rhagfyr 11
Bydd y bws yn cychwyn o Benisarwaun am 7 o'r gloch ac yn Sgwâr Llanrug 7.15.
Enwau ac arian ymlaen llaw i unrhyw aelod o'r pwyllgor

LLYFRAU

'Y Llanc Ifanc o Lan Conwy'. Hanes y meddyg a'r naturiaethwr John Williams (1801-59), awdur *Faunula Grustensis* (1830) sef y llyfr sy'n astudiaeth o holl blwyf Llanrwst.

Yn y llyfr ceir hanes John Williams yng Nghorwen, ei daith anturus i chwilio am aur yng Nghaliffornia ac yna ei gyfnod yn Froncysyllte, Wrecsam a'r Wyddgrug.

Mae'r awdur, Carey Jones, yn cyhoeddi'r llyfr ar ei draul ei hun. Pris y llyfr yw £3.00; nid oes tâl cludiant i ddarllenwyr Eco'r Wyddfa.

Cysylltwch â Carey Jones, 49 Court Road, Wrecsam, Clwyd, LL13 7RH.

Dysgwch yrru'r car gydag
Y.Y.O.
YSGOL YRRU OFALUS
* **Gwasanaeth 7 diwrnod**
* **O ddrws i ddrws**
* **Control Deuol**

D L
PRITCHARD
43 Glanffynnon
LLANRUG
CAERNARFON 5112
Cymeradwyir gan yr Adran Drafnidiaeth

GERAINT OWEN
Gosodwr carpedi a phob math o loriau
Cil-y-Mynydd
WAUNFAWR
Ffôn: Waunfawr 552

CARTREF YR HENOED
Cartref Gofrestredig ag iddo awyrgylch Gymreig
Cysylltwch â
Mrs Meirwen Thomas neu Mrs Eli Thomas
Ffordd yr Orsaf, Lanrug,
Caernarfon (0286)4652

CHIROPODIST
Gwasanaeth yn eich Cartref
E. Ll. Parry
M.S.S.Ch., M.B.Ch.A.
57 Glanffynnon
LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 5754

BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: Felinheli 670726

DIOLCH: Dymuna Gary Williams, 6 Cremlyn, ddiolch yn fawr iawn am y llu o gardiau, anrhegion ac arian a dderbyniodd wedi ei ddamwain.

CYDYMDEIMLO: Ddydd Llun, Tachwedd 19, bu farw Mrs Esther Edwards, 3 Bro Rhos. Estynnir pob cydymdeimlad â'r teulu yn eu profedigaeth.

Y NEUADD: Bydd Siôn Corn yn mynd o amgylch y pentref nos Lun, Rhagfyr 17. Bydd yn cychwyn o Glan Gors am 6 o'r gloch ac mae'n gobeithio cyrraedd y Neuadd tua 7.30. Yn y Neuadd bydd Siôn Corn a phawb ddaw draw yn cael paned o de neu goffi ac ar y noson fe fydd Raffl Nadolig y Neuadd yn cael ei thynnu a gwobrwyon Clwb 100 Rhagfyr.

Dymuna Pwyllgor y Neuadd ddiolch o galon am y rhoddion a ddaeth i law yn ystod y flwyddyn i helpu chwyddo y Gronfa Ail-adeiladu, er enghraifft: £500 Clwb Snwcer Bethel; £200 Cartref Sant Teilo; £50 Meirwen Jones, Swyddfa'r Post; £100 Cangen Bethel o'r Urdd; £376 Hen Bwyllgor Carnifal Bethel; £30 Mr a Mrs Fellows, Y Ddôl; £17 Noson parti Fron Helyg; £25 Mr a Mrs Harrison, Bahkita; £20 Judith Jones, Saron; £46 Cwis y Bedol.

Hefyd cyfraniadau G. H. Willis, Siop Treflyn; Garej Minffordd; Sam Jones; G. V. Pritchard a Mrs Bessie Ellis.

CLWB Y RHOS: Nos Lun, Tachwedd 19 cynhaliwyd cyfarfod arferol Clwb y Rhos. Roedd y noson yng ngofal Mr Emlyn Hughes oedd wedi trefnu i Mr Ieuan Owen, Caernarfon, ddod draw i roi sgwrs a dangos lluniau o'i ymweliad â Seland Newydd yn ystod Chwaraeon y Gymanwlad yn ddiweddar. Y tro diwethaf y bu Ieuan yn Seland Newydd cafodd fedal arian am godi pwysau.

Diolchwyd i Mr Owen gan Mr Siencyn Griffiths.

LLONGYFARCHIADAU a dymuniadau gorau i Julie M. Vice, Cefn Rhos, ar ei phriodas gyda Timothy Adrian Aston o'r Dyffryn, Ynys Môn.

LLONGYFARCHIADAU i Sheila ac Andre Lambrecht, Bro Rhos, ar enedigaeth merch fach, Catrin, yn ddiweddar.

YR URDD: Bellach mae gweithgareddau tymor y gaeaf wedi cychwyn ers canol mis Hydref ac mae 70 o blant y pentref wedi ymaelodi eleni.

Y gŵr gwadd yn y cyfarfod cyntaf oedd Mr Seiriol Davies (Caerdydd — yma ar ei wyliau!) yn sôn am ei hobi fel arlunydd. Roedd y plant yn rhyfeddu at ei ddawn i greu llun mewn ychydig o funudau. Diolchwyd iddo gan Dafydd Jones, Fachell.

Cafwyd Noson Guto Ffowc lwyddiannus iawn eleni — diolch i bawb fu'n helpu mewn gwahanol ffyrdd. Trosglwyddwyd rhan o'r elw, sef £100, i gronfa Ail-adeiladu'r Neuadd.

Bu rhai o blant y gangen yn cymeryd rhan mewn dwy Gala Nofio ym Mangor yn ddiweddar. Llongyfarchiadau i bawb a gymerodd ran. Roedd rhai cannoedd o blant yn cystadlu, a'r safon yn uchel iawn. Pawb i gael canmoliaeth uchel iawn am ddod a chlod i Adran Bentref Bethel.

Fe ddaeth Ellen Robinson yn 3ydd yn y ras nofio cefn, a'r tîm cyfnewid dan 10 yn ail. Fe ddaeth Delyth Michael yn 3ydd yn y ras broga, Nia Watkin Jones yn 2il yn y ras pili-pala ac yn y ras gymysg.

Trydydd oedd hanes y ddwy ras gyfnewid dan 12 oed.

Yn anffodus, dim ond y cyntaf ym mhob ras oedd yn mynd ymlaen i Lanelli, felly neb o Fethel y tro yma.

Bu Mr Malcolm Jones, Swyddog o'r Gwasanaeth tân yn sgwrsio efo'r plant am berygl tân, a phwysigrwydd y Gwasanaeth. Diolchwyd iddo gan Delyth Michael.

Prynhawn Sul diwethaf cymerwyd rhan yng Ngwasanaeth Sul yr Urdd, yng Nghapel Mawr, Llanrug, gan ugain o blant y gangen — pawb yn gwneud eu gwaith yn raenus iawn.

Gyda'r Nadolig yn nesau, y cyfarfod nesaf fydd noson o waith llaw yn gwneud addurniadau, yng nghwmni Mrs Margaret Jones o Dregarth. I ddiweddu'r tymor fe fydd Parti Nadolig a Disco nos Iau, Rhagfyr 6 o 5.30 i 7.00 o'r gloch.

YSGOL FEITHRIN: Nos Wener, Tachwedd 16, cynhaliwyd Noson Goffi yn y Neuadd. Diolch yn fawr i'r rhai a ddaeth i'n cefnogi ar y noson.

Enillwyr y raffl ar y noson oedd: Twrci (rhodd gan Valerie Evans, Parciau Rhos): Lesley Morgan, 17 Cremlyn, Bethel; Potel o Gin (rhodd gan Y Bedol): Sheila Foulkes, Tyddyn Gwndwn, Bethel; £10 Petrol (rhodd gan Garej Minffordd) Williams, Arfon House, Bethel; Siocled Milk Tray (rhodd gan Mr a Mrs Jones Y Post): Greasley, Minafon, Waunfawr; £5 Voucher Boots (rhodd gan Margaret, Cefn Farm): Eirlys Williams, 20 Y Ddôl; Potel o Sieri (rhodd gan Joyce Gaffey): Jean Jones, Wenallt, Bethel; Quality Street (Rhodd gan Treflyn Stores): Shirley Jones, 2 Cremlyn, Bethel.

EISTEDDFOD BETHEL

Cafwyd Eisteddfod lwyddiannus ddydd Sadwrn, Tachwedd 3ydd. Y beirniaid oedd — Adrodd a Llenyddiaeth: Mr John Hywyn; Cerdd: Mrs Nia Jones; Arlunio: Mr Alan Ginsberg; Gwaith Llaw a Choginio: Mrs Pat Jones; Ffotograffiaeth: Mr Gwyndaf Hughes. Y Llywydd oedd Mrs Ann Parry.

Dymuna'r Pwyllgor ddiolch i bawb a gefnogodd yr Eisteddfod ac am bob cymorth. Dyma restr o'r buddugwyr:

ADRODD

Dan 4: 1, Kelly; 2, Gwenan a Sam; 3, Rachel, Lisa, Robert ac Anest. **O 4 i 6:** 1, Lois; 2, Gwen a Kevin; 3, Sarah a Ffion. **O 6 i 8:** 1, Gwenan; 2, Owain Sion; 3, Aled Hefin a Iolo. **Parti adrodd dan 8:** 1, Parti Sarah; 2, Parti Llinos; 3, Parti Meleri. **Adrodd o 8 i 10:** 1, Delyth Morris; 2, Llinos Mair; 3, Meleri Ellis; **O 10 i 12:** 1, Carwyn John Morris; 2, Eleri Robinson; 3, Caryl Owen. **Parti Adrodd dan 12:** 1, Parti Cŵl Dŵds; 2, Parti Cowabunga; 3, Parti Dafydd. **Tlws Adrodd dan 12:** Carwyn John Morris.

Adrodd o 12-15: 1, Llinos Angharad Morris; 2, Llinos Wyn Morris; **O 15 i 18:** 1, Sioned Owen. **Darllen darn o ryddiaith:** 1, Mair Read; 2, Iorwerth Williams; 3, Richard Llwyd Jones; **Darn heb ei atalnodi:** 1 (cyd), Robin Jones Non Llywelyn Jones. **Sgets:** 1, Café Rondo a Richard Llwyd Jones. **Parti Adrodd Agored:** 1, Hogia'r Werin; 2, Ecseciwtif Grŵp.

LLENYDDIAETH

O 5 i 6 oed: 1, Paul; 2, Manon; 3, Arfon. **O 6 i 7:** 1, Dylan; 2, Gwenan; 3, Jemma a David. **O 7 i 8:** 1, Alun; 2, Kelly; 3, Geraint a Mark. **O 8 i 9:** 1, Kelly; 2, Gemma; 3, Meleri. **O 9 i 10:** 1, Meilyr Emrys; 2, Sion Alun Jones; 3, Irfon Hughes a Laura Millican. **O 10 i 11:** 1, Lois Druce; 2, Eleri Robinson; 3, Huw Jones. **Tlws Llenyddiaeth Ysgol Gynradd:** Lois Druce.

Llên o 12 i 14 oed: 1, Llinos Wyn Morris. **14-16 oed:** 1, Non Llywelyn Jones. **16-18 oed — Cerdd:** 1, Sioned Owen. **Llythyr: 1, Lynn Roberts. Tlws dan 18 oed:** Non Llywelyn Jones.

Agored — Stori Fer: 1, Dafydd Guto. **Ysgrif:** Dafydd Guto. **Cerdd:** Dafydd Williams. **Llythyr:** Richard Llwyd Jones. **Emyn:** Mrs M. G. Williams. **Brawddeg:** Sioned Davies. **Llinell Goll:** Alys Jones. **Cerdd Gocos:** Dafydd Williams. **Deialog:** Richard Llwyd Jones a Dafydd Williams. **Y Gadair:** Dafydd Guto, am Stori Fer.

CERDD

Canu dan 4: 1, Gwenan; 2, Anest; 3, Sam. **4-6 oed:** 1, Gwenno; 2, Sarah; 3, Ffion. **6-8 oed:** 1, Iolo; 2, Rhian; 3, Gwenan. **Parti dan 8 :** 1, Parti Sarah; 2, Parti Enlli; 3, Parti Gwen. **Unawd Piano dan 9:** 1, Rhian; 2, Elen, 3, Sioned. **Canu 8-10 oed:** 1, Bethan Fôn Jones; 2, Bethan Williams; 3, Anest Williams. **10-12 oed:** Eleri Robinson.

Piano dan 12: 1, Bethan Fôn Jones; 2, Lois Druce; 3, Catrin Roberts. **Unrhyw offeryn heblaw'r Piano:** 1, Dewi Griffiths; 2, Eleri Robinson; 3, Caryl Owen. **Parti dan 12:** 1, Parti Geraint; 2, Parti Angylion Anghofus; 3, Parti Genod Groovy. **Tlws Cerdd dan 12:** Bethan Fôn Jones.

Canu dan 15: 1, Menna Dauncey Williams. **Piano dan 15:** 1, Menna D. Williams; 2, Llinos Angharad Morris. **Canu 15-18:** 1, Sioned Owen; 2, Ruth Parry. **Piano dan 18:** 1, Lynn Roberts. **Alaw Werin:** 1, Bethan Fôn Jones. **Cân Ysgafn:** 1, Non Llywelyn Jones. **Tlws Cerdd dan 18:** Sioned Owen. **Deuawd Ddigrif:** 1, Mair Read a Glenys Griffiths; 2, Beti Owen a Llinos Williams. **Parti Alaw Werin:** 1, Parti Robin; 2, Parti Stella; 3, Parti Glenys. **Wythawd:** 1 (cyd), Wythawd A ac Wythawd B.

ARLUNIO

Ysgol Feithrin (1): 1, Catrin; 2, Olwen; 3, Siôn Llŷr. **Ysgol Feithrin (2):** 1, Gwion; 2, Fiona; 3, Caryl. **4-5 oed:** 1, Ffion; 2, Ryan; 3, David. **5-6 oed:** 1, Sarah Margaret; 2, Paul; 3, Sarah Louise. **6-7 oed:** 1, David; 2, Steven; 3, Gwenan. **7-8 oed:** 1, Gwenan; 2, Sarah; 3, Geraint. **8-9 oed:** 1, Kelly; 2, Robin; 3, Awen. **9-10 oed:** 1, Dylan Thomas; 2, Charles Bent; 3 (cyd) Meilir Emrys a Carl Hughes. **10-11 oed:** 1, Caryl Owen; 2, Dyfan Elis; 3, Barry Davies. **Ysgol Uwchradd:** 1, Llinos Wyn Morris. **Tlws Arlunio Ysgol Gynradd:** Gwenan Michael.

FFOTOGRAFFIAETH

Ysgol Gynradd: 1, Dewi Griffith; 2, Lois Wyn Hughes. **Ysgol Uwchradd:** 1, Llinos Morris. **Agored:** 1, Dafydd Guto; 2, Gareth Wyn Hughes; 3, Dafydd Guto.

GWAITH LLAW

Dan 8: 1, 2 a 3: Gwenan Michael. **Dan 10:** 1, Delyth Wyn Morris; 2, Robin Owen; 3 (Cyd), Dewi Griffith a Ffion Williams. **Dan 12:** 1, Bethan Fôn; 2 a 3, Delyth Michael. **Dan 15:** 1, Llinos Angharad; 2, Llinos Morris. **Dan 18:** 1, Llinos Morris; 2, Menna D. Williams; 3, Sioned Owen. **Tlws Gwaith Llaw Ieuenctid:** Delyth Morris.

Agored — Siwmper Plentyn: 1, Myfanwy Wyn Jones. **Trefniant Blodau:** 1, Edwina Morris. **Siôl wedi'i chrosio:** 1, Annwen Jones. **Tegan:** 1, Rhian Hughes. **Collage:** 1, Ceinwen Williams; 2, Llinos Morris. **Dilledyn wedi'i wnio â pheiriant: 1, Llinos Angharad. Tlws Gwaith Llaw:** Myfanwy Wyn Jones.

COGINIO

Dan 12: 1, Delyth Michael; 2, Kelly Williams; 3, Bethan Fôn. **Dan 15:** 1, Llinos Morris; 2, Llinos Angharad. **Tlws Coginio Ieuenctid:** Llinos Morris.

Agored — Taffi Triog: 1, Edwina Morris; 2, Eirlys Sharpe; 3, Myfanwy Jones. **Lemonêd:** 1, Sioned Owen; 2, Eirlys Williams; 3, Edwina Morris. **Teisen Gaws:** 1, Eirlys Williams; 2, Glenys Griffiths; 3, Gail Warrington. **Torth Wholemeal:** 1, Rhian Hughes; 2, A. E. Williams; 3, Rhian Hughes. **4 Chelsea Bun:** 1, Mair Read; 2, Eirlys Williams; 3, Glenys Griffiths. **Pryd ar Hambwrdd:** 1, Eirlys Williams. **Fflan Ffrwythau:** 1, Llinos Angharad; 2 a 3, Eirlys Williams. **Starter i un person:** 1 (cyd), Eirlys Williams; 2 a 3, Glenys Griffiths. **Tlws Coginio:** Eirlys Williams.

Beth am ddysgu dreifio gydag
YSGOL YRRU BETHEL

TACSI CARIAN
* Pell ac agos
* Stesion, Maes Awyr, Porthladd
* 24 awr y dydd

Cysylltwch â Dic ac Eirlys
42 Bro Rhos, Bethel
PORTDINORWIG 671009

MAE'R
SAMARIAID
YN GWRANDO,
YN ABBEY ROAD

BANGOR
354646

CYFARCHION NADOLIG

DEINIOLEN
A
CHLWT Y BONT

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

John Arwel a Jean Roberts

CABS DEINIOLEN

4 FFORDD DEINIOL
DEINIOLEN
871591

Diolch am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

BRYMER, HILDA, NICOLA A LYNDSEY PARRY

SIOP CIGYDD
BRISTOL HOUSE
DEINIOLEN
Llanberis 870297

Diolch am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn

Dymuna **NEVILLE JEAN A STAFF**

Y TARW
BULL INN
DEINIOLEN

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i gwsmeriaid a chyfeillion oll

---

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb oddi wrth

BILL, LIZ, FIONA a RHIANNON

SWYDDFA'R POST
DEINIOLEN
Ffôn:Llanberis870 201

AR AGOR
Gwener 8am - 10am
Sadwrn 9am - 10pm
Sul 10am - 10pm

VG LATE STOP

Stryd Newydd
DEINIOLEN
Ffôn: 870171

Diolch am bob cefnogaeth trwy gydol y flwyddyn . Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth Pam a'r holl staff

---

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

NIGEL, DAWN A'R STAFF

WELLINGTON INN
Deiniolen
Ffôn: Llanberis 870227

Cwrw blasus – chwerw ar ei orau

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth bawb yn

SIOP DRIN GWALLT SHÂN LEWIS
Stryd Fawr
DEINIOLEN
Ffôn 872553

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I HOLL DDARLLENWYR ECO'R WYDDFA
oddi wrth
bawb yn

ARFON GARAGE
DEINIOLEN

(Ffôn: Llanberis 870287)

Diolch am eich cefnogaeth yn ystod y flwyddyn

Mae John a Mary Leach a staff

BECWS DEINIOLEN

yn dymuno ichi Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda. Diolch i bawb a'n cefnogodd yn ystod y flwyddyn aeth heibio.

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I BAWB ODDI WRTH

T. W. THOMAS

'SGUBWR SIMNAI

PENLAN, GALLTYFOEL,
DEINIOLEN
Ffôn: Llanberis 872288

DIOLCH AM EICH CEFNOGAETH YN YSTOD Y FLWYDDYN

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

SLING
Golygfeydd i Deledu a Ffilm

Tabernacl
Ffordd Deiniol
DEINIOLEN

Ffôn: Llanberis 872044

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA
ODDI WRTH
JAVED A SHAHEEN HAQ
SWYDDFA'R POST
CLWT Y BONT
Ffôn 870325
Cynrychiolwyr: AMAZON GAS, RADIO RENTALS
Diolch am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn.

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA
JONES + JONES
FRON DEG
CLWT-Y-BONT
DEINIOLEN
Ffôn: LLANBERIS 870856
ADEILADWYR A CHONTRACTWYR

OSMOND W. SHAW DEINIOLEN
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chwi oll
GWASANAETHAU TELEDU
Ffôn: Llanberis 870545

Dyma'n Nadolig cyntaf
GORSAF BETROL
BERAN
DEINIOLEN
Ffôn Llanberis 871521
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chi oll oddi wrth
TIM, JACKIE A'R TEULU

DEINIOLEN

W. O. Williams, 6 Rhydfadog. Ffôn: 871259

CYFARFOD BLYNYDDOL Y GANOLFAN: Nodwch, os gwelwch yn dda, mai am hanner awr wedi saith ar **nos lau, Rhagfyr 13**, y cynhelir y Cyfarfod, ac nid ar y nos Wener ddilynol fel y cyhoeddwyd yn rhifyn diwethaf yr Eco. Cofiwch enwebu personnau i wasanaethu ar y Pwyllgor Rheoli am y flwyddyn nesaf.

GWASANAETH NADOLIG: Ieuenctid Eglwysi gofalaeth y Parch John Pritchard yn ein pentref fydd yn cynnal y Gwasanaeth Nadolig sydd i'w gynnal yng nghapel Ebeneser, am 5.30 nos Sul, Rhagfyr 16. Gwahoddir chwi i ddod yno i flasu naws yr Ŵyl, ac i gefnogi'r bobl ifainc fydd yn cymryd rhan yn y Gwasanaeth.

UNDEB Y MAMAU: Cynhaliwyd cyfarfod yn Neuadd yr Eglwys ar Dachwedd 5 dan arweiniad y Parch Tegid Roberts. Darllenwyd y gohebiaeth gan Mrs Glenys Williams.

Cafwyd noson ddifyr yng nghwmni Richard o'r Samariaid ym Mangor yn siarad am waith gwirfoddol y Samariaid. Diolchwyd iddo gan Miss Jean Moeller.

Gwesteion y te oedd Mrs Glenys Williams a Mrs Eileen Hughes.

Bydd ein Cinio Nadolig blynyddol yn cael ei gynnal yng Ngwesty'r Victoria, Llanberis ar Ragfyr 19.

MERCHED Y WAWR: Yng nghyfarfod mis Tachwedd cafwyd hanes gwyliau rhai o'r aelodau.

Soniodd Margaret Roberts a Mair Jones am eu gwyliau yn Cyprus, a Jane Thorman Jones am ei gwyliau yn America. Roedd eu clywed yn sôn am eu gwyliau yn ddiddorol iawn. Diolchwyd iddynt gan Mrs Eirlys Williams.

Enillydd y raffl oedd Beti Roberts, Rhes Fictoria. Bydd y cyfarfod nesaf nos Lun, Rhagfyr 10.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Cynhaliwyd cyfarfod yn y Ganolfan ar Dachwedd 5 dan arweiniad Mrs J. Eirlys Williams, y llywydd.

Darllenodd Mrs Williams y llythyr misol a chroesawodd y wraig wadd sef Miss Eirian Pritchard, Caernarfon. Cawsom noson ddifyr iawn gan Miss Pritchard yn dangos sut i wneud addurniadau Nadolig.

Diolchwyd i Miss Pritchard gan Mrs J. Eirlys Williams a Mrs Eirlys Lloyd Jones. Rhoddwyd y te gan Mrs Kathleen Davies, Mrs Jean Diane Jones a Mrs Marion Williams. Enillwyd y raffl gan Miss Jean Moeller.

Bydd y cyfarfod nesaf ar Ragfyr 3 pan gynhelir y Cyfarfod Blynyddol, yr AGM, gyda Mrs Ann Jones, Conwy, y VCO. Taer erfynir am bresenoldeb yr holl aelodau.

CLWB CANT PLAID CYMRU: Enillwyr mis Medi oedd — £10: Miss Iola Gruffydd, Cynfi; £8.50: Mrs Nest Efans, Afon Goch.

Mis Hydref — £10: Mrs J. C. Hughes, 4 Y Bwthyn; £8.50: Mrs Mary Wyn Jones, Ceris.

Mis Tachwedd — £10: Mrs Eirlys Gibson, 17 Hafod Olau; £8.50: Mr Alwyn Owen, 9 Tai Glandŵr.

YSGOL FEITHRIN: Cafwyd Noson Tân Gwyllt lwyddiannus ar Dachwedd 5.

Ar nos lau, Rhagfyr 20, cynhelir cyngerdd yn Festri Ebeneser. Bydd yn dechrau am 6.30 o'r gloch. Cymerir rhan gan blant yr Ysgol Feithrin, a chan dalentau lleol eraill.

Mynediad trwy docyn yn unig.

CLWB ELIDIR: Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf o'r Clwb uchod ar ôl gwyliau'r haf ar Fedi 4 dan lywyddiaeth Mrs Eirlys Ll. Jones, pryd y gwrandawyd ar sgwrs ar dâp, trwy garedigrwydd Mr Alun W. Evans, gan Bob Cae Dicwm, fel y mae yn adnabyddus i ni yn Neiniolen.

CYFARCHION Y TYMOR A'R DYMUNIADAU GORAU AM Y FLWYDDYN NEWYDD
oddi wrth
GWYN OLIVER JONES
Bar Swper Arfonia
DEINIOLEN
Ffôn: Llanberis 870048

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth
IEUAN WILLIAMS
Glanffrwd
DEINIOLEN
Llanberis 870484
* Bysus o 12 i 53 sedd
* Teithiau Lleol a Thramor
* Gwaith Contract
* Telerau arbennig i bensiynwyr, myfyrwyr a phlant ysgol

Y mae Bob ar hyn o bryd yn byw yn Seland Newydd ac wedi gyrru'r tâp gyda'i atgofion o ddyddiau ysgol ac hanesion eraill i'w gyfaill Mr Harri Roberts. Y mae Harri ac Alun yn dal i gadw cysylltiad â Bob.

Gwesteion y te oedd Mrs Laura Williams, Mrs Jane Jones a Mrs Mary Morris. Rhoddwyd y raffl gan Mrs Jane Jones a Mrs Mary Morris ac fe'i henillwyd gan Mrs Jennie Williams.

Dathlodd tair o'r aelodau eu penblwydd ym mis Awst, sef Mrs Laura Williams, Mrs Sally Lewis a Mrs Eirlys Ll. Jones.

Croesawyd Mrs Janet Bingham fel aelod newydd i'r Clwb.

Cafwyd cyfarfod arall o'r Clwb ar fedi 18 dan lywyddiaeth Mrs Megan P. Morris. Gwesteion y te oedd Mrs Ellen Williams, Mrs Katie Griffiths a Mrs Jane C. Hughes. Rhoddwyd y raffl gan Mrs Jane C. Hughes a'r enillydd oedd Mrs Jennie Williams. Croesawyd aelod newydd i'r Clwb sef Mrs Eve Braithwaite.

Cyfarfu'r Clwb ar Hydref 30 dan lywyddiaeth Mrs Eirlys Ll. Jones. Cafwyd sgwrs ddiddorol iawn gan Miss Ellen W. Jones, Dinorwig. Gwesteion y te oedd Mrs Grace Williams, Mrs Mary Hughes a Miss Jean Moeller. Rhoddwyd y raffl gan Mrs Grace Williams ac fe'u henillwyd gan Mrs Dolly Brown a Miss Eileen Williams.

Llongyfarchwyd Miss Jean Moeller ar ei phenblwydd ac hefyd am ennill dwy wobr yn Eisteddfod Gwaun Gynfi. Estynnwyd croeso hefyd i'w ffrind Margaret.

Rhoddodd Miss Wyn raffl arbennig i'r Clwb ac fe'i rhoddwyd i Miss Moeller ar achlysur ei phenblwydd. Diolchwyd i bawb gan Mrs Eirlys Ll. Jones.

Diolch unwaith eto i Mr Robert T. Jones am ei haelioni i ni fel Clwb.

Cafwyd cyfarfod arall ar Dachwedd 13 dan lywyddiaeth Mrs Eirlys Ll. Jones. Gwesteion y te y tro hwn oedd Mrs Betty W. Davies, Mrs Mair Lewis a Miss Lizzie Thomas. Rhoddwyd y raffl gan Mrs Betty W. Davies a'r enillydd oedd Mrs Pat Evans.

Anfonwyd ein cofion at Mrs Mary Morris ac hefyd Mrs Nell Griffiths sydd erbyn hyn yn y Cartref ym Mhenisarwaun.

Cydymdeimlwyd â Mrs Mary Thomas a Mrs Elsie Davies, hwythau bellach yn y Cartref ym Methel, a'r teulu oll ar golli eu chwaer.

DIOLCH: Dymuna Terry Evans, 32 Stryd Newydd, ddiolch i'w deulu a chymdogion am yr anrhegion a'r cardiau a dderbyniodd ar ei benblwydd yn 18 oed ar Fedi 2.

PENBLWYDD HAPUS i Dad — a Taid, sef William Orwig Williams (gohebydd Deiniolen) ar achlysur ei benblwydd yn 60 oed ar Dachwedd 25. Cofion gorau oddi wrth: Carys, Delyth, Angharad, Gwynfor a Nick.

SEINODRF: Dyma enillwyr y Raffl Fawr: £150: Brian Williams, Engineer, Ysbyty Gwynedd; £100: A. W. Thomas, Penrhyn Quarry; £75: Evans, Idan House Stores, Niwbwrch; £50: Siop Goed, Llanberis; £25: A. T. Jones, Barrow Hepburn.

CLWB 200: Enillwyr Tachwedd oedd: £20: Rosina Worth, Clwt-y-Bont; £15: Valmai Williams, Vaynol Terrace; £10: Betty Hughes, Cringau.



Dyma lun yr unig efeilliaid gwryw yn Neiniolen. Roeddynt yn dathlu eu penblwydd yn 60 oed yn ddiweddar. Tynnwyd y llun tua 30 mlynedd yn ôl.

CI ARBENNIG YN YR YSGOL

Ymwelodd 'ci bach' arbennig iawn ag Ysgol Gwaun Gynfi yn ystod yr Ŵyl Llyfrau Plant a drefnir gan Wasanaeth Llyfrgell y Sir ym mis Hydref. Bu Smot y ci bach yn yr ysgol i weld disgyblion yn yr adran babanod. Trefnwyd yr ymweliad gyda chefnogaeth Cymdeithas Gelfyddydau Gogledd Cymru.

EISTEDDFOD GADEIRIOL GWAUN GYNFI

(Deiniolen a'r Cylch)

Cynhaliwyd yr Eisteddfod ar Hydref 26 a 27. Y beirniaid oedd — Cerdd: Mr T. J. Williams, Llanrwst; Adrodd: Mrs Neli Williams, Efailnewydd; Llên: Mr Twm Prys Jones, Llandwrog.

Dyma'r canlyniadau:

Adrodd — Adran Feithrin a Dosbarth 1: 1, Donna; 2, Heledd Bryn Parri; 3, Laura a Ffion. **Dosbarthiadau 2 a 3:** 1, Lowri; 2, Rhian a Tristan; 3, Gethin. **Safon 1 a 2:** 1, Alaw Mari; 2, Jenni Lynne. **Safon 3 a 4:** 1, Siân. **Parti Cyd-adrodd dan 12:** 1, Parti Anr. (Deiniolen). **Adrodd dan 15:** 2, Lyndsey V. Parry. **Sgets Agored:** 1, Cymysgwch ar y Gwifrau (Dinorwig); 2, 'Marriage Guidance' (Dinorwig). **Unawd Offerynnol:** 1, Eilir Williams; 2, Martin Llewelyn; 3, Siôn Wyn.

Prif Adroddiad: 1, Meira Turner, Waunfawr. **Adrodd dan 15:** 2, Lyndsey V. Parry. **Unawd dan 15:** 1, Caryl Aubrey, Caernarfon; 2, Lyndsey V. Parry; 3, Nia Land. **Unawd Cerdd Dant:** 1, Caryl Aubery, Caernarfon; 2, Lyndsey V. Parry; 3, Nia Land. **Cân Werin:** 1, Lyndsey V. Parry; 2, Delyth (Pentir); 3, Caryl Aubery. **Deuawd dan 19:** 1, Delyth a Hefina. **Unawd dan 19:** 1, Delyth Ann Price; 2, Nia Land.

Canu — Adran Feithrin a Dosbarth 1: 1, Heledd Bryn Parri; 2, Kevyn; 3, Donna. **Dosbarthiadau 2 a 3:** 1, Urien Siôn; 2, Rhodri; 3, Lowri. **Safon 1 a 2:** 1, Siôn; 2, Elfed; 3, Jennie. **Safon 3 a 4:** 1, Mair Olwen; 2, Jennifer; 3, Siân. **Unawd Cerdd dant dan 12:** 1, Lyndsey; 2, Jenny Lynne; 3, Siôn. **Cân Werin dan 12:** 1, Lyndsey V. Parry; 2, Siôn; 3, Rhian. **Unawd Piano dan 12:** 1, Lyndsey V. Parry; 2, Alaw Mari. **Parti Canu dan 12:** 1, Parti Elfed (Deiniolen). **Unawd Offerynnol dan 12:** 1, Bethan; 2, Jenny; 3, Richard.

Deuawd dros 19: Alun Mabon ac Wmffra (Waunfawr); 2, Olwen a Betty. **Canu Emyn dros 50:** 3, Wmffra (Betws Garmon). **Ubnawd Offerynnol Agored:** 1, Iwan Williams; 2, Martin; 3, Dylan Williams a Dylan Cole. **Her Unawd:** 3 (cyd), Alun ac Wmffra. **Grŵp Offerynnol:** 1, Parti Siôn (Deiniolen). **Sgets Agored:** 1 a 2, Dinorwig. **Unawd Piano dan 19:** 3, Martin.

ADRAN LENYDDOL

Meithrin a Dosbarth 1: 1, Lea; 2, Philip; 3, David. **Dosbarth 2 a 3:** 1, Rhian, Rhian Meleri a Stephen. **Safon 1 a 2:** 1, Alaw Mari; 2, Peter Davies; 3, Harri, Christie, Zoe. **Safon 3 a 4:** 1, Siân; 2, Michael Thomas; 3, Siôn Thomas. **Barddoniaeth dan 12:** 1, Lyndsey V. Parry. **Rhyddiaith dan 12:** 1, Dyfan Siôn; 2, Hayley Williams.

Medal Lenyddol dan 21: Huw Goronwy Owen, Traeth Coch, Ynys Môn. **Telegram:** 1, Mary Wyn Jones, Deiniolen. **Stori Fer:** 1, Dewi Thomas, Rhostryfan. **Englyn Digri:** 1, John Williams, Llanerchymedd. **Englyn:** 1, Robert Henry Parry, Caernarfon. **Emyn:** William H. Jones, Llandudno. **Telyneg:** 1, John Williams, Llanerchymedd. **Cwpan yr Adran Lenyddol dan 12 oed:** Lyndsey V. Parry. **Traethawd:** 1, Alwyn Jones, Deiniolen; 2, Sara Wood; 3, Margaret. **Limrig:** 1, John Jones, Deiniolen. **Llinell Goll (32 ymgeisydd):** 1, Hefin Williams, Rhiwlas. **Baled:** 1, Miss Ellen Wyn Jones. **Creu Brawddeg:** 1, Mary Wyn Jones. **Y Gadair:** 1, Dewi Thomas, Rhostryfan, athro yn Ysgol Gynradd Penygroes.

CELF A CHREFFT

Ysgol Feithrin: 1, Donna Lewis; 2, Ffion; 3, Kevyn. **Dosbarth Meithrin ac 1:** 1, Mathew; 2, Leah; 3, Jason. **Dosbarth 2 a 3:** 1, Mathew Phillips; 2, Lowri Morris; 3, Mitchel. **Safonau 1 a 2:** 1, Christy Boothroyd; 2, Zoe Anderson; 3, Thomas Owen. **Safonau 3 a 4:** 1, Charlotte Whewell; 2, Joseph Anderson; 3, Sam Lea. **Bl. 1 a 2 Ysgol Uwchradd:** 1, Tanya Marie Thomas. **Bl. 3 a 4:** 1, Euros Wyn Williams. **Dros 19:** 1, Ray Wilcox; 2, Hughie Jones; 3, Dafydd W. Jones.

Gwaith Llaw — Dosb. 2 a 3: 1, Rhian Jones; 2, Trystan Ellis Morris; 3, Urien Siôn Huws. **Safon 1 a 2:** 1, Shaun Jones; 2, Gethin Williams; 3, Alaw Mari Huws.

Gwau — dan 15: 1, Siân Ellen Thomas; 3, Lyndsey V. Parry. **Dros 15 oed:** 1, Ellen W. Williams; 2, Elan Williams a Menna W. Jones.

Gwnio — Disgyblion Ysgol Gwaun Gynfi: 1, Bethan Williams; 2, Lynne Roberts; 3, Sian Wyn Evans. **Dan 15 oed:** 1, Lyndsey V. Parry. **Dros 15 oed:** 1, Ellen Williams; 2, Nicola Parry. **Brodwaith:** 1, Mrs Nancy Marian Williams; 2, Miss Moeller. **Crosio:** 1, Mrs Nan Owen; 2, Mrs Myfi Jones.

Coginio — Dosbarth 1, 2 a 3: 1, Trystan Ellis Morris; 2, Rhodri Glyn; 3, Rhian Jones. **Safon 1,2,3 a 4:** 1, Jenny Lynne Morris; 2, Alaw Mari; 3, Debbie Richer. **Dan 15 oed:** 1, Lyndsey V. Parry; 2, Eleri W. Evans. **Dros 19 — Taffi Triog:** 1, Violet Richer; 2, Ifor Glyn 3, Valmai P. Williams. **Teisen Madeira:** 1, Valmai P. Williams; 2, Mrs Nancy M. Williams. **Salad:** 1, Sarah Jones; 2, Alwyn Jones; 3, Nicola Parry. **Dynion yn unig:** 1, Alwyn Jones; 2, Hefin G. Jones; 3, Ifor Glyn Efans.

Ffotograffiaeth — dan 12: 1, Urien Sion Huws; 2, Gethin Williams; 3, Alaw Mari. **Dan 19:** 1, Sian Ellen Thomas; 2, Euros W. Williams; 3, Dylan W. Williams. **Dros 19:** 1, Dafydd W. Williams; 2, Valmai P. Williams; 3, Eifion W. Huws.

Trefniant Blodau — dan 12: 1, Debbie Richer; 2, Alaw Mari Hughes; 3, Sian Wyn Evans. **Agored:** 1, Nia Morris; 2, Miss Moeller; 3, Mrs Eirian Jones.

GWOBR LLYFRGELL

Llongyfarchiadau i Paul Crane, 6 oed, mab Mr a Mrs T. Crane, 8 Pentre Helen, Deiniolen, a ddaeth yn ail yng nghystadleuaeth cynllunio poster a drefnwyd gan Wasanaeth Llyfrgell Sir Gwynedd.

Derbyniodd Paul wobr o docyn llyfr yn Swyddfa'r Sir yng Nghaernarfon dydd Llun, Tachwedd 12. Bydd poster Paul ynghyd â'r enillwyr eraill o Wynedd yn cael eu harddangos ym mhrif lyfrgelloedd y Sir. Mae Paul yn ddisgybl yn Ysgol Gwaun Gynfi, Deiniolen.



WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon, Waunfawr

CLWB 300 CANOLFAN WAUNFAWR: Dyma restr o enillwyr y Clwb 300 am fis Hydref: 1 (£40): Mr John Patchett, Anwylfa; 2 (£25): Alan Addison, Ystorfa Tŷ Newydd; 3 (£10): Mrs Rosina Owen, 4 Dol Erddi.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL: Cafwyd cychwyn da i dymor arall o'r Gymdeithas nos Lun, Hydref 29 pan y daeth y naturiaethwr Ted Breeze Jones atom i roi sgwrs, ynghyd â sleidiau tra chanmoladwy, o dan y teitl 'Tro ym Myd Natur'. Roedd bron i hanner cant wedi mwynhau ei sylwadau yn fawr, a thalwyd y diolchiadau gan Mr Iolo Huws Roberts.

Oherwydd dyletswyddau ei waith, methodd Mr Eifion Glyn a bod yn bresennol ac yn ei absenoldeb llywyddwyd gan Mr Rol Williams.

Disgwylir Mrs Mary Vaughan Jones i roi sgwrs yng nghyfarfod mis Tachwedd, ar ei hymweliad â gwlad Lesotho gyda Mrs Ellen Jones yn llywydd.

Yng nghyfarfod mis Rhagfyr bydd Mr Dafydd Norman Jones, gohebydd yr Herald a Mr Meirion Hughes, Swyddog Iechyd yr Amgylchedd, Cyngor Arfon, yn rhoi sgwrs fer ar eu dyletswyddau ac yna bydd cyfle i'r gynulleidfa ofyn ambell gwestiwn iddynt.

Y llywydd fydd Mr Gwilym O. Williams. Os oes unrhyw un yn dymuno ymaelodi â'r Gymdeithas rhaid gwneud hynny cyn diwedd y flwyddyn hon.

LLONGYFARCHIADAU i Corrine Ackers, Mon Abri, ar ei phriodas â Nigel o Fanceinion. Maent wedi ymgartrefu yn Llannerch, Teras Cefn Du.

Hefyd i Mr a Mrs Gwynn Davies, Bryn Eithin, ar ddathlu eu priodas Rhuddem yn ddiweddar; ac i Mr a Mrs J. G. Jones, Hafod y Rhug, hwythau hefyd wedi dathlu eu priodas Ruddem.

DIOLCH: Dymuna John ac Elena, Hafod y Rhug, ddiolch i'r plant am drefnu swper ym Mhlas y Coed i ddathlu eu priodas Ruddem, yng nghwmni eu teulu a'u ffrindiau. Diolch i Claire am y deisen flasus, i Delyth, Ceirion, Llion, Gerallt, Edryd a Sioned am y fasged flodau, ac am y llu cardiau a'r anrhegion a dderbyniwyd.

DIOLCH: Dymuna Pearl a Victor ddiolch i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniwyd ar achlysur dathlu eu penblwydd yn 50 oed ar Dachwedd 1. Diolch hefyd i bawb am ddod i'r parti y noson honno ac am ei gwneud yn noswon fythgofiadwy.

DIOLCH: Dymuna John a Sioned Glyn, Garmon, ddiolch i'w teulu a'u ffrindiau am y cardiau a'r rhoddion a dderbyniasant ar achlysur geni eu mab bach, Elidyr.

DIOLCH: Dymuna Dafydd (Treforfan gynt) a Wendy, ddiolch yn fawr iawn am yr anrhegion a'r cardiau a dderbyniwyd ar achlysur eu priodas yn ddiweddar.

LLONGYFARCHIADAU i Mrs J. Price, 3 Dôl Erddi, ar ddathlu ei phenblwydd yn 80 oed, ac i Mr George Taylor, Baladeulyn, ar ddathlu ei benblwydd yn 92 mlwydd oed.

ADREF O'R YSBYTY: Croeso adref o'r ysbyty i Mrs Hughes, Bryn Meredydd; Mr J. Jones, Cae Adda; Mr Rhodri Prys Jones, Pen-y-Graig a Gerallt Jones, Cyrnant Lodge.

Anfonwn ein cofion at Mrs Katie Wyn Jones, Bron Eifion sydd yn yr ysbyty dros dro, ac at Miss Jennie Jones, Bryn Tirion, sydd wedi mynd i aros i 'Dwynfa', Bontnewydd am gyfnod dros y gaeaf yma.

Anfonwn ein cofion at drigolion y pentref sydd yn cwyno. Cymerwch ofal yn ystod y tywydd oer yma a swatiwch wrth y tân.

AR Y TELEDU: Yn ystod yr wythnosau diweddar yma mae llawer wyneb adnabyddus i'r Waun wedi ymddangos ar y teledu.

Llongyfarchiadau mawr i'r rhai fu'n llwyddiannus yn yr Ŵyl Gerdd Dant ym Mangor, ac i'r rhai fu'n dal pysgod ar Afon Menai!

YR URDD: Cafwyd ychydig o hwyl a naws Calan Gaeaf nos Fercher, Tachwedd 31, pan fu plant yr Urdd yn ymweld â Mali Meipen a Ceridwen y wrach yng Nglynllifon. Diolch i'r rhieni sydd bob amser yn barod i roi cludiant i'r plant ac i Anti Joy am drefnu fod cludiant ar gyfer pob un ohonynt.

Nos Lun, Tachwedd 5ed, daeth pawb ynghyd i fwynhau noson Tân Gwyllt yn y Ganolfan. Ar ôl mwynhau y wledd liwgar allan ar y cae, cafwyd gwledd o gŵn poeth, cawl ac ati yn y neuadd. Aelodau'r pwyllgor fu'n gyfrifol am eu paratoi — diolch iddynt.

Roedd yn Sul yr Urdd ar Dachwedd 18fed, ac roedd adran bentref Waunfawr yn cymryd rhan yn y gwasanaeth. Diolch iddynt am eu gwaith graenus, ac i Mrs Eryl Thomas, prif athrawes yr ysgol, am hyfforddi'r plant. Diolch i'r rhieni hynny fu'n cludo'r plant ac i bawb a gefnogodd y gwasanaeth.

Bu rhai o'r aelodau yn cystadlu yng nghystadleuaeth nofio yr Urdd ym Mangor, ond heb lwyddo yn ddigon da i fynd i'r Gystadleuaeth Genedlaethol, ond hidiwch befo, llongyfarchiadau mawr ichi, a diolch i'r rhieni fu'n eich cefnogi.

Llongyfarchiadau i'r tîm peldroed dan 13 oed am ddod yn gyntaf yn eu cystadleuaeth ac i'r tîm rownderi hwythau hefyd wedi llwyddo. Da iawn chi.

MERCHED Y WAWR: Y siaradwraig yn y cyfarfod Hydref 25 oedd Mrs Siân Griffiths, Waunfawr. Trwy gyfrwng sleidiau a sgwrs rhoddwyd darlun gyflawn o ddyletswyddau amrywiol y therapydd galwedigaethol.

Roedd yn ddiddorol iawn hefyd gweld detholiad o'r offer soffistigedig sydd ar gael i gynorthwyo pobl anabl.

Cafodd Mrs Griffiths ei llongyfarch am ail-gydio yn ei Chymraeg ar ôl byw yn Lloegr ers yn hogan fach. Diolchwyd iddi gan Mrs Glenys Williams. Mrs Margaret Owen oedd yn gyfrifol am y te ac enillwyd y raffl gan Mrs Heulwen Huws.

Ymwelwyd â Thy'n Llan, Llandwrog ar gyfer ein Cinio Nadolig eleni, ar nos lau, Tachwedd 22.

Cynhelir cyfarfod cyntaf y flwyddyn newydd ar Ionawr 24, 1991 pan fydd panel yn datgelu 'Mae Gen i Drysor'.

PLAID CYMRU: Cynhelir Ffair Nadolig yn y Ganolfan, Waunfawr, nos Wener, Rhagfyr 14 am 6.30 yr hwyr. Stondinau amrywiol, a Siôn Corn. DEWCH YN LLU!

Aelodau'r Urdd yn cynnal
NOSON O GAROLAU
dan arweinyddiaeth
Mrs Eryl Thomas
yn y Ganolfan am 6 o'r gloch
Nos Fercher, Rhagfyr 5
Estynnir gwahoddiad cynnes i bawb i ymuno gyda hwy ac i gael paned a mins pei.
Gwneir casgliad at achos da

YSGOL WAUNFAWR: Yr adeg yma o'r flwyddyn rydan ni i gyd yn cwyno fod y dydd yn fyr. Choelia i byth nad yw diwrnod ysgol yn mynd yn fyrrach fyth!

Yn ystod y mis diwethaf bu rhai o'r plant yn cymryd rhan yn y Rhaglen 'Cyfle Byw'. Gobeithio yn wir y gwnaiff Dafydd Wigley faddau i blant Ysgol Waunfawr am ei alw yn 'Posh'.

Bu'r plant i lawr at gofeb y pentre i gofio'r milwyr a gollwyd yn y Rhyfel Mawr. Ar ôl cynnal gwasanaeth byr, darllenwyd enwau'r hogiau ar y gofadail.

Roedd enwau'r tai, y tyddynod a'r stryd yn gyfarwydd iawn i ni, ond to newydd o blant sy'n cofio bob blwyddyn, a diolchwn fod profiadau rhyfel tu hwnt i amgyffred plant Waun heddiw.

Mae bwrlwm gwaith Eisteddfod y Pentre yn gorlifo i weithgareddau'r ysgol yr adeg yma o'r flwyddyn. Cafodd y plant gryn bleser yn cynllunio'r posteri i 'Achub Coedwigoedd Glaw y Byd' a gwneud doliau peg a llu o weithgareddau eraill.

Roedd dydd Gwener Tachwedd 23 yn ddiwrnod 'Plant Mewn Angen'. Penderfynodd y plant hynaf lanhau ceir yr athrawon! Roedd ambell un ohonom ni yn reit falch o'r cynnig, ac ar ôl gweld gwaith mor dda wnaeth y plant ar y ceir, yn gresynnu na fyddai'n ddiwrnod 'Plant Mewn Angen' yn amlach!

Roedd ambell un wedi coginio cacennau a'u gwerthu i'r athrawon — maen nhw'n credu ein bod ni'n graig o arian rwy'n siŵr.

Rhwng y casgliad ceiniog misol a'r gweithgareddau eraill, roeddem yn falch o gyflwyno siec am £50 i gronfa 'Plant Mewn Angen' ar ran Ysgol Waunfawr.

FFAIR NADOLIG
Plaid Cymru
Yn y Ganolfan
Nos Wener, Rhagfyr
14eg am 6.30
Stondinau Amrywiol
Siôn Corn
DEWCH YN LLU

Aled Jones
Peiriannydd
Gwres Canolog
a Plymio
4 Bryn Eglwys
PENISARWAUN
Ffôn Llanberis
871047

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD
CANOLFAN CARPEDI
WAUNFAWR
AR AGOR
9-7pm
9-5pm Sadwrn
AR GAU
SUL,
MERCHER.

DEWIS EANG O
WELYAU SENGL A DWBL
DEWIS EANG O '3 PEICE SUITES'
LLENNI 'VENETIAN' A LLENNI 'ROLER'
GWAITH CONTRACT
5000 LLATHEN SGWÂR O GARPEDI MEWN STOC – ALLWCH CHI FFORDDIO PRYNU O BATRYMAU?
Rhif Ffôn y Siop yn ystod oriau agor:
WAUNFAWR 291

CRIB COCH
Y Sgwâr, Llanrug
Ffôn: Caernarfon 76772
TRIN GWALLT I BAWB O'R TEULU GAN JEN
Ffoniwch neu galwch i drefnu amser

EISTEDDFOD WAUNFAWR

Cynhaliwyd Eisteddfod Ardal Waunfawr dydd Sadwrn, Tachwedd 17. Y beirniad cerdd oedd Mr Maldwyn Parry a'r beirniad adrodd oedd Mr Iolo Huws Roberts, a beriniadwyd yr arlunio a'r gwaith llaw gan Mr Islwyn Jones. Beirniad y gwaith coed oedd Mr T. A. Thomas a beirniadwyd y coginio a'r gwau gan Mrs R. A. Hughes. Cyfeilydd y dydd oedd Mr Brian Williams, Pontllyfni.

Dyma'r canlyniadau:

CYFARFOD Y PRYNHAWN

Cerdd dan 4 oed: 1, Bethan; 2, Elin a Guto. **Cerdd 4-6 oed:** 1, Catherine; 2, Ieuan; 3, Anna; 4, Rhion, Elgan a Ioan. **6-8 oed:** 1, Sioned; 2, Ifan; 3, Sion; 4, Dewi. **8-10 oed:** 1, Lowri Glyn; 2, Iolo; 3, Steffan. **Unawd Recordydd dan 10:** 1, Elin; 2, Lowri Glyn; 3, Steffan. **Unawd Recordydd 10-12:** 1, Valerie. **Unawd Piano dan 10:** 1, Gareth; 2, Lowri Edwards; 3, Aled a Lowri Glyn. **Unawd Piano 10-12:** 1, Llio; 2, Bethan; 3, Manon; 4, Derfel; 5, Kirsty. **Unawd Offeryn Chwyth dan 12:** 1, Kirsty; 2, Bethan; 3, Manon. **Cân Actol dan 8:** 1 (cyd), Parti'r Nadolig a'r Ysgol Feithrin.

Adrodd — dan 4: 1, Elin; 2, Bethan. **4-6 oed:** 1, Rhion; 2, Cathryn a Elgan; 3, Anna. **6-8 oed:** 1, Sioned; 2, Ifan. **8-10 oed:** 1, Lowri Glyn; 2, Steffan. **10-12 oed:** 1, Llio; 2, Kirsty; 3, Bethan.

Arlunio — Meithrin: 1, Rhion a Lowri; 2, Elgan a Cathryn; 3, Liam. **Yr Hafod:** 1, Gareth Patchett ac Erica Jones; 2, Thomas Hughes a Fiona Sanderson; 3, Gavin Stringer. **Dosb. Mrs Ellis:** 1, Ifan Glyn; 2, Daniel Griffiths a Aimee Addison; 3, Samantha Weir a Amy Candlish. **Safon 1:** 1, Sioned Jones; 2, Hywel Jones a Carol Ann O'Reilly; 3, Lisa Pitman a Llion Dafydd. **Safon 2:** 1, Arron Waugh; 2, David Murray; 3, Helen Williams a Elin Evans. **Safon 3:** 1, Gareth Cadwaladr; 2, Rhian Griffith a Sioned Jones; 3, Hazel Griffiths a Richard Sanderson. **Safon 4:** 1, Mathew Gossett; 2, Branwen Owen; 3, Lowri Huws a Amber Waugh.

Gwaith Llaw — Yr Hafod: 1, Thomas Hughes; 2, Gareth Patchett; 3, Fiona Sanderson a Sarah Weir. **Dosb. Mrs Ellis:** 1, Sioned Williams a Emma Davies; 2, Kim Taylor a David Griffith; 3, Ceri Rowlands a Samantha Weir. **Safon 1:** 1, Hywel Jones; 2, Ffion Williams a Fiona Davies; 3, Carol Ann O'Reilly a Steffan Elidir. **Safon 2:** 1, Eleri Williams; 2, Lowri Glyn; 3, Karen Parry; 4, Marek Taczyski a Helen Williams. **Safon 3:** 1, Christina Williams a Gwenllian Dafydd; 2, Lowri Edwards a Carl O'Reilly; 3, Gareth Cadwaladr a Hazel Griffiths. **Safon 4:** 1, Amber Waugh; 2, Kevin Davies a Gareth O'Reilly; 3, Iwan Wyn Jones.

Llên — Safon 1: 1, Steffan Elidir; 2, Emma Owen; 3, James Paul a Tony Buston. **Safon 2:** 1, Aled Rhys; 2, Lowri Glyn; 3, Iolo Rhisiart. **Safon 3:** 1, Gwenllian Dafydd; 2, Sioned Jones a Heledd Elfryn; 3, Gareth Cadwaladr. **Safon 4:** 1, Lowri Huws; 2, Iwan Jones; 3, Kevin Davies.

CYFARFOD YR HWYR

Cerdd — Grŵp Pop dan 18 oed: 1, Sothach; 2, Munud Olaf. **Canu 12-15:** 1, Hefina; 2, Catrin. **Cân Werin 12-18 oed:** 1, Hefina. **Cerdd dant dan 18:** 1, Catrin; 2, Hefina; 3, Eleri. **Deuawd 12-18:** 1, Nerys a Sioned; 2 (cyd), Heddus a Ceryl; Anwen a Bethan. **Parti Canu dan 18:** 1, Parti Anti Rhian. **Sgets dan 18 oed:** 1, Yr Ysgol. **Cân Actol dros 18 oed:** 1, Tîm o Walis.

Emyn dros 40 oed: 1, Alun; 2, Wmffra; 3, Eurig. **Cân Werin dros 18 oed:** 1, Wmffra; 2, Alun. **Unawd Gymraeg dros 18 oed:** 1, Alun; 2, Wmffra. **Deuawd dros 18 oed:** 1, Alun a Wmffra. **Parti Cân Bop dros 18 oed:** 1, Wedi Methu. **Unawd Offeryn Chwyth 12-15 oed:** 1, Kailey; 2, Heddus a Delyth; 3, Ffion; 4, Anwen a Elain. **Unawd Llinynnol 12-15 oed:** 1, Catrin. **Unawd Piano 12-15 oed:** 1, Catrin; 2, Delyth; 3, Heddus; 4, Ceirion, Ffion a Gavin. **Unawd Piano 15-18 oed:** 1, Dylan.

Adrodd — 12-15 oed: 1, Elin. **darllen darn ar y pryd 12-15 oed:** 1, Elin a Delyth; 2, Hefina; 3, Anwen, Elain, Kailey a Catrin. **Darn heb ei atalnodi dros 18 oed:** 1, Irene; 2, Bethan; 3, Carys Owen.

Llên — 11-15 oed: 1, Anwen. **Llinell Goll:** 1, Dewi.

Coginio — 12-15 oed: 1, Anwen a Deian; 2, Bethan. **Bara Brith:** 1, Glenys Williams; 2, Glenys Williams a Llinos Cadwaladr; 3, Heulwen Huws. **Swiss Roll:** 1, Beryl Jones; 2, Sheila Roberts; 3, Llinos Cadwaladr. **Chutney:** 1, Ann Elfryn; 2, Glenys Williams; 3, Llinos a Glenys Williams. **Jam:** 1, Bethan Williams; 2, Glenys Williams.

Gwaith Coed — 11-15 oed: 1 (cyd), Anwen a Delyth.

Gwaith Llaw — Gwau: 1, Llinos Cadwaladr; 2, Bethan Williams. **Brodio Lliain Hambwrdd:** 1, 2 a 3, Mrs Sheila Roberts. **Ffotograffiaeth:** 1 a 2, Delyth Jones.

Dymuna'r Pwyllgor ddiolch i bawb am bob cymorth a gafwyd yn ystod yr Eisteddfod. Taer erfynnir ar i unrhyw berson sydd â diddordeb yn yr Eisteddfod i ddod ar y Pwyllgor.

YSGOL SALEM, NANT-Y-BETWS

Rhai o blant Ysgol y Cyngor, Salem, Nant-y-Betws oddeutu 1919-20? Rhes gyntaf: Y Prifathro, D. R. Davies Roberts, Bryn Rhyd; Maggie Lewis, Clogwyn Cellog; Mary Pritchard, Plas Isaf; Lizzie Owen, Cae Ysgubor; Laura Jones, Tyddyn Bach; Blodwen Jones, Cidwm View; Llewelyn Jones, Cerrig yr Rhyd; Humphrey Owen, Cae Ysgubor.

Ail Res: Owen P. Pritchard, Plas Isaf; Arthur H. Jones, Cerrig yr Rhyd; Richard J. Williams, Pentra Bach; Thomas Jones, Pen-y-Gaer.

Rhes Isaf: Gwyn Jones, Tyddyn Bach; Joseph Jones, Tŷ Coch; Ivor W. Jones, Bryn Ifor; Megan Owen, Cae Ysgubor; Morris Jones, Tŷ Coch; John E. Williams, Gwyrfai Terrace; Jennie Jones, Cerrig yr Rhyd; May Jones, Bryn Afon.

(Llun o eiddo Mrs Gwen Jones, Bod Arthur, Waunfawr).

RHAGFYR

Rhagfyr a'i batrwm o farrug ar yr ynn,
Pibonwy dan y bargod, a'r moelydd yn wyn;
Eira ar Eryri, a'r Wyddfa'n gwisgo'i chap,
A chyflaith fy chwaer, wedi fferru yn glap!!

Cenllysg a chesair yn cernodio y fro,
A'r adar ar gardod, ar fondo y to,
Mae'n nosi ar drawiad, a'r diwrnod mor fyr
A'r buchod wrth y beudy, wedi heidio mewn gyr.

Mae'r meysydd yn weigion, 'rôl llafurio y tir,
A'r Gwanwyn mor bell, a'r gaeaf yn hir;
Sŵn adlais y plant yn sglefrio o bell,
A'r draenog yn cysgu mor glyd yn ei gell!!

Diwedd y flwyddyn — hen atgofion sy'n drist,
Ond dathlwn yn llawen — penblwydd Iesu Grist!!
Rhannu cyfarchion i elyn a ffrind!
Croesawu'r Un Newydd, mae'r hen un 'di mynd!!

John V. Morris, Rhianfa,
Clwt-y-Bont

RHODDION

£25: Teulu Rudkin, Llanberis.

£5: Mrs C. Owen, Darenth, Kent; Mrs Katie Lloyd Hughes, 2 Maes Eilian, Dinorwig; Di-enw, Bryn-refail; Gwyndaf a Kevin Jones, Maes y Bryn, Pontrug; John a Elena Jones, Hafod y Rhug, Waunfawr; Mrs Arfonia Evans, Derlwyn, Llanberis; 1, Rallt Goch, Ceunant, Llanberis.

£3: Elwyn a Sandra Davies, Bryn Tirion, Llanberis.

£2: Mr a Mrs E. Morris, 2 Rallt Goch, Ceunant, Llanberis; Mrs K. Williams, 6 Glanrafon, Llanberis; Terry Evans, 32 Stryd Newydd, Deiniolen.

PLAID CYMRU
Cynhelir **Ffair Nadolig**
yn Neuadd Ysgol Gwaun Gynfi, Deiniolen
Nos Wener, Tachwedd 30
am 7 o'r gloch
Bydd Siôn Corn yno

J.M. JONES
A'I FEIBION
GWAITH CERRIG BEDDAU

Y SGWÂR, LLANRUG
Crefftwyr gwaith llaw traddodiadol, Cerrig o bob math ar gael.
Ffôn:
Caernarfon 2898 (dydd)
Caernarfon 76285 (nos)

TACSIS BETHEL
UNRHYW AMSER • UNRHYW BELLTER
Ffôn: (93) 670555

YSGOL BRYNREFAIL

Ar ddechrau Tachwedd ymunodd dau fyfyriwr â'r ysgol am gyfnod eu hymarfer dysgu. Estynnir croeso cynnes i Llinos Wyn Gruffydd i'r adran Gymraeg ac i Bernard Santin i'r adran Ffrangeg.

Ymwelodd 94 o ddisgyblion o flynyddoedd 4, 5 a 6 â Theatr Gwynedd i wylio drama 'Leni' gan Dewi Wyn Williams. Chwaraewyd y prif gymeriad gan John Ogwen a tystia'r rhai fu yn gweld y ddrama iddo bortreadu'r prif gymeriad yn realistig iawn a bydd y ddrama yn fyw yng nghof y disgyblion am gyfnod maith.

Ail-gychwynnodd cyfarfodydd yr Urdd ar ôl blwyddyn o seibiant. Y mae 80 o aelodau wedi ymuno hyd yn hyn. Helfa Drysor oedd ar y noson agoriadol, yna cafwyd noson yng nghwmni Mrs Mary Vaughan Jones yn dangos sleidiau ar Batagonia, ac yna ddiwedd y mis, cwis ar ffurf 'Blockbusters' gyda Mr William Lloyd Davies.

Dechrau Rhagfyr bydd yr aelodau yn mynd i Theatr Gwynedd i weld y pantomeim 'Twm Siôn Cati'. Y mae 16 o'r aelodau yn mynd am gyfweliadau ar gyfer 'Godspell', cynhyrchiad cerddorol Cwmni Theatr Cenedlaethol yr Urdd.

Bu nifer o'r aelodau iau (Lois Dafydd, Llŷr Siôn, Sioned Jones, Lyndsey V. Parry) yn cymryd rhan yng Ngwasanaeth Sul yr Urdd yn y Capel Mawr ar brynhawn Sul, Tachwedd 18. Yna yn yr hwyr, bu'r aelodau hŷn, Trystan Thomas, Eilir Williams, Dylan Williams, Siôn Wyn Hughes, Siôn Griffith, Euros Williams, Martin Williams ac Aled Griffith yn darllen a chwarae cerddoriaeth yng ngwasanaeth yr Aelwydydd yng Nghapel Glan Rhyd, Llanwnda.

Ar wahan i holl weithgarwch eisteddfodol fu yn yr ysgol yn ddiweddar bu nifer o ddisgyblion yn brysur iawn ym myd cerdd. Ar ddechrau Hydref ymwelodd nifer o'n disgyblion â'r Almaen gyda Band Pres Gwynedd a chael croeso cynnes ac amser ardderchog. Bu Ffion Fôn Williams yn canu mewn cyngerdd yn y Brifysgol ym Mangor dan nawdd Bwrdd Arholi Llundain, i'r disgyblion hynny a berfformiodd orau yn yr arholiadau cerdd.

Yn yr Ŵyl Gerdd Dant ym Mangor, bu'r disgyblion canlynol yn llwyddiannus. Daeth Lyndsey Vaughan Parry yn gyntaf ar yr unawd cerdd dant dan 12 oed a'r unawd cân werin dan 12 oed. Llŷr Siôn Roberts ddaeth yn ail yn yr unawd Cân Werin dan 19 oed. Sioned Lewis fu'n fuddugol ar y ddawns unigol agored gyda Delyth Griffith, Hefina Jones ac Eleri Jones ddaeth yn ail yn y gystadleuaeth i Grŵp Stepio.

Llongyfarchiadau i bawb fu'n cystadlu.

Ar ddiwedd mis Hydref ymwelodd myfyrwyr Addysg Grefyddol dosbarth 6 â'r Adran Addysg Grefyddol yn y Brifysgol ym Mangor. Cawsant gyfle i wrando ar ddarlithoedd, gwylio sleidiau a chael taith o gwmpas y llyfrgelloedd.

Ar y pymthegfed o Dachwedd ymunodd grŵp Cerddoriaeth y Chweched Dosbarth â holl ddisgyblion cerdd y Sir i wrando ar ddarlithoedd yn yr adran Gerdd yn y Brifysgol ym Mangor.

Treuliodd dwsin o ddisgyblion o'r 5 a'r 6 flwyddyn ddiwrnod yng Nghanolfan Awyr Agored Rhyd Ddu. Cawsant brofiad helaeth o gyfeiriannu yng nghoedwig Beddgelert — yng nghanol y glaw, yna drannoeth cerdded dros Yr Wyddfa yn ôl i Lanberis. Gwir dweud bod y mwyafrif yn falch o gyrraedd eu gwlâu nos Wener.

Bu disgyblion o Ffrainc ar ymweliad undydd â'r ysgol yn ystod mis Hydref. Roeddynt yn aros gyda rhai o'n disgyblion fel rhan o weithgarwch cyfnewid gyda Chlwb Nofio Bangor.

Cyn bo hir bydd disgybl arall o'r ysgol yn ymddangos ar y teledu. Dewiswyd Ambrose Choy o Lanberis i ymddangos mewn ffilm sy'n dilyn llwyddiannau ieithyddol disgyblion sy'n dod yn wreiddiol o wledydd tramor. Mae Ambrose wedi dysgu Cymraeg yn hynod o effeithiol. Edrychwn ymlaen i weld ei gyfraniad.

Hoffwn ddiolch i drigolion y fro am y gefnogaeth arbennig i weithgareddau yr ysgol. Braf yw gweld Neuadd yr Ysgol yn llawn ar gyfer digwyddiadau fel y Sioe Ffasiynnau hynod lwyddiannus neu'r brwdfrydedd wrth gefnogi'r Eisteddfod Ysgol. Pleser o'r mwyaf yw gweld cynulleidfa helaeth yma.

Derbyniasom gefnogaeth hael i'r cais am arian i chwyddo Cronfa'r Ysgol ert mwyn gallu ychwanegu at weithgareddau ac offer angenrheidiol. Mae'n dyled yn fawr i rieni a chyfeillion yr ysgol.

Diolch i ymdrechion y daith gerdded noddedig, llwyddwyd i godi dros £2,000. Gwelir y math o offer y mae'n bosibl ei brynu gydag arian ychwanegol.

Ar ddydd Mercher, Tachwedd 14, aeth grŵp Lefel 'A' Tecstiliau yr ysgol, gyda Mrs Mair Griffiths i Lundain i weld arddangosfa ar frtodwaith modern yn y Commonwealth Institute, a hefyd i weld casgliad o wisgoedd priodasol rhai aelodau o'r teulu brenhinol ym Mhalas Kensington.

Mwynhawyd y diwrnod yn fawr iawn gan y criw, ac fe fydd y syniadau a gafwyd o'r arddangosfeydd o help mawr at astudio'r cwrs Lefel A.

EISTEDDFOD YR YSGOL

Rhai o enillwyr unigol yr eisteddfod.

Cynhaliwyd Eisteddfod Ysgol Brynrefail ar Dachwedd 8.

Y beirniaid oedd — Adrodd: Mrs Madge Hughes; Llên: Mr Hugh John Hughes; Cerdd: Mrs Olwen Jones. Dyma'r canlyniadau:

(G = Gwyrfai; E = Eilian; El = Elidir); Er = Eryri:

CYFARFOD Y PRYNHAWN

Unawd Genethod dosbarth 1: 1, Lyndsey Parry (G); 2, Rhian Green (El) a Eleanor Gray-Williams (E). **Adrodd Cymraeg dosbarth 1 a 2:** 1, Lyndsey Parry (G). **Unawd Piano dosbarth 2 a 3:** 1, Nicola Gibbins (E); 2, Llŷr Siôn (G); 3, Martin Williams (El). **Deuawd Ysgafn:** 1, Sharon a Katy (El a E); 2, Tammi a Lowri (Er a G); 3 (cyd): Nia a Catrin (G ac E); Bryn a Bryn (Er ac E).

Unawd Llinynol a Chwythbrennau dosb. 1, 2 a 3: 1, Llŷr Siôn (G); 2, Rhian Green (El); 3, Rhys Owain (El) a Lois Dafydd (Er). **Adrodd Saesneg, dosb. 5 a 6:** 1, Tammi Jones (Er); 2, Sharon Williams (El). **Unawd Alaw Werin:** 1, Lyndsey Parry (G); 2, Llŷr Siôn (G); 3, Hefina Jones (Er). **Unawd Piano dosb. 1:** 1, Beverley Roberts (E); 2, Rhian Green (El); 3, Lois Dafydd (Er). **Unawd Genethod dosb. 2 a 3:** 1, Nia Land (G); 2, Sara Tomos (El); 3, Eleri Jones (E).

Adrodd Saesneg, dosb. 3 a 4: 1, Nia Griffith (G); 2, Sara Wood (El); 3, Sioned Jones(G). **Unawd Pres dosb. 1, 2 a 3:** 1, Martin Williams (El); 2, Euros Williams (El); 3, Luned Jones (G). **Deuawd:** 1, Tammi a Ffion (Er); 2, Nia a Lyndsey (G); 3, Sara a Leri (E ac El).

CYFARFOD Y NOS

Grŵp Cân Ysgafn: 1, Rôgs; 2 (cyd), Plant Newydd ar y Bloc; Stanleys. **Unawd Genethod dosb. 4, 5 a 6:** 1, Ffion Jones (Er); 2, Sioned Owen (El); 3, Delyth Price (G). **Adrodd Cymraeg dosb. 3 a 4:** 1, Menna Williams (E); 2, Nia Griffith (G); 3, Donna Williams (G). **Unawd Piano dosb. 4, 5 a 6:** 1, Sioned Meleri Owen (El); 2, Lowri Angharad (G); 3, Nia Griffith (G).

Parti Bechgyn dosb. 1, 2 a 3: 1, Gwyrfai; 2, Elidir; 3, Eilian ac Eryri. **Adrodd Saesneg dosb. 1 a 2:** 1, Lyndsey Parry (G); 2, Nia Jones (Er); 3, Sara Pepper (E). **Unawd Cerdd Dant:** 1, Nia Land (G); 2, Lowri Angharad (G); 3, Sioned Meleri Owen (El); 4, Hefina Jones (Er).

Enillydd y Gadair: 1, Tammi Jones (Er); 2, Sioned Meleri Owen (El) a Lynne Crowther Roberts (El).

Unawd Bechgyn dosb 1, 2 a 3: 1, Llŷr Siôn (G); 2, Martin Thomas (G); 3, Emyr Gibson (G). **Parti Cyd-adrodd:** 1, Eilian; 2, Elidir; 3, Gwyrfai ac Eryri. **Unawd Pres dosb. 4, 5 a 6:** 1, Dylan Williams (G); 2, Eilir Williams (Er); 3, Bryn Jones (Er). **Sgets:** 1, Eilian; 2, Gwyrfai; 3, Eryri ac Elidir.

Unawd Bechgyn dosb. 4, 5 a 6: 1, Trystan Thomas (El); 2, Euron Thomas (Er); 3, Dyfed Jones (Er). **Parti Cerdd Dant:** 1, Eryri; 2, Gwyrfai; 3, Eilian ac Elidir. **Adrodd dosb. 5 a 6:** 1, Sioned Meleri Owen (El); 2, Trystan Thomas (El); 3, Euron Thomas (Er). **Unawd Llinynnol a Chwythbrennau dosb. 4, 5 a 6:** 1, Lowri Angharad (G); 2 (cyd), Sara Wood (El) a Tammi Jones (Er); 3 (cyd), Wena Williams (G) a Lowri Williams (G). **Côr Deulais:** 1, Eilian; 2, Gwyrfai; 3, Eryri; 4, Elidir.

Tlws Emma Bernard: Tammi Jones (Er). **Enillydd y mwyaf o farciau o dan 15:** Lyndsey V. Parry (G). **Enillydd y mwyaf o farciau dros 15:** Tammi Jones. **Y Tŷ a enillodd y mwyaf o farciau offerynnol:** Gwyrfai.

Marciau Terfynol: Gwyrfai 545½; Elidir 470; Eryri 453½; Eilian 403.

Katy Grant a Sharon Williams — enillwyr y ddeuawd ddigri.

Lowri Williams a Rhodri ap Llwyd gyda chwpanau Gwyrfai, y tŷ buddugol, y mwyaf o farciau ymlaen llaw a'r mwyafrif o farciau mewn cystadlaethau offerynnol.

HWYL YR EISTEDDFOD

Hwyl y cystadlu. Bechgyn Eilian yn perfformio 'C'mon Midffild'.

Y grŵp pop buddugol — R'ogs.

Parti Cyd-adrodd buddugol — Eilian.

Côr Eilian aeth â hi yng nghystadleuaeth ola'r eisteddfod.

Parti bechgyn Gwyrfai — yr enillwyr, gyda'u hyfforddwyr Lowri Angharad a Lowri Williams

Parti Cerdd Dant Eryri yn falch o ddangos Cwpan yr Enillwyr.

CARPEDI GLÂN!
Mynnwch driniaeth
STIMVAK
gyda'r offer mwyaf modern, diweddaraf, sydd ar gael. Am fanylion cysylltwch â
TEGID PRITCHARD
CANOLFAN CARPEDI
WAUNFAWR 291
Hefyd ail-osod carpedi

Aelodau o sgets Eilian. Nid oedd Ian Parry yn bresennol i gael tynnu ei lun.

WELDIO OFFER FFERM A PHEIRIANNAU DIWYDIANNOL
GWNEUD GIATIAU, FFENSYS AC ATI AR GYFER Y CARTREF
ATGYWEIRIO TAI GWAIR
E. PUGH
WELDING & FABRICATING
32 GLANFFYNNON
LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 5394

DAN FLEW EIN LLYGAID

hefo'r LLYGAD FACH GRAFF

BYW CELWYDDAU: MAE ISHIO ARCHWILIO EIN PENNAU

Postmortem? Ie'n anad dim byd arall. Rhyfedd fel y mae rhai gwybodusion mewn uchel-leoedd yn mynnu condemnio Calan Gaeaf, a minnau yn gwybod o'r gorau i'm mam, hyd yn oed, er ei bod, Mistar Gwilym Humphreys, o deulu crefyddol (Calfiniaid rhonc Mistar Humphreys bach), fynd o gwmpas bob Calan Gaeaf hefo meipen wag a channwyll oleuedig ynddi. Ond gwarchod (nid gwrachod) pawb, mae Cyfarwyddwr Addysg Gwynedd yn mynnu i'n hathrawon, y rhai cleniaf a'r mwyaf anhydrin ohonynt, ddileu pob sôn yn eu sgwrs â'r hen blantos annwyl, unrhyw beth sy'n ymwneud â dyfodiad y Gaeaf.

Gaeaf llwm fydd hwn imi Mistar Humphreys. Rhyfedd na fyddech chwi wedi ceisio 'banio' Guy Ffowcs hefyd. Wel, mi fyddai hynny yn fwy cyfiawn na cheisio damio Calan Gaeaf fel y gwnaethoch.

Rêl hen fygyr slei bach wyddoch chi, oedd Syr Robart Cecil, prif ddyn y Brenin Seisnig Iago'r cyntaf. Doedd Gatsby a'r hen Guido, os ydach chi'n dallt tipyn ar Hanes hefo Aits Fawr, ond darnau megis mewn gêm wyddbwyll yn ei law, ond ei fod ef yn galw'r symudiad bob tro.

Cythraul bach difeind oedd Cecil, Mistar Humphreys, yn mynnu arteithio a mwrdro miloedd o Gatholigion er mwyn hyrwyddo ei hen bolisiau Seisnig twp fo'i hunan, sef cadw pob Catholig dan draed.

Rwan, rydach chi'n sylweddoli arwyddocad hyn i gyd yn tydach? Ar ran moes a phurdeb roeddech chi yn gwrthwynebu Calan Gaeaf. Wel, ble goblyn ddiawl oeddech chi hefo mater Guy Fawkes (y boi anghywir a losgwyd)? Ynte a ydych yn cymeradwyo un o wyliau Seisnig go iawn i droi pobl Cymru yn Saeson?

Ie, Tachwedd y 5ed, Mistar Humphreys, dydd i'w gladdu unwaith ac am byth oherwydd ei brif ddiben yw codi casineb yn erbyn y ffydd Gatholig, a phlygu glin i'r Frenhiniaeth hollwybodol anghymarus a thanbaid Seisnig.

Ie, un rhyfedd ydach chi Mistar Humphreys, pan fo'n fater o gysoni dadleuon teg dros gadw un Ŵyl a dileu un arall a oedd yn fwy Cymreig na'r dydd o bropaganda Seisnig a gynigir inni fel cenedl y Cymry bob Tachwedd y pumed. Duw a'n gwaredo, Gyfarwyddwr bach!!

CYMDEITHAS WYDDONOL GWYNEDD

Rhagfyr 4, bydd y Gymdeithas yn ymweld ag Adnoddau Barcud yn Ystad Ddiwydiannol Cibyn, Caernarfon.

TŶ BWYTA A STAFELLOEDD TE BRYN GWYNEDD, WAUNFAWR

(100 llath o'r A4085 ger yr ysgol)

Bwydlen yn cynnwys: Prydau basged o **£1.75**
A la carte o **£4.30** (3 chwrs), Bwyd Plant o **£1.75**
Bwyd Llysfwytawyr o **£3.85**
Prydau ysgafn, teisennau cartref etc.
GWASANAETH TAKEAWAY tan 10 pm bob dydd
Galwch mewn neu ffoniwch Rita i
drefnu rwan ar gyfer cinio neu swper Dolig
(lle i hyd at 12 ar y tro)
Ffon Waunfawr 589
Ar agor bob dydd 5pm - 10 pm a
Sadwrn a Sul 10.30 am -10 pm o fis Tachwedd ymlaen

Agor Ffiniau'r Gorffennol

Gan Mary Lloyd Williams, B.E.M.

Yr Eisteddfod Ddelfrydol – 1983 yn Llangefni

Beth fuasech chwi yn galw Eisteddfod Genedlaethol Ynys Môn 1983? Buasai gan pob un farn bersonol — 'Eisteddfod Ddelfrydol';'Yr Eisteddfod Groesawus';'Yr Eisteddfod Dawel';'Yr Eisteddfod Glên', ac ati.

Mi fuaswn i yn ei galw'n 'Eisteddfod yr Heulwen'. Bu clarc y tywydd yn hynod o garedig ar hyd yr wythnos. Yr oedd haul yn sicrhau fod y Cymry yn dod yno o'r De a'r Gogledd — ac yn llawn brwdfrydedd. Cafodd pawb groeso a theimlo fod teimlad da yn teyrnasu yn yr Ynys ar hyd yr wythnos.

Y mae bron bob peth posibl eisoes wedi ei ddweud yn y papurau newyddion. Y mae felly yn dipyn o gamp dweud rhywbeth na chlywsoch o'r blaen.

Felly dowch gyda mi at barti o blant sy'n sefyll tu ôl i gownter Pabell HTV Cymru.

Pabell oedd hon lle roedd aelodau o bob gwlad trwy'r byd yn cael benthyg peiriant i fynd i'r Pafiliwn i glywed cyfieithiad o bob peth oedd yn mynd ymlaen ar y llwyfan yn y Pafiliwn.

Un o'r plant a welais yn sefyll oedd Aled Harri Jones, 28 Ffordd y Coleg, Bangor. Gofynnais i Aled Jones a fuasai yn disgrifio'r gwaith ar bapur er mwyn i mi gael ei roi yn fy ngholofn yn yr 'Herald Cymraeg'.

Dyma ateb Aled Jones: 'Mae'r HTV yn cynnig gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn y Pafiliwn i Gymry di-Gymraeg a phawb arall sy'n ddi-Gymraeg yn ystod wythnos yr Eisteddfod. Golyga hyn fod pawb yn gallu dilyn y gweithgareddau yn y Pafiliwn. Mae'r gwasanaeth yma yn cael ei gynnig yn rhad ac am ddim. Y mae'n wasanaeth amhrisiadwy i Gymry ar wasgar a phawb arall. Gofynnir am bunt o ernes am fenthyg y peiriant cyfieithu a rhoddir y bunt yn ôl wrth i'r peiriant gael ei ddychwelyd ar ddiwedd y diwrnod.'

Deallais fod Americanwyr, Almaenwyr, Japaneaid, pobl o'r Iseldiroedd a phob rhan o'r byd wedi galw.

Gofynnais i Aled Jones roi enghraifft i mi. Meddai: 'Bu gwraig o Japan o'r enw Masasumi Misawa yma. Darlithydd oedd hi mewn Saesneg mewn Prifysgol Merched yn Buntea. Cefais gerdyn i'w gadw gyda'i chyfeiriad gartref, a rhif ei theilffon yn yr iaith Saesneg a'r iaith Japaneaidd.'

Yr oedd y gwasanaeth yma yn amhrisiadwy ac yn hollol wirfoddol wrth gwrs.

Eis wedyn i'r Babell Lên i wneud gwaith stiward. Pan yn disgwyl i'r cyfarfod ddechrau cefais sgwrs gyda Mrs Dilys Hughes o Stafford (athrawes).

Dywedodd wrthyf y bydd modryb ei gŵr, sef Miss E. Hughes, Gweithdy, Gwalchmai, Sir Fôn, yn anfon Herald Môn iddynt bob wythnos, a sicrhaodd fi y bydd yn ei ddarllen bob gair gyda phleser ac yn dysgu llawer ynddo.

Ychwanegodd Mrs Dilys Hughes o Stafford trwy ddweud: 'Bum innau ym Mhabell Gwasg Gwynedd a rhois fy enw i fod yn aelod o Gymdeithas Bob Owen ar ôl darllen hanes 'Y Casglwr' yn eich colofn chwi yn Herald Môn.'

Y Mae'r 'Casglwr' yn orlawn o hanesion difyr a gwerthfawr iawn. Tair punt yw ei bris am dri rhifyn o'r Casglwr, un ar y Pasg, un yn yr Eisteddfod Genedlaethol fis Awst, ac un wythnos y Nadolig. Daw ichwi drwy'r post.

Llyfr 'Yr Ysgol Farddol'

'Yr Ysgol Farddol' gan fyrddiwn — fawrheir

Fu 'rioed well opiniwn:
Dyma ysgol ganmolwn
Y gamp yw ei hesgyn, gwn.

Glan Rhyddallt, 1903

Dyma'r englyn wnaeth fy nhad yn fyrfyfyr yn yr Arholiad yn 1903 a Hwfa Môn yr Archdderwydd yn beirniadu.

Yn Eisteddfod Genedlaethol Llanelli y cafodd ei urddo â'r enw barddol Glan Rhyddallt.

Yn fy nghrud yn naw mis oed yr oeddwn i ac yn byw ym Mhenybont Bach ar lan yr afon Rhyddallt neu Afon Seiont. 28 mlwydd oedd oed fy nhad ar y pryd.

Yr oedd tri Pen y Bont — Penybont Bach, Penybont, sef y Dafarn, a Pen y Bont, tafarn cwrw cartref - y tri yn ymyl ei gilydd.

Pan yn pysgota yn 14eg oed y sylweddolodd fy nhad ei fod awydd barddoni medda fo.

APÊL Y GALON

Mae cardiau Nadolig Apêl y Galon ar werth gan Mrs Mai Parry, 2 Bryn Heli, Ffordd Glanffynnon, Llanrug. Ffôn: Caernarfon 4385.

Dyddiadur y Mis

RHAGFYR

1. Sadwrn: PENISARWAUN: Trip Caer.

3. Llun: DEINIOLEN: Sefydliad y Merched — Cyfarfod Blynyddol.

4. Mawrth: DEINIOLEN: Undeb y Mamau; PENISARWAUN: Yr Urdd — Gwaith Llaw; LLANRUG: Pontrhythallt, Y Gymdeithas Undebol — 'Noson o Gân' gan Barti Glannau Menai.

5. Mercher: WAUNFAWR: Yr Urdd. Noson o Garolau yn y Ganolfan am 6.00; LLANRUG: Plaid Cymru — Ffair Nadolig yng nghwmni Siôn Corn yn yr Ysgol Gynradd, 7.00; DINORWIG: Eisteddfod Bentref, 7.00; CWMYGLO: Cinio Nadolig yr Oedolion, 6.00.

6. Iau: YR ARDAL: Clwb Eryri yng ngwesty Gwynedd, Llanberis; Undeb y Mamau, Gwasanaeth Carolau yn Hafan Elan, Llanrug; BETHEL: Yr Urdd, Parti Nadolig a Disgo 5.30; LLANRUG A'R ARDAL: Antur Padarn yn y Sefydliad Coffa, 7.00

10. Llun: WAUNFAWR: Cymdeithas Lenyddol yn y Ganolfan, 7.00 'Diwrnod o Waith'. BRYNREFAIL: Sefydliad y Merched, Cinio Nadolig; DEINIOLEN: Merched y Wawr

11. Mawrth: LLANRUG: Merched y Wawr — Cinio Nadolig; PENISARWAUN: Yr Urdd — Gêm o Chwilen.

12. Mercher: CWMYGLO: Gyrfa Chwist Nadolig yn yr Ysgol Gynradd, 7.30.

13. Iau: DEINIOLEN: Cyfarfod Blynyddol y Ganolfan; DINORWIG: Cymdeithas Undebol — Gwasanaeth Carolau yn yr Ysgol Gynradd; PENISARWAUN: Gwasanaeth Nadolig yr Ysgol yn Eglwys Santes Helen, 6.00.

14. Gwener: BRYNREFAIL: Eglwys MC Cymdeithas y Chwioryddd — Cyngerdd gan Lleisiau'r Rhyd, 7.30; LLANRUG: Yr Ysgol Gynradd — Gwasanaeth Nadolig yn y Capel Mawr.

15. Sadwrn: BANGOR: Gŵyl Garolau Sefydliad y Merched yn yr Eglwys Gadeiriol, 6.30.

16. Sul: BRYNREFAIL: Eglwys MC — Gwasanaeth Nadolig am 5.30; LLANRUG: Capel Mawr — Te Parti yr Ysgol Sul; DEINIOLEN: Gwasanaeth Nadolig Ieuenctid yn Ebeneser, 5.30.

17. Llun: CWMYGLO: Yr Ysgol Gynradd — Gwasanaeth Nadolig, 6.30; LLANRUG: Yr Ysgol Gynradd — Cymdeithas Cyfeillion yr Ysgol, Noson Wasail, 6.00; BETHEL: Siôn Corn o amgylch y pentref ac yn y Neuadd, 7.30; LLANRUG: Theatr Bara Caws yn cyflwyno 'Io, To a'r Twrci' yn Ysgol Brynrefail am 7.30.

18. Mawrth: DINORWIG: Recordio rhaglen 'Talwrn y Beirdd', 7.00.

19. Mercher: PENISARWAUN: Yr Urdd — Parti Nadolig; DEINIOLEN: Undeb y Mamau, Cinio Nadolig.

20. Iau: DEINIOLEN: Yr Ysgol Feithrin — Cyngerdd yn Festri Ebeneser, 6.30.

23. Sul: LLANRUG: Capel Mawr. Gwasanaeth Nadolig yr Ysgol Sul, 10.00.

25. Mawrth: DYDD NADOLIG — NADOLIG LLAWEN I BAWB!

26. Mercher: Gŵyl San Steffan.

31. Llun: Nos Galan.

CROESAIR RHAGFYR



Ar Draws

1. Yr hyn a ddeillia o Bwyllgor (12)
8. O'r Eglwys (8)
9. 'Forte' canu Cymreig (4)
11. O ---- - daw marwolaeth (4,1)
12. 'Diafol hardd' hwyrach (4,3)
13. Gormod o -- -- wna ddrwg i'r dannedd (2,2)
15. Gorchymyn i ti wneud (4)
19. Un o'r ail Dŷ (7)
20. Gwesty Saesneg o chwith (5)
22. Y llinyn sy'n rhedeg drwy'r gwaith (4)
23. Ni chaiff, yn siwr i chwi (8)
24. Gwelir rhain yn aml ar y bocs (12)

I Lawr

2. Y flwyddyn hon (5)
3. Y diwedd am ddod (6)
4. Ni fu i ------ Môn gystadlu! (6)
5. Yr hyn a geir o fethu gwneud hwn (7)
6. Dal ati i goncro 5 i lawr (12)
7. Damweiniau anghyfreithlon (12)
10. Mab yr afr (myn)
14. Ffotograffydd gwan fyddai un felma (7)
16. Mwy nag un chwaer (3)
17. Beth wna'r Llywodraeth cyn etholiad (3,3)
18. Heddiw, lle bu'r simdde fawr (2,4)
21. Beth ddywedodd Efa? (2,3)

CROESAIR TACHWEDD

Oedd, roedd o'n anodd! A dim ond pedwar cynnig yn unig ddaeth i law. Ble roedd yr holl groeseirwyr? A **dwy** wobr i'w hennill!

Dau gynnig cywir ddaeth i law'r golygydd — a'r ddau o'r tu allan i fro'r Eco. Roedd y ddau ymgeisydd arall (o fewn bro'r Eco) wedi methu ar rif 19 ar draws, gan roi 'HYLYW' yn ateb yn hytrach na 'HYFYW'.

Yr enillwyr oedd: Mrs Jean Hughes Jones, Llys Gwilym, Pencaerau, Rhiw, Pwllheli a E. E. Jones, Tŷ Mawr, Rhoshirwaun. Llongyfarchiadau i'r ddau ohonoch.

Anfonwch atebion Croesair Rhagfyr i Dafydd Whiteside Thomas, Bron-y-Nant, Llanrug, Caernarfon, erbyn dydd Mawrth, Rhagfyr 11.

BETH YW STRÔC?

Y mae strôc yn golygu'r un peth i'r ymennydd a thrawiad i'r galon, a niweidir yr ymennydd bob amser gan strôc fel y niweidir y galon gan ymosodiad arni. Canlyniad hyn yw fod rhan o'r ymennydd yn peidio gweithredu. fel rheol, achosa wendid, parlysir y fraich a'r goes ar ochr chwith neu ochr dde y corff, dirdroir yr wyneb, ac mewn rhai achosion gall yr effeithiau gynnwys colli cydbwysedd y corff, amhariad ar y golwg, amhariad ar y lleferydd ac anhawster i lyncu. Mewn achosion difrifol iawn, collir ymwybodaeth neu cymysgir y meddwl. Achosir y niwed gan dorthen yn y gwaed neu gan waedlif.

Yn anffodus gall unrhyw un o unrhyw oed ddioddef strôc unrhyw bryd er bod y rhan fwyaf yn digwydd yn ystod ail hanner bywyd.

Mewn rhai cleifion mae eu lleferydd yn cael ei effeithio. Mae'r cyflwr yn digwydd yn oddeutu hanner y cleifion a gaffo barlys ar yr ochr dde i'r corff, ond anaml iawn y digwydd pan barlysir yr ochr chwith.

Effeithir ar leferydd mewn dwy ffordd. Mewn rhai cleifion bydd yn aneglur ac mewn rhai cleifion yn gwbl anealladwy, ond gall y claf ddarllen ac ysgrifennu a deall yn berffaith yr hyn a ddywedir; gelwir y cyflwr hwn yn dysarthia, ac fel rheol bydd yn ymateb i driniaeth.

Mae'r cyflwr arall yn fwy cymhleth. gelwir ef yn dysphasia, neu aphasia, a'i achos yw niwed i'r rhan o'r ymennydd sy'n rheoli holl brosesau iaith. Gall hyn effeithio ar allu'r claf i siarad, deall lleisiau, darllen ac ysgrifennu.

Y mae rhai achosion yn rhai ysgafn, a chaiff y claf anhawster i ddod o hyd i'r gair cyfarwydd. mewn achosion eraill, bydd yr iaith yn dod yn boenus o araf a phetrus ac fe rydd cleifion y gorau i'w hymdrechion i gyfathrebu ag eraill.

Yn yr achosion gwaethaf, ni all y claf ddweud yr un gair, neu ond ail-adrodd yr un gair neu frawddeg dro ar ôl tro.

Mewn achosion eraill, gall y lleferydd fod yn llawn o ymadroddion di-synnwyr ac anodd fydd deall ystyr geiriau'r claf. Gall adferiad o dyspasia fod yn chwim ac yn llwyr, ond yn y rhan fwyaf o'r achosion bydd yn araf ac anghyflawn.

Bydd angen llawer o help gan y cleifion a'u perthnasau gan therapyddion lleferydd ac eraill fel y 'Cynllun Strôc Gwirfoddolwyr' sy'n weithredus yng Ngwynedd.

Amcan y cynllun yw i ddefnyddio gwirfoddolwyr i helpu cleifion sy'n cael trafferth i siarad ar ôl cael strôc. Defnyddir pobol o bob oedran a chefndir i ymweld â'r cleifion yn eu cartrefi, yr unig ofynion yw bod y gwirfoddolwyr yn gyfeillgar, amyneddgar ac yn barod i roi awr yr wythnos at yr achos.

Os oes diddordeb gennych cysylltwch â'ch trefnydd lleol sef Mari Boyle, 2 Y Glyn, Porthaethwy.

CHWARAEON

PÊL-DROED Y GYNGHRAIR

Ychydig o ofod y mis hwn i ddau o dimau'r ardal sy'n aelodau o gynghrair pêl-droed Sain, Caernarfon a'r cylch, sef ail dimau Llanberis a Llanrug.

Gwn fod tim pentref Deiniolen yn cystadlu ynddi hefyd, ac rwy'n addo y bydd camera'r Eco'n eu dilyn hwythau rhyw Sadwrn yn ystod y mis nesaf ac mai hwy fydd yn addurno rhifyn y Nadolig.

Mae'r ddau dîm yn uchel yn nhabl y gynghrair, yn wir, Llanberis sydd ar y copa ar hyn o bryd, ac fe allaf dystio eu bod ill dau yn werth eu gwylio pan ar eu gorau.

Ar Sadwrn, Tachwedd 17, bu Llanrug yn fuddugol mewn gêm hynod o gyffrous rhyngddynt yn rownd gyntaf Cwpan Moorings. Tair gôl i un oedd y sgôr derfynol, hynny ar ôl i Lanberis ledio ar hanner amser o gôl i ddim.

Maldwyn Williams yw rheolwr ail dîm Llanrug, ac mae Dafydd Arfon Jones yn ei gynorthwyo. Y mae cymaint â 5 golgeidwad yn y sgwad, sef Alan V. Owen, John Roberts, Gwilym Williams, Mark Jat a Gareth Parry. Iwan Pritchard, Chris Hughes, Wayne Owen, Nigel Jacks, Kevin Owen, Ceris Jones a Dafydd Lloyd Jones yw'r cefnwyr; Dafydd M Jones, Gwyn Arfon Roberts, Michael V. Owen, Martin Bohana, Geraint Evans a Kevin Williams yw'r midffild tra fo Dewi Williams, Glyn Evans, Kevin Davies, Phil Guy, Dafydd Roberts a Gwyn Jones yn creu problemau fyny'r ffrynt i'r timau eraill.

Aelodau ail dîm Llanberis yw'r golgeidwaid Michael Roberts, Steven Owen a Gwilym Williams. Y cefnwyr yw Dylan Jones, Ray Harding, Cai Williams, D. Evans, Andrew Owen ac Alan Williams. Paul Thomas, Kelvin Jones, Rodney Roberts, John Ivor Jones, Kelvin Houston ac Edward Rogers yw chwaraewyr canol y cae ac Alwyn Williams, Ian Evans ac Ian Hughes yw'r ymosodwyr.

Gwilym Williams a Kelvin Jones yw'r rheolwyr.

CYNRYCHIOLI EI WLAD

Mae Marc Lloyd Williams o Lanberis wedi ei ddewis i chwarae yn nhîm pêl-droed Colegau Technegol Cymru yn erbyn Colegau Lloegr ar gae Stockport County nos Fercher, Rhagfyr 12. Bydd ei dîm hefyd yn chwarae yn erbyn Ysgolion Cymru ar y Vetch ar Ragfyr 6.

Marc ydi capten tîm dan ddeunaw oed Ysgolion Gogledd Cymru, ac fe fyddant yn chwarae yn erbyn timau'r de a'r canolbarth yn y dyfodol agos er mwyn dewis Tîm Cymru. Os caiff ei ddewis i hwnnw, fel y cafodd y llynedd, fe allai gael ei hun yn aelod o'r ddau dîm fydd yn cystadlu â'u gilydd ar y 6ed!!

Mae Marc hefyd yn aelod o dîm dan 18 oed Cynghreiriau Gogledd Orllewin Cymru fydd yn chwarae yn erbyn y Canolbarth, Gogledd Ddwyrain Cymru a'r Alban cyn diwedd y tymor.

SORI — dim cwis y mis yma, cewch atebion mis Tachwedd ynghŷd a chwis y Nadolig yn y rhifyn nesaf.

PYSGOTA Adroddiad H. P. Hughes

Â'r tymor drosodd bellach, mae'r gwaith o gynnal a chadw ac hefyd gwella ein hadnoddau pysgota yn mynd ymlaen. Gwaith megis glanhau y glannau, atgyweirio a chreu pyllau newydd, yn ogystal â chwblhau'r ddeorfa.

Wrth edrych yn ôl ar dymor '90 er gwaetha'r sychdwr mawr, ar ddiwedd y dydd roedd nifer yr eogiaid a ddaeth o'r Seiont yn foddhaol, tua 140 yn ôl fy nghyfri i, ond siomedig iawn oedd y Llyfni a'r Seiont ar y cownt yma.

Hefyd wrth edrych ar y nifer o Sewin ddaeth i'r rhwyd, digalon iawn yw'r ffigyrau, er fod y nifer a welwyd yn rhedeg y Seiont yn foddhaol. Mae pryder mawr trwy'r wlad gan fod nifer y pysgod yma yn lleihau ac un o'r rhesymau am hyn yn ôl y si, ydi fod gor-bysgota yn y môr am sliwen. Dyma brif fwyd y Sewin, ac mae'n biti gan fod y gor 'sgota yma yn cael ei wneud er mwyn cael gwrtaith i'r tir ac i fwydo'r eogiaid sydd yn cael eu magu'n gaeth ar gyfer y farchnad mewn rhwydi mawr yn llynnoedd môr yr Alban.

Mewn ymateb i'r broblem yma, fe gynhelir cyfarfod agored yng Ngwesty'r Gwydr, Betws y Coed am 7.15 pm nos Fercher, Rhagfyr 5. Gwnewch ymdrech i fod yn bresennol fel y gall yr Awdurdod Afonydd weld cryfder teimladau'r pysgotwyr lleol.

Y nos Fercher ganlynol fe gynhelir Pwyllgor Blynyddol y Gymdeithas yng ngwesty'r Royal, Caernarfon am 7 o'r gloch. Eto, dylai pob aelod wneud ymdrech i fod yn bresennol, gan fod nifer o faterion pwysig i'w trafod, fel yr un sydd wedi bod yn bwynt llosg i lawer sef 'sgota'r corgimwch.

YSGOL BRYNREFAIL

NOFIO

Bu Catrin Jones o lanrug yn cynrychioli Ysgolion Gwynedd ym Mhencampwriaeth Ysgolion Cymru. Roedd yn nofio yn y ras ar y cefn ac yn y ras gyfnewid. Ni fu'n llwyddiannus y tro yma ond mae'n ddigon ifanc i nofio yn yr un oedran eto'r flwyddyn nesaf.

HOCI

Mae Louise Murphy o'r 6ed Dosbarth wedi ei dewis i dîm hoci Ysgolion Gwynedd.

SGIO

Ym mhencampwriaethau Cymru fe enillodd Caitlin Wroe y ras i enethod o dan 14 oed. Fe ddaeth hefyd yn drydydd o'r holl enethod oedd yn cystadlu o bob oed.

PÊL-DROED

Yn ystod y mis bu Gavin Allen yn chwarae dwy gêm i dîm dan 15 oed Gogledd Cymru yn erbyn Ysgolion Dulyn ac Ysgolion Lerpwl. Colli'r ddwy gêm wnaeth y Gogledd. Ar Sadwrn 24ain bu'n chwarae mewn treial i ddewis tîm Cymru yn y Drenewydd yn erbyn Ysgolion y De.

PÊL-DROED YSGOLION ARFON

Dewiswyd 5 o fechgyn yr ysgol yn y garfan i chwarae yn y ddwy gêm gyntaf o'r tymor yn erbyn Ysgolion Sir Fôn a Sir Feirionydd, sef Gavin Allen, Andrew Jones, Siôn Hughes (i gyd o Ddeiniolen), Raphael Ginsberg (Bethel), Andrew Gardiner (Llanrug), a Simon Murphy (Llanrug). Fe enillodd y tîm yn Sir Fôn o 5-1 yn y gêm gyntaf, Gavin Allen yn sgorio 4 gôl a Raphael y llall.

TRAWS GWLAD

Pencampwriaethau Ysgolion Cymru yn y Drenewydd

Fel arfer roedd Colin a Carolyn Jones yn cystadlu yn y Pencampwriaethau yma. Hefyd eleni fe aeth disgyblion o blwyddyn 1 a blwyddyn 2 i gystadlu sef Paul Jones, Cerwyn Jones, Martin Parry, Rhian Green, Julie Roberts, Elinor Williams, Meinir Roberts a Linsey Jones.

Fe enillodd Colin y ras i fechgyn hŷn o rhyw 100m er ei fod hefo annwyd trwm ac felly unwaith eto mae'n bencampwr Ysgolion Cymru. Ar ddiwedd y diwrnod cyflwynwyd Colin nid yn unig hefo'i fedal am ennill ond hefyd cafodd dlws gan y noddwyr — Y Bwrdd Marchnata Llaeth am ei fod yn eu barn hwy yn sefyll allan fel yr athletwr traws gwlad ifanc gorau yng Nghymru yn 1990.

Roedd Carolyn ei chwaer yn 41 yn ei ras hi allan o 150 o redwyr.

Martin Parry (Cwm) wnaeth orau o'r bechgyn ieuengaf, roedd yn 23ain mewn cae o dros 200. Rhian Green (Pontrug) a ddaeth i mewn yn 88 oedd y gorau o'r genethod ieuengaf, eto mewn cae o dros 200 o redwyr. Mae'r ddau yn ddigon ifanc i gystadlu yn yr un oedran flwyddyn nesa.

Yn y llun, gwelir Colin efo'r tlysau a enillwyd ganddo'n ddiweddar, sef y cwpan a gyflwynwyd iddo'r haf diwethaf gan Colin Jackson am dorri'r record 3000m ym mhencampwriaethau Ysgolion Cymru; yr anrhydedd a gafodd am yr ail flwyddyn yn olynol fel athletwr gorau ysgolion Gwynedd ynghŷd â'r tlws gwydr hardd gan y Bwrdd Marchnata Llaeth.